Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 3 Tachwedd 1999

Wednesday 3 November 1999

Cynnwys
Contents

3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services

12 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

20 Datganiad ar Gwmni Dillad Bairdwear
Statement on the Bairdwear Clothing Company

33 Dadl Plaid Leiafrifol (Democratiaid Rhyddfrydol): Yr Economi Cymdeithasol
Minority Party Debate (Liberal Democrats): The Social Economy

57 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Y Gwasanaeth Iechyd
Minority Party Debate (Plaid Cymru): The Health Service

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services

Costau Teledu a Ffôn mewn Ysbytai
Television and Telephone Charges in Hospitals

Q1 Owen John Thomas: Has the Secretary for Health and Social Services had any success to date in causing reduction to be made in relation to the charges to patients for the use of television and telephone facilities in hospitals in Wales? (OAQ1652VB)

C1 Owen John Thomas: A yw'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael unrhyw lwyddiant hyd yma o ran lleihau'r costau i gleifion am ddefnyddio cyfleusterau teledu a ffôn mewn ysbytai yng Nghymru? (OAQ1652VB)

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): The University Hospital of Wales is the only hospital in Wales operating a prepay smartcard system to provide additional individual bedside television, radio and telephone facilities. The hospital managers meet regularly with the private operators of the service to discuss the charges levied and the flexibility of the service. I am pleased to confirm that, as a direct result of these meetings, changes to the charging system will be introduced early next year.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Ysbyty Prifysgol Cymru yw'r unig ysbyty yng Nghymru sydd â system cerdyn talu ymlaen llaw sydd yn cynnig cyfleusterau teledu, radio a ffôn unigol yn ychwanegol wrth ochr y gwely. Mae rheolwyr yr ysbyty yn cyfarfod gyda gweithredwyr preifat y gwasanaeth yn gyson i drafod y taliadau a godir a hyblygrwydd y gwasanaeth. Mae'n bleser gennyf gadarnhau y bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r system codi tâl yn fuan y flwyddyn nesaf, o ganlyniad uniongyrchol i'r trafodaethau hyn.

The free television facilities provided in the day room on each ward will continue to be provided, as will the public telephones. Relatives will also still be able to telephone the nurses' station to enquire about a patient's condition.

Bydd y cyfleusterau teledu rhad ac am ddim yn parhau i gael eu cynnig yn yr ystafell gyffredin ar bob ward, ac felly hefyd y ffonau cyhoeddus. Bydd perthnasau hefyd yn gallu parhau i ffonio gorsaf y nyrsys i holi ynghylch cyflwr claf.

Owen John Thomas: In view of the recent loss of heart and kidney transplant surgeons from the University Hospital of Wales—surgeons who questioned the hospital's commitment to transplant surgery—is the Secretary not concerned that Welsh hospitals using patient line services derive neither rent nor other financial return for this profitable enterprise? Will the Secretary advise other NHS trusts contemplating using the service to demand a reasonable rate for patients' use of televisions and telephones and thus gain adequate financial return for the hospital so that better medical services can be provided?

Owen John Thomas: Gyda golwg ar y ffaith bod llawfeddygon trawsblannu calonnau ac arennau wedi gadael Ysbyty Prifysgol Cymru'n ddiweddar—llawfeddygon a oedd yn amau ymrwymiad yr ysbyty i lawfeddygaeth trawsblannu—onid yw'r Ysgrifennydd yn pryderu na fydd ysbytai Cymru sydd yn defnyddio gwasanaethau llinell cleifion yn cael na rhent nac elw ariannol arall o'r cynllun proffidiol hwn? A wnaiff yr Ysgrifennydd gynghori ymddiriedolaethau eraill yr NHS sydd yn ystyried defnyddio'r gwasanaeth hwn i fynnu tâl rhesymol am ddefnydd cleifion o deledu a ffonau a thrwy hynny gael enillion digonol i'r ysbyty fel bo modd gwella'r gwasanaethau

meddygol a gynigir?

Jane Hutt: As I said, this is the only hospital in Wales that is using the patient line smartcard service. It is an individual service which the trust negotiated with the company providing it. I am confident that the charges issue that you raised in your question will be looked at and that there will be free access to television and telephone lines. You have a rather extraordinary twist in your question but I am happy to say that this in no way affects the cost of the support and the resourcing of the University Hospital of Wales and of the important specialist services which you described. This is only in terms of this income. It does not impact in any way on resourcing issues.

Jane Hutt: Fel y dywedais, hwn yw'r unig ysbyty yng Nghymru sydd yn defnyddio'r gwasanaeth cerdyn llinell cleifion. Un gwasanaeth yw hwn, a drafodwyd rhwng yr ymddiriedolaeth a'r cwmni sydd yn ei ddarparu. Yr wyf yn ffyddiog y bydd mater y gost, y gwnaethoch chi ei godi yn eich cwestiwn, yn cael ei ystyried ac y bydd modd defnyddio teledu a ffôn yn rhad ac am ddim. Mae gennych dro eithriadol yn eich cwestiwn ond yr wyf yn fodlon dweud nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar gost y gefnogaeth a'r adnoddau a roddir i Ysbyty Prifysgol Cymru a'r gwasanaethau arbenigol y gwnaethoch chi eu disgrifio. Dim ond o ran yr incwm y mae hyn yn wir. Nid yw'n effeithio ar faterion adnoddau mewn unrhyw ffordd.

Christine Humphreys: Are there any measures in place to ensure that hospital inpatients in all parts of Wales have easy access to Welsh language radio and television?

Christine Humphreys: A oes unrhyw fesurau ar waith i sicrhau ei bod yn hawdd i gleifion mewn ysbytai ym mhob rhan o Gymru ddefnyddio teledu a radio Cymraeg?

Jane Hutt: I do not know. Access to television is a question of accessing day rooms and different hospitals have different facilities. Some have bedside access to radio. Hospitals should be encouraged to provide access and if for any reason they are not enabling patients to watch Welsh language television or receive Radio Cymru, I would want to know about and address that.

Jane Hutt: Nid wyf yn gwybod. Mae gallu gwylio'r teledu yn gwestiwn o allu defnyddio'r ystafelloedd cyffredin ac mae gwahanol gyfleusterau mewn gwahanol ysbytai. Mae rhai yn cynnig radio wrth y gwely. Dylai ysbytai gael eu hannog i gynnig hyn ac os nad ydynt yn gadael i gleifion wylio teledu Cymraeg neu wrando ar Radio Cymru am unrhyw reswm, buaswn eisiau gwybod am hynny a mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Y Pwyllgor yn Gwrthod y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Committee Rejection of Health and Social Services Budget

Q2 Nick Bourne: What is the Secretary for Health and Social Services's response to the rejection of the health and social services budget by the Health and Social Services Committee? (OAQ1679VB)

C2 Nick Bourne: Beth yw ymateb yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r ffaith bod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwrthod y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (OAQ1679VB)

Jane Hutt: I am surprised by this question because the Health and Social Services Committee has not rejected the budget. At its meeting on 22 September, the Committee discussed the budget at some length with a broad measure of consensus and carried a motion which welcomed the overall approach

Jane Hutt: Mae'r cwestiwn hwn yn fy synnu oherwydd nad yw'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwrthod y gyllideb. Yn ystod ei gyfarfod ar 22 Medi, cafodd y Pwyllgor drafodaeth faith ar y gyllideb gyda chryn gonsensws barn a derbyniwyd cynnig a oedd yn croesawu

to the budget but asked for additional funding. Kirsty Williams as Committee Chair then wrote informing me of the Committee's views on 28 September. The Finance Secretary will take the views of all the Committees into consideration when preparing the budget package.

agwedd gyffredinol y gyllideb ond gofynnwyd am gyllid ychwanegol. Ysgrifennodd Kirsty Williams, fel Cadeirydd y Pwyllgor, ataf ar 28 Medi yn rhoi gwybodaeth am farn y Pwyllgor. Bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn ystyried sylwadau'r holl Bwyllgorau tra'n paratoi pecyn y gyllideb.

Nick Bourne: When she considers the budget and the request for extra funding—which is what I meant by rejection—will she ensure that proper provision is made for independent pharmacists like those in Brecon who are threatened by general practicioner dispensing? Will she underline their vital health role in detecting errors, providing advice and often a delivery service? Will she bring forward proposals to protect independent pharmacists and ensure that their future is rosy?

Nick Bourne: Pan fydd hi'n ystyried y gyllideb a'r cais am gyllid ychwanegol—sef yr hyn a olygaf wrth ddweud 'gwrthod'—a fydd hi'n sicrhau y bydd darpariaeth addas ar gyfer fferyllwyr annibynnol, fel y rheini ym Mrycheiniog, sydd dan fygythiad wrth i feddygon rannu cyffuriau? A wnaiff hi danlinellu eu rhan hanfodol ym maes iechyd drwy eu bod yn gallu adnabod camgymeriadau, cynnig cyngor ac yn aml eu bod yn darparu gwasanaeth danfon? A wnaiff hi gyflwyno cynigion i warchod fferyllwyr annibynnol a sicrhau y bydd ganddynt ddyfodol disglair?

Jane Hutt: Going back to resources, the baseline provision for health has increased by over £1 billion over three years as a result of the comprehensive spending review. The important role of independent pharmacists has been discussed in the Health and Social Services Committee on many occasions. Independent pharmacists play a prominent role in local health groups. I recently met two pharmacists to look at their problems and I have established a task and finish group on effective prescribing, which includes community and hospital pharmacists. That group is about to start work. The issue of pharmacists will be acknowledged. We need to ensure that independent pharmacists are preserved and protected because of their vital role in the community.

Jane Hutt: I ddychwelyd at adnoddau, mae'r ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer iechyd wedi derbyn cynnydd o dros £1 biliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf o ganlyniad i'r arolwg cynhwysfawr o wariant. Mae swyddogaeth bwysig fferyllwyr annibynnol wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sawl achlysur. Mae gan fferyllwyr annibynnol swyddogaeth amlwg mewn grwpiau iechyd lleol. Cefais gyfle i gyfarfod â dau fferyllydd yn ddiweddar i edrych ar eu problemau ac yr wyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar ragnodi effeithiol, sydd yn cynnwys fferyllwyr yn y gymuned ac mewn ysbytai. Mae'r grŵp hwnnw ar fin dechrau ar ei waith. Rhoddir sylw i fater y fferyllwyr. Rhaid inni sicrhau bod fferyllwyr annibynnol yn cael eu cadw a'u gwarchod oherwydd eu rhan hanfodol yn y gymuned.

David Lloyd: Dof yn ôl at gwestiwn gwreiddiol Nick. Pwysaf ymhellach am ateb i'r cwestiwn ynglŷn â beth yn union sydd wedi digwydd ers y bleidlais honno yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Beth sydd yn debygol o ddigwydd o hyn ymlaen o gofio teimlad cryf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cyllid iechyd yn annigonol? Pa broses a ddilynir yn awr gan

David Lloyd: I come back to Nick's original question. I press further for an answer to the question of exactly what has occurred since that vote in the Health and Social Services Committee. What is likely to happen from now on bearing in mind the strong feeling of the Health and Social Services Committee that the health budget is inadequate? What process will now be followed given that we as a Committee have decided that the budget

ein bod wedi penderfynu fel Pwyllgor fod y cyllid yn annigonol i redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

is inadequate to run the health service in Wales?

Jane Hutt: We had a good budgetary debate and a strong cross-party consensus in the Committee. The letter that I received from Kirsty Williams about the broad areas were discussed in the Committee and put forward. In accordance with Standing Orders, the Finance Secretary will make an announcement in Plenary next Wednesday about the budget so I do not want to discuss this any further.

Jane Hutt: Cawsom ddadl gyllidebol dda a chonsensws trawsbleidiol cryf yn y Pwyllgor. Trafodwyd y llythyr ynghylch y meysydd eang a dderbyniais gan Kirsty Williams yn y Pwyllgor ac fe'i rhoddwyd gerbron. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn gwneud cyhoeddiad ynghylch y gyllideb yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher nesaf, felly nid wyf eisiau trafod hyn ymhellach.

Kirsty Williams: Do you not agree that one of those broad areas was the consensus among all committee members that priority should be given within the budget to finding money for the implementation of a carers strategy in Wales? What progress has been made towards finding money to implement adequate respite care for carers and their families in Wales?

Kirsty Williams: Onid ydych yn cytuno mai un o'r meysydd eang hyn oedd y consensws ymhlith holl aelodau'r Pwyllgor y dylid rhoi blaenoriaeth o fewn y gyllideb i ddod o hyd i arian ar gyfer gweithredu strategaeth i ofalwyr yng Nghymru? Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud tuag at ddod o hyd i arian i weithredu gofal seibiant digonol ar gyfer gofalwyr a'u teuluoedd yng Nghymru?

Jane Hutt: There was a representation from the Wales Carers Alliance at the last Health and Social Services Committee meeting. We discussed a range of issues included in the carers strategy for Wales. A carers strategy has been widely debated in Wales within the voluntary sector, with carers' organisations taking the lead. This applies to strategies that we need to adopt in the Assembly across the board—in health and social services, housing, environmental issues and job training and education opportunities. You can be assured that all these issues will be considered when we look at the draft strategy which is coming to the Committee at the end of November.

Jane Hutt: Yr oedd cynrychiolaeth o Gynghrair Gofalwyr Cymru yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Buom yn trafod amrywiaeth o faterion a oedd wedi eu cynnwys yn strategaeth y gofalwyr yng Nghymru. Mae strategaeth y gofalwyr wedi cael ei thrafod yn helaeth ynh Nghymru o fewn y sector gwirfoddol, gyda mudiadau gofalwyr yn arwain y gwaith. Mae hyn yn berthnasol i strategaethau y mae angen inni eu mabwysiadu yn y Cynulliad drwyddo draw—mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tai, materion amgylcheddol a chyfleoedd gwaith, hyfforddi ac addysg. Gallwch fod yn sicr y bydd yr holl faterion hyn yn cael eu hystyried pan fyddwn yn edrych ar y strategaeth ddrafft sydd yn dod gerbron y Pwyllgor ddiwedd Tachwedd.

2:09 p.m.

Cyfleoedd Gwaith i Bobl â Salwch Meddwl
Employment Opportunities for People with Mental Illnesses

Q3 David Melding: What measures are in place to support voluntary organisations that provide employment opportunities to people with mental illnesses? (QAQ1779VB)

C3 David Melding: Pa fesurau sydd ar gael i gefnogi sefydliadau gwirfoddol sydd yn darparu cyfleoedd gwaith i bobl â salwch meddwl? (OAQ1779VB)

Jane Hutt: That is an important question. The Assembly welcomes the valuable contribution of voluntary organisations in the mental health field. World Mental Health Day was held on 10 October and many conferences and events have taken place over the last month, which many of you have attended, to draw attention to the needs of mental health users and the services that we need to support through the Assembly. This year, over £3.3 million has been made available to help voluntary organisations in their work, providing a range of services, including support in helping people to return to work.

Jane Hutt: Mae hwnnw yn gwestiwn pwysig. Mae'r Cynulliad yn croesawu cyfraniad gwerthfawr mudiadau gwirfoddol ym maes iechyd meddwl. Yr oedd Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref a chynhaliwyd nifer o gynadleddau a digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf, yr oedd nifer ohonoch yn bresennol ynddynt i dynnu sylw at anghenion defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau y mae angen inni eu cefnogi drwy'r Cynulliad. Yr oedd dros £3.3 miliwn ar gael eleni i gynorthwyo sefydliadau gwirfoddol yn eu gwaith, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, a'r rheini'n cynnwys rhoi cefnogaeth i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

At the national schizophrenia fellowship event, which I believe David attended, I was impressed by the range of employment and enterprise initiatives that that organisation is developing, one of which is called Hyder—they thought of that name before Welsh Water. There was a range of community enterprise initiatives in which people are involved. David will know of the Travellers in Mind community enterprise at Barry station. There are a number of initiatives which are the responsibility of the UK Government in terms of providing employment opportunities for disabled people, including the New Deal for disabled people, but our support for voluntary organisations extends into this.

Yn nghynhadledd y gymdeithas sgitsoffrenia genedlaethol, y credaf fod David yn bresennol ynddi, cefais fy siomi ar yr ochr orau gan yr amrywiaeth o gynlluniau cyflogaeth a menter y mae'r mudiad hwnnw yn eu datblygu. Hyder yw enw un ohonynt—yr oeddent wedi meddwl am yr enw cyn Dŵr Cymru. Yr oedd nifer o gynlluniau menter cymunedol yr oedd pobl yn gysylltiedig â hwy. Bydd David yn gwybod am y fenter gymunedol Teithwyr mewn Meddwl yng ngorsaf y Barri. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am nifer o gynlluniau sydd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl, gan gynnwys y Fargen Newydd i bobl anabl, ond mae ein cefnogaeth ni i fudiadau gwirfoddol yn ymestyn i mewn i hyn.

David Melding: Does the Secretary for Health and Social Services agree that the voluntary sector is particularly well placed here, and should be fully encouraged to take advantage of Objective 1, for example, to provide employment opportunities to people who have mental illnesses?

David Melding: A yw'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod y sector gwirfoddol mewn sefyllfa arbennig o dda yma, ac y dylid ei annog yn frwd i fanteisio ar Amcan 1 er enghraifft i gynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl sydd â salwch meddwl?

Jane Hutt: This is an equality of opportunity issue that should be recognised in the Objective 1 programme. Integration of equal opportunities is vital if we are to address the barriers facing people who are economically inactive at the moment and who are seeking work and training opportunities. I completely subscribe to your comments, David. I am assured that disabled people and people with mental health problems will benefit from Objective 1 as far as access to services is

Jane Hutt: Mae hyn yn fater o gydraddoldeb cyfle a ddylai gael ei gydnabod yn rhaglen Amcan 1. Mae integreiddio cyfle cyfartal yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r rhwystrau sydd yn wynebu pobl sydd yn economaidd segur ar hyn o bryd ac sydd yn chwilio am gyfleoedd gwaith a hyfforddi. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'ch sylwadau, David. Fe'm sicrhawyd y bydd pobl anabl a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael budd o Amcan 1 o ran cael gafael ar

concerned and from the employment and training opportunities that Objective 1 programmes will provide.

wasanaethau ac o ran y cyfleoedd gwaith a hyfforddi y bydd rhaglenni Amcan 1 yn eu darparu.

Helen Mary Jones: One issue that arises in relation to the voluntary sector providing employment opportunities, or transitional employment opportunities, for people with mental illness and people with other disabilities is who is classified as an employed person from the point of view of the minimum wage. Many of these schemes give people a small allowance. Mencap, for example, is concerned that those undertaking therapeutic work with the permission of the Benefits Agency may be at risk of having to give up that work or of losing their benefits, partly because of the minimum wage legislation. Therefore, will you undertake to liase with the appropriate Minister in London to ensure that these important opportunities, especially transitional employment opportunities, are not lost because people are at risk of losing benefits or because the organisation cannot proceed because the amounts would have to be treated as a payment below the minimum wage?

Helen Mary Jones: Un cwestiwn sydd yn codi mewn perthynas â'r sector gwirfoddol yn darparu cyfleoedd gwaith, neu gyfleoedd gwaith trosiannol, ar gyfer pobl gyda salwch meddwl a phobl gydag anableddau eraill yw pwy sydd yn cael ei ystyried fel person cyflogedig o safbwynt y lleiafswm cyflog. Mae nifer o'r cynlluniau hyn yn rhoi lwfans bach i bobl. Mae Mencap, er enghraifft, yn pryderu bod y rheini sydd yn ymgymryd â gwaith therapiwtig gyda chaniatâd yr Asiantaeth Budd-daliadau mewn perygl o orfod rhoi'r gorau i'w gwaith neu golli eu budd-daliadau, yn rhannol oherwydd y ddeddfwriaeth lleiafswm cyflog. Felly, a wnewch chi addo cysylltu â'r Gweinidog perthnasol yn Llundain i sicrhau na fydd y cyfleoedd pwysig hyn, a chyfleoedd gwaith trosiannol yn enwedig, yn cael eu colli oherwydd bod pobl mewn perygl o golli eu budd-daliadau neu am nad yw'r sefydliad yn gallu dal ymlaen oherwydd y byddai'n rhaid ystyried yr arian fel tâl sydd yn is na'r lleiafswm cyflog?

Jane Hutt: That is an important point. Jane Davidson wrote to me about this issue some weeks ago and we have referred it to my colleague in the UK Government. This issue has an impact throughout the UK. We are looking at it and I will bring the results of those discussions back to the Assembly. It is important that those transitional arrangements, that is, supported employment opportunities, are acknowledged when we look at the important new development of the national minimum wage.

Jane Hutt: Mae hwnnw yn bwynt pwysig. Ysgrifennodd Jane Davidson ataf ychydig wythnosau yn ôl ynghylch y mater hwn ac yr ydym wedi ei gyfeirio at fy nghydweithiwr yn Llywodraeth y DU. Mae'r mater hwn yn effeithio ar y DU i gyd. Yr ydym yn edrych arno, a byddaf yn dod â chanlyniad y trafodaethau hynny yn ôl i'r Cynulliad. Mae'n bwysig bod y trefniadau trosiannol hynny, hynny yw, cyfleoedd cyflogaeth wedi eu cefnogi, yn cael eu cydnabod pan fyddwn yn edrych ar ddatblygiad newydd pwysig y lleiafswm cyflog cenedlaethol.

Richard Edwards: Are you aware of the work of FRAME in Pembrokeshire, a charity that refurbishes and recycles furniture, selling them to people on a low income and providing employment and work experience for people who have suffered mental illness, therefore encompassing sustainability, social inclusion and equality of opportunity? It is a beacon of good practice and needs every encouragement and support from the Assembly.

Richard Edwards: A ydych chi'n ymwybodol o waith FRAME yn Sir Benfro, elusen sydd yn adnewyddu ac yn ailgylchu dodrefn, gan eu gwerthu i bobl ar incwm isel, sydd yn cynnig cyflogaeth a phrofiad gwaith i bobl sydd wedi dioddef o salwch meddwl a thrwy hynny, yn cwmpasu cynaliadwyedd, cynhwyso cymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae'n enghraifft o arfer da ac mae angen pob anogaeth a chefnogaeth arno gan y Cynulliad.

Jane Hutt: I am aware of that organisation and there are others like it in Wales. David's point about making use of European funding is important. Assembly Members should identify projects of this kind in their areas, which in the past have not been regarded as mainstream employment initiatives although they are. They improve employment opportunities and addressing equality of opportunity and social inclusion. Many of them can receive Objective 3 funding, and many of them have done so, for training opportunities. Objective 3 funding targets the most disadvantaged groups to try and remove barriers to training and employment opportunities. I hope that Assembly Members will consider those projects in their areas so that when the new programmes and partnerships have developed the projects can also benefit from European funding.

Jane Hutt: Yr wyf yn ymwybodol o'r sefydliad hwnnw ac mae rhai eraill tebyg yng Nghymru. Mae pwynt David ynghylch defnyddio cyllid Ewropeaidd yn bwysig. Dylai Aelodau'r Cynulliad nodi prosiectau o'r math hwn yn eu hardaloedd, nas ystyriwyd yn gynlluniau cyflogaeth prif ffrwd yn y gorffennol er mai dyna ydynt. Maent yn gwella cyfleoedd cyflogaeth ac yn mynd i'r afael â chyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol. Gall nifer ohonynt dderbyn cyllid Amcan 3, ac mae nifer ohonynt wedi gwneud hynny, ar gyfer cyfleoedd hyfforddi. Mae cyllid Amcan 3 yn targedu'r grwpiau sydd fwyaf dan anfantais i geisio goresgyn y rhwystrau rhag cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. Gobeithiaf y bydd Aelodau'r Cynulliad yn ystyried y prosiectau yn eu hardaloedd eu hunain fel y gall y rheini hefyd dderbyn budd o gyllid Ewropeaidd pan fydd y rhaglenni a'r partneriaethau newydd wedi eu datblygu.

Mick Bates: We have now referred to the important role of voluntary organisations and their dependence, often, on European funding. What transitional arrangements are in place to ensure that the employment opportunities provided by those organisations can continue? I am aware of some that have distinct problems in providing that continuity of funding.

Mick Bates: Yr ydym yn awr wedi cyfeirio at rôl bwysig mudiadau gwirfoddol a'u dibyniaeth, yn aml, ar gyllid Ewropeaidd. Pa gytundebau trosiannol sydd ar waith i sicrhau y bydd y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan y sefydliadau hynny yn gallu parhau? Yr wyf yn ymwybodol o rai sydd â phroblemau arbennig o ran darparu cyllid ar batrwm parhaus.

Jane Hutt: If you are talking about transitional arrangements for current European programmes, there will be transitional arrangements throughout Wales for Objective 2 programmes. New applications can be made for Objective 3 programmes and many projects have ongoing applications for Objective 3 European programmes. However, I am not the European expert here although I did have much to do with Europe in my previous work.

Jane Hutt: Os ydych yn sôn am drefniadau trosiannol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd cyfredol, bydd trefniadau trosiannol ledled Cymru ar gyfer rhaglenni Amcan 2. Gellir gwneud ceisiadau newydd am raglenni Amcan 3 ac mae gan nifer o brosiectau geisiadau parhaus ar gyfer rhaglenni Amcan 3 Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid fi yw'r arbenigwraig ar Ewrop yma er fy mod wedi ymwneud llawer ag Ewrop yn fy ngwaith blaenorol.

Transitional and short-term funding have always been a problem for the voluntary sector, particularly when we are trying to develop sustainable employment opportunities and sustainable development. It is related again to the fact that we need long-term and not one-off strategies. The European programmes that we are developing, which include transitional and

Mae cyllid trosiannol a thymor byr wedi bod yn broblem i'r sector gwirfoddol erioed, yn enwedig pan fyddwn yn ceisio datblygu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy a datblygu cynaliadwy. Mae hyn eto yn deillio o'r ffaith bod angen strategaethau tymor hir arnom ac nid rhai unigol. Mae'n rhaid i'r rhaglenni Ewropeaidd yr ydym yn eu datblygu, sydd yn cynnwys cyfleoedd newydd a throsiannol,

new opportunities, must consider long-term sustainable options. That has to be done with the support of local authorities as well as the Assembly.

ystyried dewisiadau tymor hir cynaliadwy. Rhaid gwneud hynny gyda chefnogaeth awdurdodau lleol yn ogystal â'r Cynulliad.

Nyrsys ar Bwyllgorau Gweithredol Grwpiau Iechyd Lleol
Nurses on Executive Committees of Local Health Groups

Q4 David Melding: What representation has the Secretary for Health and Social Services received to reserve a place for a nurse on the executive committees of local health groups? (OAQ1778VB)

C4 David Melding: Pa sylwadau y mae'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u derbyn o safbwynt neilltuo lle i nyrs ar bwyllgorau gweithredol grwpiau iechyd lleol? (OAQ1778VB)

Jane Hutt: The Royal College of Nursing has written to the First Secretary and myself, requesting that a nurse should be included as of right on the executive committee of local health groups. I have written to Liz Hewitt this week responding to this question. As I said to her I am aware of the valuable role played by nurses in the delivery of primary care. I wish to see them play a prominent part in determining the way in which it should develop. Therefore, the involvement of nurses in local health groups is vital and enables them to bring their experience and expertise to bear. I know that they are take full advantage of their membership. The executive committee of the local health groups oversees the administrative functions and ensures that the local health group board's decisions are implemented. However it is the local health group which makes the major decisions on policy and strategy.

Jane Hutt: Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd a minnau, gan ofyn am gynnwys nyrs fel mater o hawl ar bwyllgor gweithredol grwpiau iechyd lleol. Yr wyf wedi ysgrifennu at Liz Hewitt yr wythnos hon gan ymateb i'r cwestiwn hwn. Fel y dywedais wrthi, yr wyf yn ymwybodol o'r rhan werthfawr sydd yn cael ei chwarae gan nyrsys yn cyflwyno gofal sylfaenol. Hoffwn eu gweld yn chwarae rhan amlwg yn y broses o benderfynu ym mha ffordd y dylai hynny ddatblygu. Felly, mae rhan nyrsys mewn grwpiau iechyd lleol yn hanfodol ac yn eu galluogi hwy i roi o'u profiad a'u harbenigedd. Yr wyf yn gwybod eu bod yn manteisio'n llawn ar eu haelodaeth. Mae pwyllgor gweithredol grwpiau iechyd lleol yn goruchwylio'r swyddogaethau gweinyddol ac yn sicrhau bod penderfyniadau'r bwrdd yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, y grŵp iechyd lleol sydd yn gwneud y prif benderfyniadau ar bolisi a strategaeth.

Some nurses already serve on the executive committees of local health groups particularly those who are taking the lead in clinical governance. It is important that nurses are taking a lead in clinical governance across the board but particularly in local health groups. We expect to see more nurses on the executive committees and there is no reason why they should not serve as chairs. In Wales we have two pharmacists chairing local health groups and there is no reason why nurses should not be chairs. The majority of health groups are chaired by general practitioners and one is chaired by a director of social services. However, the local health groups are new and we are working with them, GPs and all the professions

Mae rhai nyrsys eisoes ar bwyllgorau gweithredol grwpiau iechyd lleol, yn enwedig y rheini sydd yn arwain mewn rheolaeth glinigol. Mae'n bwysig bod nyrsys yn arwain mewn rheolaeth glinigol drwyddi draw, ond yn enwedig mewn grwpiau iechyd lleol. Yr ydym yn disgwyl gweld mwy o nyrsys ar bwyllgorau gweithredol ac nid oes rheswm pam na allent fod yn gadeiryddion. Mae dau fferyllydd yn cadeirio grwpiau iechyd lleol yng Nghymru ac nid oes rheswm pam na all nyrsys fod yn gadeiryddion ychwaith. Mae mwyafrif y grwpiau iechyd yn cael eu cadeirio gan feddygon teulu ac mae un yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r grwpiau iechyd lleol yn newydd ac yr

involved in considering their development. I shall discuss with the local health groups and their chairs how we can best involve nurses in their developing agendas.

ydym yn cydweithio â hwy, y meddygon teulu a'r holl broffesiynau sydd ynghlwm ag ystyried eu datblygiad. Byddaf yn trafod y ffordd orau i gynnwys nyrsys yn eu hagendâu datblygu gyda'r grwpiau iechyd lleol a'u cadeiryddion.

David Melding: Does the Secretary agree that reserving a place for nurses on the executive committees would send a powerful signal, emphasising their important role in primary health care?

David Melding: A yw'r Ysgrifennydd yn cytuno yn byddai cadw lle ar gyfer nyrsys ar y pwyllgorau gweithredol yn anfon neges gryf, a fyddai'n pwysleisio eu rhan bwysig mewn gofal iechyd sylfaenol?

Jane Hutt: My message to the Royal College of Nursing and to you is powerful and positive. It acknowledges the vital role that nurses play in our primary health care structure and our new focus on primary health care. When we discussed this in the Health and Social Services Committee, I referred to the importance of nurse-led initiatives and the need to see nurses at the forefront of primary health care development. Their involvement in local health groups will be strengthened as a result of what I have said. It is important that we work with the local health groups as matters develop. Although it is early days, I stress that nurses are in a prominent position to ensure that clinical governance, the development and commissioning of services is within their grasp.

Jane Hutt: Mae fy neges i'r Coleg Nyrsio Brenhinol ac I chithau yn gryf ac yn gadarnhaol. Mae'n cydnabod rhan hanfodol nyrsys yn ein strwythur gofal iechyd sylfaenol a'n ffocws newydd ar ofal iechyd sylfaenol. Pan drafodwyd hyn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cyfeiriais at bwysigrwydd cynlluniau wedi eu harwain gan nyrsys a'r angen i weld nyrsys ar flaen y gad yn datblygu gofal iechyd sylfaenol. Bydd eu rhan mewn grwpiau iechyd lleol yn cael ei atgyfnerthu yn sgîl yr hyn a ddywedais i. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'r grwpiau iechyd lleol wrth i faterion ddatblygu. Er ei bod yn gynnar, yr wyf yn pwysleisio bod nyrsys mewn safle amlwg i sicrhau bod rheolaeth glinigol, datblygu a chomisiynu gwasanaethau o fewn eu gafael.

2:19 p.m.

Geraint Davies: Does the Secretary for Health and Social Services agree that nurses have an expanding role in the new NHS? Does she agree that their expertise is often undervalued and underused? Does she think that this could be developed so that patients can benefit and we can have health gains?

Geraint Davies: A yw'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod rhan nyrsys yn ehangu yn yr NHS newydd? A yw hi'n cytuno bod eu harbenigedd yn cael ei danbrisio ac na ddefnyddir digon arno? A yw hi'n meddwl y gallai hyn gael ei ddatblygu i fod o fudd i gleifion ac o fantais i'r maes iechyd?

Jane Hutt: As you probably remember, I launched a significant document in July realising the potential strategic framework for nursing development in Wales. It is a powerful document, developed by over 5,000 nurses in Wales. On the day of the launch, the media concentrated on the issue of nurse consultants. What we are talking about in Wales, however, is the need to develop nurses at all levels to ensure that their professional development, their career

Jane Hutt: Mae'n debyg eich bod yn cofio fy mod wedi lansio dogfen arwyddocaol ym mis Gorffennaf, a oedd yn cydnabod y fframwaith strategol posibl ar gyfer datblygu nyrsio yng Nghymru. Mae'n ddogfen bwerus iawn, a ddatblygwyd gan dros 5,000 o nyrsys yng Nghymru. Ar ddiwrnod y lansio, canolbwyntiodd y cyfryngau ar bwnc nyrsys ymgynghorol. Yr hyn yr ydym yn ei drafod yng Nghymru, fodd bynnag, yw'r angen am ddatblygu nyrsys ar bob lefel i sicrhau bod eu

opportunities and their prospects in the health service are supported at every level. The nursing profession, as well as colleagues in midwifery and health visiting, supports this. The Assembly has given nurses a boost in recognising their future role, their role in local health groups, and that they are vital as part of multidisciplinary teams, alongside their medical colleagues, other professions such as pharmacists, and local government. This is the way forward for the health service. Having met representatives from all the Royal Colleges, and having been in constant dialogue with them, I am confident that nurses are sitting on all our expert groups, and that they will have a new, strengthened role as a result of our policies.

datblygiad proffesiynol, eu cyfleoedd gyrfa a'u rhagolygon yn y gwasanaeth iechyd yn cael cefnogaeth ar bob lefel. Mae'r proffesiwn nyrsio ynghyd â chydweithwyr ym maes bydwreigiaeth ac ymweliadau iechyd yn cefnogi hyn. Mae'r Cynulliad wedi rhoi hwb i nyrsys drwy gydnabod eu rhan i'r dyfodol, eu rhan mewn grwpiau iechyd lleol, a'u bod yn hanfodol fel rhan o dimau aml-ddisgyblaeth, ochr yn ochr â'u cydweithwyr meddygol, proffesiynau eraill fel fferyllwyr a llywodraeth leol. Dyma'r ffordd ymlaen i'r gwasanaeth iechyd. Ar ôl cyfarfod â chynrychiolwyr o'r holl Golegau Brenhinol, ac ar ôl bod mewn trafodaethau cyson â hwy, yr wyf yn ffyddiog bod nyrsys yn perthyn i'n holl grwpiau arbenigol, ac y bydd ganddynt ran newydd, gryfach o ganlyniad i'n polisïau.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

Gwefan ar Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Website on the New National Assembly for Wales Building

Q1 Christine Humphreys: Will the Secretary for Post-16 Education and Training undertake work with the architects of the new National Assembly for Wales building to provide a website where students can follow the progress of the building and be made aware of design and environmental issues? (OAQ1792VB)

C1 Christine Humphreys: A wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ymrwymo i gydweithio â phenseiri adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn darparu gwefan a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddilyn datblygiad yr adeilad ac er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o faterion cynllunio ac amgylcheddol? (OAQ1792VB)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): This is a matter for the First Secretary and the Finance Secretary. They have indicated to me that plans are in hand for a comprehensive web page on the new Assembly building as part of a wider public information and awareness campaign planned for early in the new year. In the meantime, the accommodation progress report, which is already available to Members and officials on the intranet, will be released on the internet.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Dyma fater ar gyfer y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cyllid. Maent wedi dweud wrthyf bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer gwefan gynhwysfawr ar adeilad newydd y Cynulliad fel rhan o ymgyrch ehangach ar wybodaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus sydd wedi ei chynllunio ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, bydd yr adroddiad cynnydd ar yr adeilad, sydd eisoes ar gael ar y fewnrwyd i Aelodau a swyddogion, yn cael ei gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Christine Humphreys: There are many projects underway to promote professional engineering as a career, especially as a career for women. I wonder whether, if the new Pierhead building is to be used for information purposes for visitors, a display of

Christine Humphreys: Mae nifer o brosiectau ar y gweill i hyrwyddo peirianneg broffesiynol fel gyrfa, yn enwedig fel gyrfa i fenywod. Os bydd adeilad newydd Pierhead yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr, tybed a ellid

the work's progress could be considered? That would allow visiting parties to see what is happening and the work of professional engineers to be promoted amongst young people. We need to encourage young people into engineering as a career.

ystyried arddangosfa o ddatblygiad y gwaith? Byddai hynny yn galluogi grwpiau o ymwelwyr i weld yr hyn sydd yn mynd ymlaen ac yn hyrwyddo gwaith y peirianwyr proffesiynol ymysg pobl ifainc. Rhaid inni annog pobl ifainc i ystyried peirianneg fel gyrfa.

Tom Middlehurst: I agree with those sentiments. We have already announced that there will be an Assembly visitor and education centre in the Pierhead building. There will be up-to-date information about the new Assembly building, which will include information about its architectural merit, engineering problems and so on. I welcome the suggestion that we ought to, as far as is possible, extend the information available to encourage a greater interest in engineering.

Tom Middlehurst: Cytunaf â'ch sylwadau. Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd canolfan ymwelwyr ac addysg y Cynulliad yn adeilad Pierhead. Ceir yno yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch adeilad newydd y Cynulliad, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ei rinweddau pensaernïol, problemau peiriannyddol ac yn y blaen. Croesawaf yr awgrym y dylem ni, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, ymestyn yr wybodaeth sydd ar gael i annog mwy o ddiddordeb mewn peirianneg.

Glyn Davies: Will Tom Middlehurst reassure us that the design of the new Assembly building is compatible with best practice in respect of disabled access? My understanding is that the design is compatible with worst practice.

Glyn Davies: A wnaiff Tom Middlehurst ein sicrhau bod cynllun adeilad newydd y Cynulliad yn cyd-fynd â'r arferion gorau mewn perthynas â mynediad i'r anabl? O'r hyn a ddeallaf i, mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r arferion gwaethaf.

Tom Middlehurst: I do not have the information to comment on the design of the building. However, I am confident that access issues and guaranteeing equal opportunity to all will be part of the design of the new building.

Tom Middlehurst: Nid yw'r wybodaeth gennyf i roi sylwadau ynghylch cynllun yr adeilad. Fodd bynnag, yr wyf yn hyderus y bydd materion mynediad a gwarantu cyfle cyfartal i bawb yn rhan o gynllun yr adeilad newydd.

The Presiding Officer: Order. Thank you for answering, but the supplementary question was not in order as Tom is not yet the Assembly Secretary for Building.

Y Llywydd: Trefn. Diolch i chi am ateb, ond yr oedd y cwestiwn atodol allan o drefn gan nad yw Tom yn Ysgrifennydd y Cynulliad dros Adeiladu eto.

Hyfforddiant Galwedigaethol drwy Gyfrwng y Gymraeg
Welsh Medium Vocational Training

Q2 Peter Black: What provision is being made to safeguard Welsh-medium vocational training under the Education and Training Action Group's proposals? (OAQ1706VB)

C2 Peter Black: Pa ddarpariaeth a wneir i ddiogelu hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg o dan argymhellion y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant? (OAQ1706VB)

Tom Middlehurst: The ETAG action plan recommended that Welsh-medium skills training opportunities should be maintained and developed. It should be incumbent upon the National Council for Education and Training and the community consortia for

Tom Middlehurst: Argymhellai cynllun gweithredu y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant y dylid cynnal a datblygu'r cyfleoedd i gael hyfforddiant sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai fod yn ddyletswydd ar y Cyngor Cenedlaethol dros

education and training to ensure that this is done. Safeguards will continue to exist under the new arrangements.

Addysg a Hyfforddiant a'r consortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Bydd mesurau diogelu yn parhau i fodoli o dan y trefniadau newydd.

The action plan also recommended that the distinction between vocational and non-vocational courses should be removed to allow more providers of Welsh language vocational courses to seek funding under the new national council. This would lead to greater choice and availability of Welsh medium education and training.

Argymhellai'r cynllun gweithredu hefyd y dylid dileu'r gwahaniaeth rhwng cyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol er mwyn caniatáu i fwy o gyflenwyr cyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg chwilio am gyllid o dan y cyngor cenedlaethol newydd. Byddai hyn yn arwain at well dewis a mwy o addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Peter Black: Will you ensure that contracts for translation of vocational qualification test papers are safeguarded and expanded under the ETAG proposals so that people continue to have the option of sitting these tests in Welsh?

Peter Black: A wnewch chi sicrhau bod y cytundebau ar gyfer cyfieithu papurau profion cymwysterau galwedigaethol yn cael eu diogelu a'u hehangu o dan argymhellion y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant fel y gall pobl barhau i gael y dewis o sefyll y profion hyn yn y Gymraeg?

Tom Middlehurst: It is important that we demonstrate our commitment to the development and promotion of the language. The ETAG action plan is about widening choice and increasing access, which includes the continuing development of Welsh medium provision. ETAG says that the Welsh language should be enriched and extended. Those issues must be addressed if we are to achieve those objectives.

Tom Middlehurst: Mae'n bwysig ein bod yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith. Byrdwn cynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yw ehangu'r dewis a chynyddu mynediad, gan gynnwys datblygu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn barhaus. Dywed y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant y dylid cyfoethogi ac ymestyn yr iaith Gymraeg. Rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn os ydym am gyflawni'r amcanion hynny.

Cynog Dafis: Croesawaf yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd ynglŷn â'i awydd i weld y cyngor cenedlaethol yn cael cyfarwyddyd clir i sicrhau twf mewn addysg Gymraeg ôl-16, yn bennaf yn y sectorau galwedigaethol ac addysg bellach lle mae hynny wedi bod yn ddiffygiol. Mae cryn ddefnydd o'r Gymraeg mewn addysg gynradd a lleihad difrifol ar y lefel ôl-16. A yw'r Ysgrifennydd yn cytuno y dylai'r hyn y mae'n sôn amdano fod yn rhan o'r strategaeth genedlaethol i gryfhau ac adfywio'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd ac y byddai'n briodol i'r cyngor cenedlaethol gydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar strategaeth gyffredinol?

Cynog Dafis: I welcome what the Secretary said about his desire to see the national council receiving clear guidance to ensure a growth in Welsh medium post-16 education, particularly in the vocational and further education sectors where it has been deficient. There is considerable use of Welsh at primary school level and a serious decrease at post-16 level. Does the Secretary agree that what he is talking about should be part of the national strategy to strengthen and revive the Welsh language and promote bilingualism and that it would be appropriate for the national council to work with the Welsh Language Board on a general strategy?

Tom Middlehurst: Yes, I agree. It is worth

Tom Middlehurst: Ydwyf, yr wyf yn

noting that there has been significant advance in Welsh medium provision in futher education. Since 1993-94 the provision has nearly trebled and the number of students formally assessed through the medium of Welsh has more than doubled. That must be encouraged and applauded. It shows that there is a commitment in the further education sector. The national council will inherit that good work and good practice. I am sure that it will liaise with the Welsh Language Board to further develop the Welsh medium provision throughout the education and training sector.

cytuno. Mae'n werth nodi bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y ddarpariaeth addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth bron wedi treblu ers 1993-94 ac mae nifer y myfyrwyr sydd yn cael eu hasesu'n ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi mwy na dyblu. Rhaid hyrwyddo a chymeradwyo hynny. Mae'n dangos bod ymrwymiad yn y sector addysg bellach. Bydd y cyngor cenedlaethol yn etifeddu'r gwaith a'r arferion da hynny. Yr wyf yn siŵr y bydd yn cysylltu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ymhellach yn y sector addysg a hyfforddiant drwyddo draw.

Alun Pugh: Do you accept the ETAG report analysis that the Assembly has inherited a system of inefficiency, duplication, a waste of precious resources and denial of choice in a bewildering maze of competitive providers and bureaucracy?

Alun Pugh: A ydych chi'n derbyn dadansoddiad adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant bod y Cynulliad wedi etifeddu system o annigonolrwydd, dyblygiad, a gwastraff ar adnoddau gwerthfawr ac nad oes ganddo ddewis mewn drysfa gymhleth o ddarparwyr cystadleuol a biwrocratiaeth?

Will you give an undertaking that this mess will be replaced by a published single-funded methodology for all post-compulsory education?

A wnewch chi addo y bydd y llanast hwn yn cael ei ddisodli drwy gyhoeddi methodoleg wedi ei chyllido o un ffynhonell ar gyfer pob addysg ôl-16?

Tom Middlehurst: There is widespread acknowledgement that we have, without a doubt, inherited a mess. The ETAG report identified the problems created through duplication and wasteful competition. The future funding of the education and training sector will be a key issue for the new national council and, early on, it must review the funding arrangements. By its nature, that will need to be a detailed, technical study. However, it must also consider issues such as rurality, Welsh-medium provision and the future of sixth form provision. I hope that those issues will underpin some of those important considerations with regard to future funding arrangements. We must establish a level playing field for everyone who provides post-16 education and training.

Tom Middlehurst: Fe ŵyr llawer ein bod, heb unrhyw amheuaeth, wedi etifeddu llanast. Nododd adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant y problemau a grëwyd drwy ddyblygu a chystadleuaeth wastraffus. Bydd cyllid y sector addysg a hyfforddiant yn y dyfodol yn fater allweddol ar gyfer y cyngor cenedlaethol newydd, a bydd yn rhaid iddo adolygu'r trefniadau cyllido yn fuan. O ran ei natur bydd yn rhaid iddi fod yn astudiaeth fanwl a thechnegol. Fodd bynnag, rhaid iddi hefyd ystyried ffactorau fel cefn gwlad, y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r ddarpariaeth dosbarthiadau chwech yn y dyfodol. Gobeithiaf y bydd y materion hyn wrth wraidd rhai o'r ystyriaethau pwysicaf wrth ystyried cyllido yn y dyfodol. Rhaid inni ystyried tegwch ar gyfer pawb sydd yn cynnig addysg a hyfforddiant ôl-16.

2:29 p.m.

Alun Cairns: A yw'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn derbyn y pwysau a'r

Alun Cairns: Does the Secretary for Post-16 Education and Training accept the pressure

risg a roddir ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, o ganlyniad i adroddiad a datganiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant?

and risk placed on Welsh-medium schools, especially in rural Wales, as a result of the Education and Training Action Group's report and statement?

Tom Middlehurst: I am acutely aware of the concerns expressed about the future of Welsh-medium provision, as is the Post-16 Education and Training Committee. It is a key issue that will be addressed by the Committee and will form a major part of our report to the Assembly. I want to give maximum assurance to sixth forms in particular that their futures are secure under ETAG, which is attempting to improve viability by encouraging collaboration and co-operation, and widening choice and access for many more people. Welsh-medium provision will be a crucial element of any new proposal in the Assembly.

Tom Middlehurst: Yr wyf fi, fel y mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yn ymwybodol iawn o'r pryderon a leisiwyd ynghylch dyfodol y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n fater allweddol yr eir i'r afael ag ef gan y Pwyllgor a bydd yn ffurfio rhan fawr o'n hadroddiad i'r Cynulliad. Yr wyf eisiau rhoi sicrwydd pendant, yn enwedig i ddosbarthiadau chwech, bod eu dyfodol yn ddiogel o dan y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, sydd yn ceisio gwella hyfywedd drwy annog cydweithio a chyd-dynnu, ac ehangu'r dewisiadau a mynediad i fwy o bobl. Bydd darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen hollbwysig o unrhyw gynnig newydd yn y Cynulliad.

Adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (Ardaloedd Gwledig)
Education and Training Action Group Report (Rural Areas)

Q3 Mick Bates: Can Tom Middlehurst say what consideration has been given to rurality and the particular needs of rural areas in discussions on the ETAG report? (OAQ1713VB)

C3 Mick Bates: A all yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant ddweud pa ystyriaeth a roddwyd i anghenion penodol ardaloedd gwledig wrth drafod adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant? (OAQ1713VB)

Tom Middlehurst: I have already touched upon some of those issues, Mick, but I am quite happy to give you further reassurance. We have given particular consideration to the issues of rurality because we intend to ensure that a wide range of relevant and high quality post-16 education and training provision is available to all people in Wales, wherever they live. We have heard from a wide variety of organisations with an interest in post-16 education and training, a number of which stressed the particular needs of rural areas. As I said, I and the Post-16 Education and Training Committee fully acknowledge those concerns and we will give them due weight in our considerations of the education and training action plan.

Tom Middlehurst: Yr wyf eisoes wedi crybwyll rhai o'r materion hynny, Mick, ond yr wyf yn ddigon bodlon rhoi sicrwydd pellach ichi. Yr ydym wedi rhoi ystyriaeth arbennig i faterion ardaloedd gwledig oherwydd ein bod yn bwriadu sicrhau bod ystod eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 perthnasol ac o safon uchel ar gael i bawb yng Nghymru, lle bynnag y bônt yn byw. Yr ydym wedi clywed gan nifer o wahanol sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac yr oedd nifer ohonynt yn tanlinellu anghenion arbennig cefn gwlad. Fel y dywedais, yr wyf fi a'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn cydnabod y pryderon hynny'n llawn a byddwn yn eu hystyried o ddifrif yn ein cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant.

Mick Bates: Are you aware of the dangers posed to small rural and Welsh medium sixth

Mick Bates: A ydych chi'n ymwybodol o'r peryglon sydd yn wynebu dosbarthiadau

forms by the ETAG viability criteria? What steps will be taken to safeguard such sixth forms?

chwech bach mewn ardaloedd gwledig a dosbarthiadau chwech cyfrwng-Cymraeg oherwydd meini prawf hyfywedd y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant? Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu dosbarthiadau chwech o'r fath?

Tom Middlehurst: I have tried to give assurances and will take this opportunity to do so again. The future of sixth forms is not under threat from ETAG. On the contrary, it attempts to underpin and increase their viability. I want to send that positive message to sixth forms throughout Wales today.

Tom Middlehurst: Yr wyf wedi ceisio eich sicrhau a byddaf yn cymryd y cyfle hwn i wneud hynny eto. Nid yw dyfodol dosbarthiadau chwech mewn perygl oherwydd y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. I'r gwrthwyneb, mae'n ceisio cynnal a chynyddu eu hyfywedd. Yr wyf eisiau anfon y neges gandarnhaol honno i ddosbarthiadau chwech ledled Cymru heddiw.

Gareth Jones: A ydych yn cytuno mai consortia lleol yn seiliedig ar anghenion a gwerthoedd ein cymunedau gwledig neu drefol fyddai'r ffordd orau o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-16? A ydych hefyd yn cytuno y byddai gorfodi cyfundrefn weinyddol ranbarthol eang yn achosi tyndra rhwng y gwahanol gymunedau, er enghraifft rhwng Wrecsam ac Efionydd? Onid oes bygythiad o dan unrhyw fformwla gyllido unffurf y bydd ardaloedd cefn gwlad unwaith eto ar eu colled yn ariannol, nid yn unig oherwydd costau cludiant ychwanegol ond hefyd oherwydd safon y ddarpariaeth addysgol ôl-16?

Gareth Jones: Do you agree that local consortia based on the needs and values of our rural or urban communities would be the best way of providing post-16 education and training? Do you also agree that enforcing a wide regional administrative system would cause tension between the various communities, for example between Wrexham and Eifionydd? Is there not a threat under any uniform funding formula that rural areas will once again lose out financially, not only because of additional transportation costs but also because of the standard of the post-16 education provision?

Tom Middlehurst: There were many questions there. Local plans developed by community consortia must be responsive to local needs. I fully accept that and ETAG's principle is the development of local solutions for local needs. We are addressing the issues of rurality and Welsh-medium provision. On funding, we are talking about a level playing field—a fair funding system—that addresses the needs of rural areas and Welsh-medium provision. Its structures must acknowledge that means of recognising those needs must be included in the formula. I believe that the national council will want to address those issues early in its life, and it must do so. I am confident that we can find a way forward that will provide sufficient funding to meet those needs, which clearly are manifest in Wales.

Tom Middlehurst: Yr oedd gennych nifer o gwestiynau. Rhaid i gynlluniau lleol a ddatblygwyd gan gonsortia cymunedol fod yn barod i ymateb i anghenion lleol. Yr wyf yn derbyn hynny'n llawn ac egwyddor y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yw datblygu atebion lleol ar gyfer anghenion lleol. Yr ydym yn rhoi sylw i faterion cefn gwlad a'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. O ran cyllid, yr ydym yn trafod tegwch—system deg o gyllido—sydd yn rhoi sylw i anghenion ardaloedd gwledig a'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'w strwythurau gydnabod bod rhaid cynnwys ffyrdd o adnabod yr anghenion hynny yn y fformwla. Credaf y bydd y cyngor cenedlaethol eisiau rhoi sylw i'r materion hynny yn fuan yn ei yrfa, a bydd yn rhaid iddo wneud hynny. Yr wyf yn ffyddiog y byddwn yn gallu dod o hyd i ffordd ymlaen a fydd yn rhoi digon o gyllid i ddiwallu'r

anghenion hynny, sydd yn amlwg iawn yng Nghymru.

Gweinyddu Cronfeydd Ewropeaidd
Administration of European Funding

Q4 William Graham: What impact will the abolition of Training and Enterprise Councils have on the administration of European funding? (OAQ1788VB)

C4 William Graham: Pa effaith fydd diddymu'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn ei gael ar weinyddu cronfeydd Ewropeaidd? (OAQ1788VB)

Tom Middlehurst: It is not anticipated that this will have any effect. The training and enterprise support programmes that the TECs currently deliver under contract to the Assembly will remain in place but will be delivered by other bodies, such as the National Council for Education and Training for Wales, Careers Wales, the Welsh Development Agency, local authorities and Business Connect, which will all be eligible to apply for European structural fund support.

Tom Middlehurst: Ni ddisgwylir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith. Bydd y rhaglenni i gefnogi hyfforddiant a menter a ddarperir gan y CHM ar hyn o bryd dan gontract i'r Cynulliad yn dal i fodoli ond cânt eu cyflenwi gan gyrff eraill, fel y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Ghymru, Gyrfaoedd Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol a Cyswllt Busnes. Bydd pob un o'r rhain yn gymwys i wneud cais am gefnogaeth gan y gronfa strwythurol Ewropeaidd.

William Graham: Does the Secretary for Post-16 Education and Training agree that this is far from the best time to go ahead with the abolition of TECs given that Wales has been granted the once in a lifetime benefit of Objective 1 funding? Business in Wales needs a period of stability rather than a period of dramatic upheaval, now more than ever.

William Graham: A yw'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn cytuno nad dyma'r adeg orau o bell ffordd i fwrw ymlaen i ddileu'r CHM o ystyried bod Cymru i gael cyfle unwaith mewn oes i elwa o gyllid Amcan 1? Mae ar fusnes yng Nghymru angen cyfnod o sefydlogrwydd yn hytrach na chyfnod o gyffro dramatig, yn fwy felly yn awr nag erioed.

Tom Middlehurst: I do not believe that European funding will be affected by any decision regarding TECs. It is crucial that we deal with the lack of skills and knowledge among our people. That is demonstrated through Future Skills Wales. Unless we increase the skills and knowledge of our people we will not be able to make the best use of European funding. We will not be able to raise our country's gross domestic product per capita nor improve the quality of our people's lives. The ETAG system runs hand in hand with that. This comes at the right time, not the wrong time, to meet the challenge ahead.

Tom Middlehurst: Ni chredaf y bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r CHM yn effeithio ar y cyllid o Ewrop. Mae'n holl bwysig ein bod yn delio â'r diffyg sgiliau a gwybodaeth ymysg ein pobl. Dangosir hynny drwy Sgiliau Dyfodol Cymru. Oni chaiff sgiliau a gwybodaeth ein pobl eu gwella ni fyddwn yn gallu gwneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd. Ni fyddwn yn gallu codi cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yn ein gwlad na gwella ansawdd bywydau ein pobl. Mae system y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn rhedeg law yn llaw â hynny. Mae'n dod ar yr adeg iawn, nid yr adeg anghywir, i gwrdd â'r her sydd o'n blaen.

Elin Jones: Os cyflwynir byrddau rhanbarthol yn sgîl adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, a yw'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn cytuno y bydd y CHM, i raddau helaeth,

Elin Jones: If regional boards are introduced as a result of the ETAG report, does the Secretary for Post-16 Education and Training agree that the TECs will continue to a great extent and that there will only be cosmetic

yn parhau ac y bydd newid cosmetig yn unig? Dywedodd Rhodri Morgan yn y drafodaeth ar adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd mai pwrpas y byrddau rhanbarthol oedd rhannu'r boen o weithredu'r adroddiad.

change? In the discussion on the ETAG report in the Economic Development Committee, Rhodri Morgan said that the purpose of the regional boards was to share the pain of implementing the report.

Dywed cofnodion y Pwyllgor hwnnw,

The minutes of that Committee note that,

'The proposed broad regional structure was an attempt to share out the pain equally between all the organisations which would lose responsibility under the proposed system.'

'Ymgais oedd y strwythur rhanbarthol eang a awgrymwyd i rannu'r boen yn gydradd rhwng yr holl gyrff a fyddai'n colli cyfrifoldeb dan y system a awgrymwyd.'

Does the Secretary for Post-16 Education and Training agree, therefore, that the vision of an integrated strategic post-16 education and training system in Wales is being sacrificed in order to alleviate the pain of TEC board members?

A yw'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn cytuno, felly, fod y weledigaeth o system addysg a hyfforddiant ôl-16 strategol ac integredig yng Nghymru yn cael ei haberthu er mwyn lliniaru poen aelodau byrddau'r CHM?

Tom Middlehurst: I do not agree with that, as you might expect. We are not re-inventing TECs and the ETAG report does not suggest that we do so. However, let us acknowledge the excellent work undertaken by TECs in Wales. We must not lose that important aspect of their work in any rearrangement of the delivery of education and training. I am determined that that will not happen. As you know, the Post-16 Education and Training Committee is considering appropriate structures to meet our need for human resource development. Ultimately, it will be a matter for the National Council for Education and Training for Wales to determine how it delivers post-16 education and training for Wales. That has been expressed positively and forcibly on many occasions. The regional boards will be the regional arms of the National Council for Education and Training in Wales, accountable to it and responsible for the delivery of its programmes. I can give no fuller assurance than that. There is a place for a regional structure. We need to reflect the regional diversity that exists in Wales. It is no accident that we have regional economic fora, regional structures of the Welsh Development Agency and Assembly Regional Committees. These reflect our diversity and allow politicians, organisations and the general public to identify with the work of the Assembly in an effective way

Tom Middlehurst: Nid wyf yn cytuno, fel y byddech yn disgwyl efallai. Nid ydym yn ailddyfeisio'r CHM ac nid yw adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn awgrymu inni wneud hynny. Fodd bynnag, gadewch inni gydnabod y gwaith rhagorol a wnaethpwyd gan y CHM yng Nghymru. Rhaid inni beidio â cholli'r agwedd bwysig honno o'u gwaith wrth ad-drefnu'r modd o gyflwyno addysg a hyfforddiant. Yr wyf yn benderfynol na fydd hynny'n digwydd. Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn ystyried strwythurau priodol i gyflawni ein hangen i ddatblygu adnoddau dynol. Yn y pen draw, mater i'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru fydd penderfynu sut y mae am gyflwyno addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Mae hynny wedi ei fynegi'n bositif ac egnïol ar lawer achlysur. Y byrddau rhanbarthol fydd breichiau rhanbarthol y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru, a byddant yn atebol iddo ac yn gyfrifol am gyflwyno ei raglenni. Ni allaf roi sicrwydd mwy pendant na hynny. Mae lle i strwythur rhanbarthol. Mae angen inni adlewyrchu'r amrywiaeth rhanbarthol sydd yn bodoli yng Nghymru. Nid drwy ddamwain y mae gennym fforymau economaidd rhanbarthol, strwythurau rhanbarthol dan Awdurdod Datblygu Cymru a Phwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad. Mae'r

and to reflect the needs of a particular region.

rhain yn adlewyrchu ein hamrywiaeth ac yn caniatáu i wleidyddion, sefydliadau a'r cyhoedd uniaethu gyda gwaith y Cynulliad mewn ffordd effeithiol ac adlewyrchu anghenion rhanbarth penodol.

David Davies: Will the abolition of the TECs have any further impact on the funding of arts in Wales? Does Tom Middlehurst share my concern about the outrageous decision by the Arts Council of Wales recently to close down Gwent Theatre? This is a serious issue that needs to be addressed. Will he ask—

David Davies: A fydd dileu'r CHM yn cael effaith bellach ar gyllido'r celfyddydau yng Nghymru? A yw Tom Middlehurst yn rhannu fy ngofid at y penderfyniad haerllug gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar i gau Theatr Gwent? Mae hwn yn fater difrifol y mae angen rhoi sylw iddo. A wnaiff ofyn—

The Presiding Officer: Order. That question does not arise from the question on the agenda.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r cwestiwn yna yn deillio o'r cwestiwn ar yr agenda.

2:39 p.m.

Datganiad ar Gwmni Dillad Bairdwear
Statement on the Bairdwear Clothing Company

The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan): Many questions have arisen in the past few days about Bairdwear and its contract with Marks & Spencer. I hope that my statement will answer those questions and inform everybody about what has happened and why. I hope it will show what the Assembly and its various sponsored public bodies, including the training and enterprise councils, are doing to help the company and its employees.

Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan): Codwyd llawer o gwestiynau dros y dyddiau diwethaf am Bairdwear a'i gontract gyda Marks & Spencer. Gobeithiaf y bydd fy natganiad yn ateb y cwestiynau hynny ac yn rhoi gwybod i bawb beth sydd wedi digwydd a pham. Gobeithiaf y bydd yn dangos beth y mae'r Cynulliad a'r amryw gyrff cyhoeddus a noddir ganddo, gan gynnwys y cynghorau hyfforddiant a menter, yn ei wneud i helpu'r cwmni a'i weithwyr.

I will separate the story into two stages, as it first developed and the past two weeks. The problem first occurred on 10 September when Bairdwear, a subsidiary of William Baird plc, announced the closure of its Maesteg and Pontardawe operations with the loss of 296 jobs. The closures were blamed on falling orders, falling prices and the need for the company to adjust its capacity in order to remain competitive. Following this announcement, West Wales TEC and TEC South East Wales approached Assembly officials to seek the flexibility to allow affected staff early access to work-based learning for adults, which is normally reserved for long-term unemployed people. That was readily agreed. Similarly, the Employment Service is allowing redundant workers early access to its programmes

Yr wyf am rannu'r stori yn ddwy ran, fel y datblygodd gyntaf a'r pythefnos diwethaf. Dechreuodd y broblem ar 10 Medi pan gyhoeddodd Bairdwear, is-gwmni o William Baird ccc, ei fod am gau ei ffatrïoedd ym Maesteg a Phontardawe gan golli 296 o swyddi. Gostyngiad mewn archebion, prisiau'n disgyn a'r angen i'r cwmni addasu ei allu cynhyrchu er mwyn parhau i fod yn gystadleuol oedd i'w beio am y penderfyniad. Yn dilyn y cyhoeddiad, cysylltodd CHM Gorllewin Cymru a CHM De Ddwyrain Cymru â swyddogion y Cynulliad i geisio'r hyblygrwydd i ganiatáu i staff yr effeithir arnynt fanteisio'n fuan ar ddysgu seiliedig-ar-waith i oedolion, darpariaeth a neilltuir fel arfer i'r rhai a fu'n ddi-waith am gyfnod hir. Cytunwyd yn syth i hyn. Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth Cyflogaeth yn caniatáu i

which include New Deal and programme centres. The Assembly, together with the Employment Service and the TECs, have arrangements in place to react quickly, positively and flexibly to these redundancy situations. These rapid response measures are designed to help alleviate the social and economic impact that can occur as a result of redundancies. The Employment Service is charged with co-ordinating the work of local teams dealing with job losses. Plans are being made to assist those affected in order to provide help before they are laid off. These plans could include advice and guidance, training, assistance to become self-employed and incentives to other employers to recruit redundant workers. West Wales TEC has indicated that it will provide support under its redundancy action plan, drawing on European social fund Objective 2 funds. The Welsh Development Agency has also been in close contact with the company. I understand that they have included the two sites to their commercial property database and are optimistic that an alternative investor can be found.

weithwyr sydd yn colli eu swyddi fanteisio'n fuan ar ei raglenni, sydd yn cynnwys y Fargen Newydd a chanolfannau rhaglenni. Mae gan y Cynulliad, ynghyd â'r Gwasanaeth Cyflogaeth a'r CHM, drefniadau parod i ymateb yn gyflym, yn bositif ac yn hyblyg i'r sefyllfaoedd diswyddo hyn. Bwriadwyd y mesurau ymateb cyflym hyn i liniaru'r effaith gymdeithasol ac economaidd sydd yn deillio o ddiswyddiadau. Y Gwasanaeth Cyflogaeth sydd yn gyfrifol am gyd-drefnu gwaith timau lleol sydd yn delio â cholli swyddi. Mae cynlluniau ar y gweill i helpu'r rheini yr effeithir arnynt cyn iddynt golli eu gwaith. Gallai'r cynlluniau hyn gynnwys cyngor a chyfarwyddyd, hyfforddiant, help i ddod yn hunan-gyflogedig a chymhellion i gyflogwyr eraill i recriwtio gweithwyr a ddiswyddir. Mae CHM Gorllewin Cymru wedi nodi y bydd yn cynnig cefnogaeth dan ei gynllun gweithredu ar ddiswyddiadau, gan ddefnyddio cyllid Amcan 2 o'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd. Bu Awdurdod Datblygu Cymru mewn cysylltiad agos â'r cwmni hefyd. Deallaf eu bod wedi cynnwys y ddau safle yn eu cronfa ddata o eiddo masnachol a'u bod yn obeithiol y gellir canfod buddsoddwr arall.

I deeply regret these job losses. The Assembly and its sponsored public bodies will continue to do everything possible to assist the affected employees and to try to ensure the continued use of both sites by another employer. The company made the commercial decision to close the two factories in the light of the everchanging commercial situation in the clothing industry.

Mae colli'r swyddi hyn yn ofid mawr imi. Bydd y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo yn parhau i wneud popeth posibl i gynorthwyo'r gweithwyr yr effeithir arnynt a cheisio sicrhau bod y ddau safle yn parhau i gael eu defnyddio gan gyflogwr arall. Gwnaeth y cwmni'r penderfyniad masnachol i gau'r ddwy ffatri yn wyneb y sefyllfa fasnachol yn y diwydiant dillad sydd yn newid yn barhaus.

I now turn to the more recent and larger problem. Bairdwear has been a supplier to M&S for 30 years. It was a surprise for Bairdwear when M&S informed the company on 22 October that it would not be renewing its supplier contract with Bairdwear from around April next year. Bairdwear was told that it will not be working on the autumn range for 2000, which it would normally begin to manufacture in the late spring of next year. M&S announced that it had reviewed their supplier chain over the past 12 months and had decided to focus on a smaller number of strategic suppliers, which are regarded as leaders in their respective fields.

Trof yn awr at y broblem fwy diweddar, sydd yn broblem fwy. Bu Bairdwear yn cyflenwi M&S ers 30 mlynedd. Synnwyd Bairdwear pan hysbysodd M&S y cwmni ar 22 Hydref na fyddai'n adnewyddu ei gontract cyflenwi gyda Bairdwear o tua mis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen. Dywedwyd wrth Bairdwear na fyddai'n gweithio ar ddillad ar gyfer hydref 2000, y byddai fel arfer yn dechrau eu cynhyrchu tua diwedd y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Cyhoeddodd M&S ei fod wedi adolygu ei gadwyn gyflenwi dros y 12 mis diwethaf gan benderfynu canolbwyntio ar nifer llai o gyflenwyr strategol, sydd yn cael eu hystyried yn arweinwyr yn eu

The company claim this will allow it to develop greater customer focus, remove duplication and overlap and reduce retail prices.

meysydd unigol. Honna'r cwmni y bydd hyn yn caniatáu iddo ddatblygu ffocws cryfach ar y cwsmer, gael gwared â dyblygu a gorgyffwrdd a gostwng y prisiau adwerthu.

Bairdwear is the smallest of the four major M&S suppliers of clothing. The others are Courtaulds Textiles Ltd, Coats Viyella plc and Dewhirst Clothing. The real problem is the nature of the relationship between M&S and Bairdwear. Bairdwear do not provide products for any other company. Since M&S announced that it would not renew their supplier contract with Bairdwear next year, Bairdwear will have to try to find new customers for its products or a new use for that manufacturing capacity.

Bairdwear yw'r lleiaf o blith pedwar prif gyflenwr dillad M&S. Courtaulds Textiles Ltd, Coats Viyella ccc a Dewhirst Clothing yw'r rhai eraill. Y gwir broblem yw natur y berthynas rhwng M&S a Bairdwear. Nid yw Bairdwear yn cynhyrchu ar gyfer unrhyw gwmni arall. Ers i M&S gyhoeddi na fydd yn adnewyddu contract cyflenwi Bairdwear y flwyddyn nesaf, bydd yn rhaid i Bairdwear geisio canfod cwsmeriaid newydd i'w gynnyrch neu ddefnydd newydd i'r ddarpariaeth gynhyrchu dan sylw.

Bairdwear has 16 sites throughout the UK, employing around 4,400 staff. In Wales there are nine sites including the Maesteg and Pontardawe operations, which are shortly to be closed. Three of the other sites are in Merthyr; two on the same site and another in Dowlais. The other sites are in New Tredegar, Bargoed, Pyle and Port Talbot. There is also a warehouse in Neath and there are around 58 employees at factory shops, which are associated with their production operations.

Mae gan Bairdwear 16 o safleoedd ledled y DU, yn cyflogi tua 4,400 o staff. Yng Nghymru, ceir naw safle gan gynnwys ffatrïoedd Maesteg a Phontardawe, sydd i gau yn fuan. Mae tri o'r safleoedd eraill ym Merthyr, dau ar yr un safle ac un arall yn Nowlais. Mae'r safleoedd eraill yn Nhredegar Newydd, Bargoed, y Pîl a Phort Talbot. Mae warws yng Nghastell-nedd a thua 58 o weithwyr mewn siopau ffatri, sydd ynghlwm wrth y gwaith cynhyrchu.

I should also mention the Oswestry plant, which although in England, is likely to employ many from adjoining parts of mid Wales. The remaining seven sites, after Maesteg and Pontardawe, employ around 1,100 staff. They became Bairdwear plants when the company took over the former Morris Cohen Lingerie complex of factories a few years ago. We are still not completely clear what effect the loss of the M&S contract will have on the seven remaining factories in Wales.

Hoffwn sôn hefyd am ffatri Croesoswallt sydd, er ei bod yn Lloegr, yn debyg o gyflogi llawer o rannau cyfagos o ganolbarth Cymru. Mae'r saith safle sydd yn weddill, ar ôl Maesteg a Phontardawe, yn cyflogi tua 1,100 o staff. Daethant yn ffatrïoedd Bairdwear ar ôl i'r cwmni gymryd drosodd ffatrïoedd hen gwmni Morris Cohen Lingerie rai blynyddoedd yn ôl. Nid ydym yn gwbl glir eto pa effaith a gaiff colli contract M&S ar y saith ffatri sydd yn weddill yng Nghymru.

My officials and I have had frequent discussions with senior Bairdwear staff over the past few days. Out of the current suppliers affected by the M&S rationalisation, they consider themselves to be in a slightly more favourable position. Bairdwear produces lingerie—a strong clothing line for M&S. It understands that M&S does not want lose that clothing line to other UK suppliers of lingerie because of the high quality of goods. Indeed, in the past,

Mae fy swyddogion a minnau wedi cael trafodaethau mynych gydag uwch staff Bairdwear dros y dyddiau diwethaf. O blith y cyflenwyr cyfredol yr effeithir arnynt gan ad-drefnu M&S, maent o'r farn eu bod mewn sefyllfa fymryn yn fwy ffafriol. Mae Bairdwear yn cynhyrchu dillad isaf—cynnyrch sydd yn gwerthu yn dda i M&S. Yn ôl a ddealla, nid yw M&S am golli'r elfen hon i gwmnïau eraill sydd yn cyflenwi dillad isaf yn y DU oherwydd ansawdd uchel y

Bairdwear staff has been asked to remedy quality problems in orders by overseas suppliers that have failed to meet M&S's exacting standards. Their plants have a reputation for undertaking the highest training and quality control measures.

nwyddau. Yn wir, yn y gorffennol, gofynnwyd i staff Bairdwear gywiro problemau ansawdd mewn archebion gan gyflenwyr tramor am nad oeddynt yn bodloni safonau llym M&S. Mae gan eu ffatrïoedd enw da am y safonau hyfforddi uchaf a'r mesurau rheoli ansawdd gorau.

Bairdwear feels that its future lies with the sub-contracting of lingerie to new suppliers. It is also considering marketing and branding its products on a more international scale. However, it must find a new customer for that manufacturing capacity and I do not want to fool the Assembly into thinking that this position can be easily resolved. The best outcome for Bairdwear would be to acquire a new supplier with no facility for lingerie production. The new supplier would want to extend its current production capacity, and Bairdwear feels that its various sites in Wales would be an ideal purchase in terms of value for money. It would also provide a continuity of service for the already proven high levels of quality and skill at its plants in Wales.

Teimla Bairdwear fod dyfodol iddo yn darparu dillad isaf i gyflenwyr newydd fel is-gontractwr. Mae hefyd yn ystyried marchnata a brandio ei gynnyrch ar raddfa fwy rhyngwladol. Fodd bynnag, rhaid iddo ganfod cwsmer newydd i'r gallu cynhyrchu dan sylw ac nid wyf am dwyllo'r Cynulliad i feddwl y gellir datrys y sefyllfa yn hawdd. Y canlyniad gorau i Bairdwear fyddai caffael cyflenwr newydd sydd heb unrhyw allu i gynhyrchu dillad isaf. Byddai'r cyflenwr newydd am ehangu ei allu cynhyrchu, ac mae Bairdwear yn teimlo y byddai ei safleoedd amrywiol yng Nghymru yn bryniant delfrydol o ran gwerth am arian. Byddai hefyd, ar sail lefelau ansawdd a chrefft uchel a chydnabyddedig y ffatrïoedd yng Nghymru, yn rhoi parhad o ran gwasanaeth.

I also spoke to the General Municipal Boilermakers Allied Trades Union. The union is extremely concerned about the job loss threat for over 1,000 of its members in Wales. It is seeking the best possible outcome for them. It believes that the south Wales lingerie sites are in a stronger position than other current suppliers to M&S and that M&S may wish to continue sourcing its lingerie from within the UK because of the stricter quality control standards. That is quite surprising at first sight, because lingerie manufacturing is labour intensive and those labour costs make the difference between production in western Europe and production in east Asia. However, M&S wishes to protect its reputation for high quality clothing. I recently said that I wanted companies to brand their products more and to advertise to the world that those products were made in Wales and that the phrase 'Made in Wales' stood for high quality, craftsmanship, competitive prices, durability and much more.

Siaradais hefyd ag Undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Bwrdeisiol, Bwylerwyr a Chrefftwyr Perthynol. Mae'r Undeb yn bryderus iawn bod swyddi dros 1,000 o'i aelodau yng Nghymru yn y fantol. Mae'n ceisio'r canlyniad gorau posibl iddynt. Cred fod safleoedd dillad isaf de Cymru mewn sefyllfa gryfach nag eraill sydd yn cyflenwi M&S ar hyn o bryd a bod posibilrwydd y bydd M&S am barhau i gynhyrchu ei ddillad isaf o fewn y DU oherwydd y safonau rheoli ansawdd llymach. Mae hynny'n peri syndod ar yr olwg gyntaf, oherwydd mae cynhyrchu dillad isaf yn llafurddwys a'r costau llafur hyn sydd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng cynhyrchu yng ngorllewin Ewrop a chynhyrchu yn nwyrain Asia. Fodd bynnag, mae M&S am warchod ei enw da am ddillad uchel eu safon. Dywedais yn ddiweddar fy mod am i gwmnïau frandio mwy ar eu cynnyrch a hysbysebu gerbron y byd fod y cynhyrchion hyn wedi eu gwneud yng Nghymru a bod y geiriau 'Gwnaethpwyd yng Nghymru' yn sefyll am ansawdd uchel, crefftwaith, prisiau cystadleuol, nwyddau sydd yn para a llawer mwy.

I remind everyone that the Assembly, its

Atgoffaf bawb y bydd y Cynulliad, ei

officials and the officials of its sponsored public bodies will seek to assist Bairdwear and its employees to achieve that ideal outcome, in which another M&S supplier takes over the Bairdwear complex of factories in Wales and continues to use those high quality Welsh skills and provide M&S with its lingerie. M&S will then be able to live up to its famous motto of selling clothes that do not come back, to customers that do. However, we must accept that if M&S cannot provide its suppliers with sufficiently long production runs to overcome the 10 to 1 differential between western Europe and east Asia, perhaps nobody else can. If that happens, the rapid response unit and the redundancy action plans currently in play for Bairdwear employees who are losing their jobs at Pontardawe and Maesteg will have to be extended to those made redundant in the other seven sites.

swyddogion a swyddogion y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo yn ceisio helpu Bairdwear a'i weithwyr i sicrhau'r canlyniad delfrydol, lle byddai un arall o gyflenwyr M&S yn cymryd drosodd ffatrïoedd Bairdwear yng Nghymru ac yn parhau i ddefnyddio'r sgiliau Cymreig, uchel eu hansawdd, hyn i ddarparu dillad isaf i M&S. Gall M&S unwaith eto wedyn gyfiawnhau ei arwyddair enwog o werthu dillad nad ydynt yn dod yn ôl, i bobl sydd yn dod yn ôl. Fodd bynnag, rhaid inni dderbyn, onid yw M&S mwyach yn gallu rhoi i'w gyflenwyr rediadau cynhyrchu digon hir i oresgyn y ffactorau gwahaniaethol o 10 i 1 rhwng gorllewin Ewrop a dwyrain Asia, efallai na all neb arall wneud hynny ychwaith. Os digwydd hynny, bydd yn rhaid ehangu'r uned ymateb cyflym a'r cynlluniau gweithredu ar ddiswyddiadau, sydd ar waith ar hyn o bryd i weithwyr Bairdwear sydd yn colli eu swyddi ym Mhontardawe a Maesteg, i'r rheini a ddiswyddir ar y saith safle arall.

Phil Williams: As an Assembly, we have been here before. There is a clear pattern: Gresford, Maesteg, Pontardawe, Bridgend, Ystradgynlais and now New Tredegar and Bargoed. I know that Rhodri fully understands the problem—our interest rates are much higher than those of mainland Europe and we therefore have an overvalued pound. That can be a disaster for industries facing knife-edge international competition. So far, the effects have been seen mainly in low-tech industries such as footwear and clothing, with a steady loss of around 1,000 jobs per month. However, other sectors in Wales are also facing knife-edged international competition, and I hear rumours of two sectors in particular. Given your access to much more up-to-date information, do you share my apprehension that if this situation continues we may have further losses in other sectors?

Phil Williams: Fel Cynulliad, yr ydym wedi bod yn y fan hon o'r blaen. Mae hwn yn batrwm clir: Gresffordd, Maesteg, Pontardawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Ystradgynlais ac, yn awr, Tredegar Newydd a'r Bargoed. Gwn fod Rhodri yn deall y broblem yn llwyr—mae ein cyfraddau llog yn llawer uwch na chyfraddau tir mawr Ewrop ac mae gennym felly bunt â'i gwerth yn rhy uchel. Gall hynny fod yn drychineb i ddiwydiannau sydd yn wynebu cystadleuaeth ryngwladol lem iawn. Hyd yma, yn y diwydiannau technoleg isel fel esgidiau a dillad y gwelwyd yr effeithiau yn bennaf, gyda cholledion cyson o tua 1,000 o swyddi y mis. Fodd bynnag, mae sectorau eraill yng Nghymru yn wynebu cystadleuaeth ryngwladol lem, a chlywaf sibrydion am ddau sector yn arbennig. O ystyried bod gwybodaeth lawer mwy diweddar o fewn eich cyrraedd chi, ydych chi'n rhannu fy mhryder i y gwelwn ni golledion pellach mewn sectorau eraill, os bydd i'r sefyllfa hon bara?

Furthermore, we suffer this combination of high interest rates and an overvalued pound to tackle the problems of London, but I am sure you would agree that high wages and spiralling house prices are not a problem in Bargoed and Pengam. Do you agree—and this is a technical point—that the

Yn ogystal, yr ydym yn dioddef o'r cyfuniad hwn o gyfraddau llog uchel a phunt sydd â'i gwerth yn rhy uchel er mwyn delio â phroblemau Llundain, ond yr wyf yn sicr y cytunech nad yw cyflogau uchel a phrisiau tai yn codi yn broblem ym Margoed a Phengam. A fyddech chi'n cytuno—ac mae hwn yn

Government still has some influence over interest rates, under the Bank of England Act 1998? It is the Government that sets the maximum rate of inflation that it defines as consistent with price stability, so it also has the power in the present low rate of inflation to relax that condition.

bwynt technegol—fod gan y Llywodraeth rywfaint o ddylanwad dros gyfraddau llog o hyd, dan Ddeddf Banc Lloegr 1998? Y Llywodraeth sydd yn pennu'r gyfradd chwyddiant uchaf a ddiffinnir ganddi fel y lefel sydd yn gydnaws â sefydlogrwydd prisiau, felly mae ganddi hefyd y grym o ystyried cyfradd isel chwyddiant ar hyn o bryd i lacio'r amod hwnnw.

2:49 p.m.

Finally, would you agree that the peculiar pattern of inflation that we see in the south-east of England is the direct result of a high level of disposable income and that an alternative—which would not hit Wales—would be to increase the highest rates of income tax? Hypothetically, if you, as a Member of a Labour administration in the National Assembly for Wales, recognised that a policy pursued by the Labour Government might be harmful to the prospects of Wales, would you be prepared to forcibly express your opposition to it?

Yn olaf, a fyddech chi'n cytuno bod y patrwm chwyddiant rhyfedd a welwn yn ne-ddwyrain Lloegr yn deillio'n uniongyrchol o fod â lefel uchel o incwm ar gael i'w wario ac mai dewis amgen—na fyddai'n effeithio ar Gymru—fyddai cynyddu'r cyfraddau treth incwm uchaf? Yn ddamcaniaethol, pe baech chi, fel Aelod o weinyddiaeth Lafur yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cydnabod y gallai polisi a arddelir gan y Llywodraeth Lafur fod yn niweidio rhagolygon Cymru, a fyddech chi'n barod i ddatgan eich gwrthwynebiad i hynny mewn modd grymus?

Rhodri Morgan: You have presented a whole raft of issues, some of which take us a long way from the clothing industry in the Welsh valleys to house prices in the south-east. However, I recognise that there is a connection. A few months ago when I met the Governor of the Bank of England—I cannot stand name-droppers—I pointed out to him that Wales has a high concentration of M&S suppliers. We had more then because Fii Footwear in Bridgend still existed. I will meet the Governor of the Bank of England shortly during his next tour of the regions, Wales and Scotland, and I am sure that I will reiterate the point, because it is important. The correct balance must be achieved between solving inflation problems, which tend to be led by the nose in the south-east of England, and the consequences of that at the sharp end of industry where it is under the most severe pressure. However, the labour cost differential is great in this industry. I am told by Bairdwear that the labour cost differential between south-east Asia—in countries such as Sri Lanka, the Philippines and Indonesia—and the UK is ten to one. In view of such a large differential, a 30 per cent difference in the level of the pound will not

Rhodri Morgan: Yr ydych wedi codi peth wmbredd o faterion, rhai ohonynt yn mynd â ni yn bell iawn o'r diwydiant dillad yng nghymoedd Cymru i brisiau tai yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod yna gysylltiad. Rai misoedd yn ôl, pan gyfarfûm â Llywodraethwr Banc Lloegr—ni allaf oddef pobl sydd yn brolio'u cydnabod—tynnais ei sylw at y ffaith bod gan Gymru nifer uchel o gyflenwyr M&S. Yr oedd gennym fwy fyth ar y pryd gan fod Fii Footwear ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dal mewn bodolaeth. Byddaf yn cwrdd â Llywodraethwr Banc Lloegr yn fuan yn ystod ei daith nesaf drwy'r rhanbarth, Cymru a'r Alban, a byddaf yn siŵr o ailadrodd y pwynt, oherwydd mae'n bwysig. Rhaid sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng datrys problemau chwyddiant, sydd yn tueddu i gael eu harwain gerfydd eu trwyn yn ne-ddwyrain Lloegr, a chanlyniadau hynny o fewn diwydiant lle ceir y pwysau mwyaf. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth mewn costau llafur yn y diwydiant hwn yn enfawr. Dywedir wrthyf gan Bairdwear bod costau llafur rhwng de-ddwyrain Asia—mewn gwledydd fel Sri Lanka, Ynysoedd y Philipinos ac Indonesia—a'r DU yn gwahaniaethu ddeg i un. Yn

make much difference. We must also remember that the main cause of the crisis for M&S suppliers in Wales is the sort of the problems that exist within M&S itself and its declining sales and profitability. It no longer seems to have the magic touch of being able to provide a middle-market clothing range where the princess and the pauper would be happy to shop side by side. The change in the clothing market and M&S's loss of market share probably has much more deep seated causes than the high level of the pound.

wyneb gwahaniaethau mor fawr, ni fydd gwahaniaeth o 30 y cant yn lefel y bunt yn gwneud llawer o wahaniaeth. Rhaid inni gofio hefyd mai prif achos yr argyfwng i gyflenwyr M&S yng Nghymru yw'r math o broblemau sydd yn bodoli o fewn M&S ei hun, gyda'i werthiant a'i elw yn disgyn. Mae fel petai wedi colli'r ddawn o ddarparu dillad canol y ffordd lle byddai'r dywysoges a'r tlotyn yn hapus i siopa ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'n siŵr bod i'r newid yn y farchnad ddillad a cholled M&S o ran cyfradd o'r farchnad achosion llawer dyfnach na lefel uchel y bunt.

Alun Cairns: On many occasions I have raised the subject of the additional costs that have been imposed on businesses since the Labour administration took over in Westminster two years ago. In a recent debate on enterprise, where I once again listed those costs, you responded by saying that I was a pessimist and that that was not the real situation. However, are not these future redundancies and the current increases in costs that are imposed on manufacturing industries the real situation? Is it not worrying that we are in this situation now while unemployment is low? There is strong competition coming from the far east. As the global economy further develops, particularly in terms of the development of the internet, people will have greater access to far east suppliers. Is that not worrying for our manufacturing industry, particularly as we are over-dependent on that industry?

Alun Cairns: Yr wyf ar lawer achlysur wedi codi mater y costau ychwanegol a orfodwyd ar fusnesau ers i'r weinyddiaeth Lafur ddod i rym yn San Steffan ddwy flynedd yn ôl. Mewn dadl ddiweddar ar fenter, lle rhestrais y costau hynny unwaith yn rhagor, atebasoch drwy ddweud fy mod yn besimist ac nad dyna oedd y sefyllfa mewn gwirionedd. Fodd bynnag, onid yw'r diswyddiadau hyn sydd ar ddigwydd a'r cynnydd yn y costau a orfodir ar ddiwydiannau cynhyrchu ar hyn o bryd yn sefyllfa wirioneddol? Onid yw'n achos gofid ein bod yn y sefyllfa hon yn awr tra bo diweithdra yn isel? Ceir cystadleuaeth gref o'r dwyrain pell. Wrth i'r economi byd-eang ddatblygu ymhellach, yn enwedig o ran datblygu'r rhyngrwyd, bydd pobl yn gallu cyrchu'n haws at gyflenwyr y Dwyrain Pell. Onid yw hynny'n ofid i'n diwydiant cynhyrchu, yn enwedig gan ein bod yn orddibynnol ar y diwydiant hwnnw?

My second point relates to the pivotal role that the training and enterprise councils are playing in retraining staff to help them find new employment. Do you recognise the role they are playing and are you concerned that in a couple of years, after the proposed abolishment of the TECs, we will be in an even worse situation because we will not have that resource on which to depend?

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â'r rôl ganolog sydd gan y cynghorau hyfforddiant a menter o ran ailhyfforddi staff a'u helpu i ganfod gwaith newydd. Ydych chi'n cydnabod y rôl y maent yn ei chwarae ac a ydych chi'n bryderus y byddwn, ymhen rhyw ddwy flynedd, ar ôl dileu'r CHM yn ôl y bwriad, mewn sefyllfa waeth hyd yn oed gan na fydd gennym yr adnodd hwn yr ydym yn dibynnu arno?

Rhodri Morgan: Let me start with the second question, before we get back to Alun Cairns's usual dismal liturgy, which I am glad that he has spared us this time. I must give him credit for that. The functions carried out by the TECs will continue. I pay credit to TEC staff who have professionally and

Rhodri Morgan: Gadewch imi ddechrau gyda'r ail gwestiwn cyn mynd yn ôl at diwn ddiflas arferol Alun Cairns, yr wyf yn ddiolchgar iddo ei hepgor y tro hwn. Rhaid imi roi clod iddo am hynny. Bydd y swyddogaethau a gyflawnir gan y CHM yn parhau. Talaf deyrnged i staff y CHM sydd

enthusiastically leapt into action regarding the current Pontardawe and Maesteg redundancies. Assembly officials co-operated with them when special permission was needed to adjust rules in order to allow immediate participation in the New Deal and other programmes. There has been a high degree of co-operation and I pay tribute to both our staff and TEC staff. I give Alun Cairns my guarantee that the function of handling redundancy situations in co-operation with staff in the Assembly and the Department for Education and Employment will continue. Neither headed notepaper nor the board structure makes any difference as long as this function is continued.

wedi bwrw ati'n broffesiynol a brwdfrydig i weithredu yng nghyswllt y diswyddiadau ym Mhontardawe a Maesteg ar hyn o bryd. Cydweithredodd swyddogion y Cynulliad â hwy pan oedd angen caniatâd arbennig i addasu'r rheolau er mwyn caniatáu i'r cyn-weithwyr gymryd rhan yn y Fargen Newydd a rhaglenni eraill ar unwaith. Cafwyd llawer iawn o gydweithredu a thalaf deyrnged i'n staff ni a staff y CHM. Rhoddaf fy ngair i Alun Cairns y bydd y swyddogaeth o ddelio â sefyllfaoedd diswyddo mewn cydweithrediad â staff y Cynulliad a'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn parhau. Nid yw'r papur pennawd na strwythur y bwrdd yn gwneud unrhyw wahaniaeth cyhyd â bo'r swyddogaeth hon yn parhau.

It is not yet clear whether we will be facing 1,100 further redundancies in April 2000. The picture is not as bleak as Alun Cairns suggests, according to the GMB union and the managing director of Bairdwear. There is a good chance of saving the jobs in south Wales by switching the contract to a supplier who would want to take over the Bairdwear factories and some of the outerwear factories elsewhere in the UK. This is largely because the quality is very high. M&S want to secure that the quality control of lingerie supply is 110 per cent for market reasons. We will direct our efforts towards achieving this. If the worst comes to the worst and there is a large redundancy situation, TEC staff will come into action in April 2000 as they have done in Pontardawe and Maesteg.

Nid yw'n glir eto a fyddwn yn wynebu 1,100 o ddiswyddiadau pellach fis Ebrill 2000. Nid yw'r darlun mor llwm ag yr awgryma Alun Cairns, yn ôl yr Undeb a rheolwr gyfarwyddwr Bairdwear. Mae gobaith da o arbed y swyddi yn ne Cymru drwy newid i gontract gyda chyflenwr a fyddai am gymryd ffatrïoedd Bairdwear a rhai o'r ffatrïoedd dillad uchaf mewn rhannau eraill o'r DU drosodd. Y rheswm pennaf am hyn yw bod yr ansawdd yn uchel iawn. Mae M&S am sicrhau bod y rheolaeth ansawdd dros y cyflenwad dillad isaf yn 110 y cant am resymau marchnad. Byddwn yn cyfeirio ein hymdrechion tuag at gyflawni hyn. Os aiff hi i'r pen ac y ceir sefyllfa o ddiswyddiadau niferus, bydd staff y CHM yn gweithredu yn Ebrill 2000 fel y gwnaethant ym Mhontardawe a Maesteg.

Michael German: Your statement shows the Assembly's concern about matters that are deep-seated in the textile industry in Wales in the long term. The job losses are a matter of great regret. The apparent lack of warning received by the workforce and the management is of particular concern when we are facing such a high level of potential job losses in areas of high unemployment in Wales.

Michael German: Dengys eich datganiad bryder y Cynulliad am faterion sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn y diwydiant tecstilau yng Nghymru yn y tymor hir. Mae colli'r swyddi yn peri gofid mawr. Mae'r diffyg rhybudd yn ôl pob golwg, i'r gweithlu a'r rheolwyr, yn bryder neilltuol gan ein bod yn wynebu lefel mor uchel o golledion swyddi posibl mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel yng Nghymru.

I accept your view that the sub-contractor role is a possibility for a new contractor. However, that option is second best. One way of extending and securing the future of the textile sector in Wales is to look at the new niche markets it can provide. We can

Derbyniaf eich barn bod rôl is-gontractwr yn bosibilrwydd i gontractwr newydd. Fodd bynnag, ail orau yw hynny. Un ffordd o ymestyn a sicrhau dyfodol y sector tecstilau yng Nghymru yw edrych ar y marchnadoedd arbenigol y gall eu cynnig. Gallwn edrych,

examine, as the company itself is doing, the potential for Bairdwear to market, sell and export the goods themselves, as did Morris Cohen. Your department and others will presumably be providing the necessary support in the search for new customer and production markets. The European link and the level of the pound against the euro are important in that sense.

fel y mae'r cwmni ei hun yn ei wneud, ar y potensial i Bairdwear farchnata, gwerthu ac allforio'r nwyddau eu hunain, fel y gwnaeth Morris Cohen. Mae'n siŵr y bydd eich adran chi ac eraill yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol yn y gwaith o chwilio am gwsmeriaid a marchnadoedd cynhyrchu newydd. Mae'r cyswllt Ewropeaidd a lefel y bunt yn erbyn yr ewro yn bwysig yn y cyswllt hwnnw.

The worst possible scenario would be for each of the plants to be broken up further and sold individually. That would mean losing the cohesion that the group has achieved in south Wales. We must keep in touch with the company and find a solution. What steps are you taking to ensure that we are looking for a new entrepreneur to invest in the plant as a whole, thus avoiding the problem of the plant being broken up further and sold for other purposes?

Y senario gwaethaf posibl fyddai i bob un o'r ffatrïoedd gael ei rhannu ymhellach a'u gwerthu'n unigol. Bydd hynny'n golygu colli'r cydlyniad a wireddwyd gan y grŵp yn ne Cymru. Rhaid inni gadw mewn cysylltiad â'r cwmni a chanfod ateb. Pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i sicrhau ein bod yn chwilio am entrepreneur newydd i fuddsoddi yn y gwaith yn ei gyfanrwydd, gan osgoi felly y broblem o'i rannu ymhellach a'i werthu at ddibenion gwahanol?

Rhodri Morgan: That is an important point. The length of the production runs and the size of the M&S contracts—if a new contractor could win those contracts—enable UK clothing suppliers to overcome much of the labour cost disadvantage that we suffer in relation to low labour cost countries in south-east Asia, such as China. The ideal situation would be to find a new operator for all seven factories together, or losing one of the factories perhaps. We have six months in which to achieve this. We have already developed a good relationship in a crisis with Bairdwear and the GMB union, as we are all in this together. We have until April 2000 to find a new operator who will be satisfactory to M&S. They do not want as many suppliers as they have had in the past, but only an M&S contract can salvage the bulk of Bairdwear's work. They could offer a contract of such a size and length that it can lower margins, thus cutting away from the huge labour cost differential between us and south-east Asia. Bairdwear has mentioned the potential for greater marketing by themselves to try to salvage some of the jobs. However, the union and Bairdwear agree that without M&S things do not look good.

Rhodri Morgan: Mae hwn yn bwynt pwysig. Mae hyd y rhediadau cynhyrchu a maint contractau M&S—pe gallai contractwr newydd ennill y contractau hynny—yn galluogi cyflenwyr dillad y DU i oresgyn llawer o'r anfantais costau llafur a wynebwn o'n cymharu â gwledydd yn ne-ddwyrain Asia, fel Tsieina, sydd â chostau llafur isel. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai canfod gweithredwr newydd i'r saith ffatri gyda'i gilydd, neu golli un o'r ffatrïoedd efallai. Mae gennym chwe mis i gyflawni hyn. Yr ydym eisoes wedi datblygu perthynas dda mewn argyfwng gyda Bairdwear a'r Undeb, gan ein bod i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd. Mae gennym tan fis Ebrill 2000 i ganfod gweithredwr newydd a fydd yn foddhaol i M&S. Nid ydynt am gael cynifer o gyflenwyr ag yn y gorffennol, ond dim ond contract M&S wnaiff achub y rhan fwyaf o waith Bairdwear. Gallent gynnig contract digon mawr a hir i leihau'r ffiniau elw sydd yn angenrheidiol, gan gau tipyn ar y bwlch enfawr rhyngom ni a de-ddwyrain Asia o ran costau llafur. Mae Bairdwear wedi sôn am y potensial i farchnata mwy eu hunain er mwyn ceisio achub rhai o'r swyddi. Fodd bynnag, mae'r undeb a Bairdwear yn cytuno nad yw pethau'n edrych yn dda, heb M&S.

2:59 p.m.

Huw Lewis: Thank you, Rhodri, for your statement and your obvious commitment to doing your utmost to address this situation and preserve jobs. I represent a constituency that is home to three of the William Baird factories and approximately 300 jobs. Given the history and unusual contracting practice of M&S, these factories are particularly vulnerable at the moment because of this bolt out of the blue. The outlook appears grim, as you say.

Huw Lewis: Diolch, Rhodri, am eich datganiad a'ch ymrwymiad amlwg i wneud eich eithaf i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon a gwarchod swyddi. Cynrychiolaf etholaeth sydd yn gartref i dair o ffatrïoedd William Baird a thua 300 o swyddi. O gofio hanes ac arferion contractio anarferol M&S, mae'r ffatrïoedd hyn yn neilltuol o fregus ar hyn o bryd oherwydd yr ergyd annisgwyl hon. Mae'r rhagolygon yn dywyll, fel y dywedoch.

You mentioned the need for a rapid response if the worst comes to the worst, but will you assure us that the Assembly and Assembly sponsored public bodies will leave no stone unturned in fighting redundancies at all stages in between? Will you assure us that all options will be explored including, as Mike German mentioned, support in identifying new customers, an audit of transferable skills amongst the Bairdwear workforce—which has a world beating reputation for quality control among other things—the possibility of new ownership, management buyouts or co-operative initiatives on the part of the workforce? I expect the WDA to scour Britain, Europe and the wider world for new customers and options. The WDA should begin this work now rather than waiting for developments.

Sonioch am yr angen am ymateb cyflym os daw hi i'r gwaethaf, ond a wnewch chi roi sicrwydd inni na fydd y Cynulliad na'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn gadael unrhyw garreg heb ei throi wrth ymladd y diswyddiadau bob cam o'r ffordd? A wnewch chi roi sicrwydd inni yr ymchwilir i bob opsiwn gan gynnwys, fel y cyfeiriodd Mike German, roi cefnogaeth i ganfod cwsmeriaid newydd, cynnal archwiliad o'r sgiliau trosglwyddadwy ymysg gweithlu Bairdwear—sydd ag enw gyda'r gorau yn y byd am reolaeth ansawdd ymysg pethau eraill—y posibilrwydd o gael perchnogion newydd, neu i'r rheolwyr brynu'r busnes neu gynlluniau cydweithredol ar ran y gweithlu? Disgwyliaf i Awdurdod Datblygu Cymru gribinio Prydain, Ewrop a'r byd tu hwnt am gwsmeriaid ac opsiynau newydd. Dylai'r Awdurdod ddechrau ar y gwaith hwn yn awr yn hytrach na disgwyl i bethau ddatblygu.

We should try to retain Bairdwear as part of 'Wales plc'. Mike German touched on this. Added value matters because of wage differentials. Where can Bairdwear find added value? The company already has the quality. Therefore, added value might be in the way that customers are served, the use of new technology or finding niche markets. What kind of help can the WDA or we offer in terms of re-tooling, the use of IT, skills development and so on? We have to think outside the box, to use an Americanism.

Dylem geisio cadw Bairdwear yn rhan o 'Gymru ccc'. Cyffyrddodd Mike German â hyn. Mae gwerth ychwanegol yn bwysig oherwydd y gwahaniaethau cyflog. Ym mhle y gall Bairdwear ganfod gwerth ychwanegol? Mae'r ansawdd gan y cwmni yn barod. Felly, efallai y gellid ychwanegu gwerth yn y ffordd y rhoddir gwasanaeth i gwsmeriaid, y defnydd o dechnoleg newydd neu drwy ganfod marchnadoedd arbenigol. Pa fath o help y gallwn ni neu Awdurdod Datblygu Cymru ei gynnig o ran darparu cyfarpar newydd, defnyddio TG, datblygu sgiliau ac ati? Rhaid inni feddwl tu allan i'r bocs, i ddefnyddio ymadrodd Americanaidd.

We need concern but we also need action. The WDA, in the past, has just rounded up the usual suspects on hearing such news. We

Mae angen inni ofidio ond mae angen gweithredu hefyd. Yn y gorffennol, nid yw Awdurdod Datblygu Cymru ond wedi troi at

need imagination to save these jobs. I am sure that I do not need to tell Rhodri that the Valleys are tired of these announcements. This is the second time that I have stood in the Chamber and talked about job losses in my constituency alone and not dozens of jobs but hundreds. I understand that there is expertise among Assembly officials and the WDA. However, we must act more imaginatively and start thinking ahead instead of waiting for developments on the M&S contract.

yr un rhai o glywed newyddion o'r fath. Mae angen dychymyg arnom i achub y swyddi hyn. Yn sicr nid oes angen imi ddweud wrth Rhodri fod y Cymoedd wedi blino clywed cyhoeddiadau fel hyn. Dyma'r ail waith imi sefyll yn y Siambr hon a sôn am golli swyddi yn fy etholaeth i ac nid swyddi fesul dwsinau ond fesul cannoedd. Deallaf fod yna arbenigedd ymysg swyddogion y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru. Fodd bynnag, rhaid inni weithredu â mwy o ddychymyg a dechrau meddwl ymlaen yn lle disgwyl am ddatblygiadau ar y contract M&S.

Rhodri Morgan: I appreciate the concern that people in Merthyr Tydfil will feel given that there are three factories in their constituency. Total redundancy, if it came to that, would add up to over 300. M&S have made it clear that they want fewer suppliers so that they can benefit from longer production runs, and that is a problem when we talk of niche markets or finding new suppliers. Therefore, it is among other M&S suppliers that we have to look first. You asked about looking outside M&S, but it is the major buyer of clothing from what is left of the UK clothing industry. The industry does not amount to much these days, but M&S have kept it going in many ways even though the company is reducing its commitment to the UK clothing industry year by year. Realistically, can any company outside M&S offer the production runs and low margins that enable one to manufacture clothing against the cost differential on wages? The answer is probably no. If there are other niches we have six months to find them. It is not just a matter of rounding up the usual suspects. There will be a lot of commitment from Assembly, Department for Education and Employment, and Training and Enterprise Council officials to try to think of ways of either reducing production costs, or finding new suppliers or occupiers for those factories when the guillotine comes down in April of next year.

Rhodri Morgan: Sylweddolaf y pryder a deimlir gan bobl Merthyr Tudful o gofio bod tair o'r ffatrïoedd yn eu hetholaeth. Byddai cyfanswm y diswyddiadau, pe bai'n dod i hynny, dros 300. Mae M&S wedi ei gwneud yn glir eu bod am gael llai o gyflenwyr fel y gallant elwa o rediadau cynhyrchu hwy, ac mae hynny yn broblem wrth inni sôn am farchnadoedd arbenigol neu am ganfod cyflenwyr newydd. Felly, mae'n rhaid inni edrych ymhlith cyflenwyr eraill M&S i ddechrau. Holoch chi ynglŷn ag edrych tu hwnt i M&S, ond M&S yw'r prif gwmni sydd yn prynu dillad gan yr hyn sydd yn weddill o ddiwydiant dillad y DU. Nid yw'r diwydiant yn fawr iawn y dyddiau hyn, ond mae M&S wedi ei gadw i fynd mewn llawer o ffyrdd er bod y cwmni yn lleihau ei ymrwymiad i ddiwydiant dillad y DU flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn realistig, a all unrhyw gwmni heblaw M&S gynnig y rhediadau cynhyrchu a'r ffiniau elw isel sydd yn galluogi cwmni i gynhyrchu dillad er gwaethaf y gwahaniaeth costau mewn cyflogau? Mae'n debyg mai na yw'r ateb. Os oes marchnadoedd arbenigol eraill mae gennym chwe mis i'w canfod. Nid yw troi at yr un rhai eto yn ddigon. Ceir ymrwymiad mawr gan swyddogion y Cynulliad, yr Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter i geisio meddwl am ffyrdd un ai o leihau'r costau cynhyrchu, neu o ganfod cyflenwyr newydd neu rywrai i gymryd y ffatrïoedd hynny pan syrthia'r fwyell fis Ebrill nesaf.

The problem, given our dependence on M&S, is that it is losing its market share. The announcement about the threat to 1,100 jobs in Wales and 4,500 in Britain was made on

Y broblem, o gofio ein dibyniaeth ar M&S, yw ei fod yn colli ei gyfran o'r farchnad. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad am y bygythiad i 1,100 o swyddi yng Nghymru a 4,500 ym

22 October. The ultimate irony of this is that on that day, there was a queue of 300 shoppers waiting for the new H&M store in Cardiff to open, which is a trendy new shop. This shop is taking market share from M&S as the market divides between low-cost suppliers such as Peacocks and trendy fashion retailers such as H&M, leaving M&S, that used to have a dominant position, in the middle. It is no longer true that everybody shops in M&S. The company's failure to predict that that would happen has left us exposed.

Mhrydain ar 22 Hydref. Eironi eithaf hynny yw bod yna, y diwrnod hwnnw, res o 300 o siopwyr yn disgwyl i siop newydd H&M, sydd yn siop newydd ffasiynol, agor yng Nghaerdydd. Mae'r siop hon yn mynd â rhan o'r farchnad oddi wrth M&S wrth i'r farchnad rannu rhwng cyflenwyr cost-isel fel Peacocks a siopau dillad ffasiynol fel H&M, gan adael M&S, a arferai fod mewn sefyllfa gref, yn y canol. Nid yw'n wir mwyach bod pawb yn siopa yn M&S. Mae methiant y cwmni i ragweld y byddai hyn yn digwydd wedi ein dinoethi ni.

Brian Hancock: Previous speakers have mentioned all I wanted to say, but I emphasise the multiplier effect that happens in valleys such as those in my constituency, where there is a factory in Pengam that employs about 115 employees.

I ask you to reinforce the pressure on M&S to revert to its policy of buying quality British goods so that we can develop our industries. I have been in contact with the Pengam factory and it is very concerned about this, as I am. I will not endanger the sensitive negotiations taking place, but that company feels that it could not handle a direct retail outlet because it would be beyond it. I encourage this because my wife wears M&S underwear, as do I.

Brian Hancock: Mae'r siaradwyr cynt wedi sôn am bopeth yr oeddwn am ei ddweud, ond hoffwn bwysleisio'r effaith luosogol a geir mewn cymoedd fel y rhai yn fy etholaeth i, lle ceir ffatri ym Mhengam sydd yn cyflogi tua 115 o weithwyr.

Gofynnaf ichi roi mwy o bwysau ar M&S i ailafael yn ei bolisi o brynu nwyddau o safon o Brydain, fel y gallwn ddatblygu ein diwydiannau. Bûm mewn cysylltiad â'r ffatri ym Mhengam ac mae'n bryderus iawn am hyn, fel yr wyf innau. Ni fynnwn beryglu trafodaethau sensitif sydd ar y gweill, ond mae'r cwmni hwnnw'n teimlo na allai ymdopi ag uned adwerthu uniongyrchol, oherwydd byddai tu hwnt i'w allu. Yr wyf o blaid hyn oherwydd mae fy ngwraig yn gwisgo dillad isaf M&S, fel yr wyf innau.

Rhodri Morgan: Brian Hancock is obviously a great believer in freedom of information. [*Laughter.*] Bairdwear has a factory shop outlet and with seven factories it can afford to run a factory shop complex. However, I do not know if that would be possible with a smaller number of factories or with only one. Your comment about the multiplier effect is right. It may be that a factory is the dominant employer in a community, a village, a town or part of a valley and any threat to that factory has a bad effect on morale. We will leave no stone unturned during these six months. How the Assembly faces this crisis occurring in about seven valleys throughout Gwent and the former Mid and West Glamorgan, will be a test for it.

Rhodri Morgan: Mae Brian Hancock yn amlwg yn gredwr mawr mewn rhyddid gwybodaeth. [*Chwerthin.*] Mae gan Bairdwear siop ffatri a chyda saith ffatri gallai fforddio rhedeg canolfan siopau ffatri. Fodd bynnag, ni wn a fyddai hynny'n bosibl gyda nifer llai o ffatrïoedd na chyda dim ond un. Mae eich cyfeiriad at yr effaith luosogol yn wir. Efallai mai ffatri yw'r prif gyflogwr mewn cymuned, pentref, tref neu ran o gwm ac mae unrhyw fygythiad i'r ffatri honno yn effeithio'n ddrwg ar ysbryd. Ni adawn unrhyw garreg heb ei throi yn ystod y chwe mis. Bydd sut y bydd y Cynulliad yn wynebu'r argyfwng sydd yn digwydd mewn tua saith o gymoedd ledled Gwent a hen ardaloedd Canol a Gorllewin Morgannwg yn brawf arno.

Peter Black: Before this announcement, more than 1,500 jobs had been lost in the

Peter Black: Cyn y cyhoeddiad hwn, roedd dros 1,500 o swyddi wedi eu colli yn y

textile industry in Wales. Many of those losses were related to M&S restructuring its supply chain in response to its own crisis. Have you sought to meet with M&S management to discuss its problems and the impact of its future restructuring on the textile industry in Wales, so that we may have advance notice of any further announcements?

diwydiant tecstilau yng Nghymru. Digwyddodd llawer o'r colledion hynny am fod M&S yn ad-drefnu ei gadwyn gyflenwi mewn ymateb i'w argyfwng ei hun. Ydych chi wedi ceisio cyfarfod gyda rheolwyr M&S i drafod ei broblemau ac effaith ei ad-drefnu i'r dyfodol ar y diwydiant tecstilau yng Nghymru, fel y gallwn ni gael rhybudd ymlaen llaw am unrhyw gyhoeddiadau pellach?

Rhodri Morgan: Not yet, but maybe that should be done now. We have concentrated our efforts on talking to Bairdwear, which has been open and co-operative with us. Some GMB members take a cynical view. They say that the announcement was made because M&S knew its half yearly results were approaching and had decided the macho thing to do to impress city analysts, since it knew the results would be bad, was to announce savage cut-backs or any action that showed that it was actively engaging the crisis. I do not know whether to put weight behind that cynical interpretation, which you would naturally sympathise with when made by people who are about to lose their jobs. It is understandable.

Rhodri Morgan: Ddim eto, ond efallai y dylid gwneud hynny yn awr. Yr ydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar siarad â Bairdwear, a fu'n agored a pharod eu cydweithrediad gyda ni. Mae rhai o aelodau'r Undeb yn edrych yn sinigaidd ar hyn. Dywedant i'r cyhoeddiad gael ei wneud am fod M&S yn gwybod bod ei ganlyniadau hanner blwyddyn yn dynesu a'i fod wedi penderfynu mai'r peth hy i'w wneud er mwyn gwneud argraff ar ddadansoddwyr y ddinas, am y gwyddai y byddai'r canlyniadau'n wael, oedd cyhoeddi toriadau llym neu unrhyw gamau gweithredu sydd yn dangos ei fod yn delio â'r argyfwng yn egnïol. Ni wn a ddylwn roi coel ar y dehongliad sinigaidd yna, y byddech wrth reswm yn cydymdeimlo ag ef o'i glywed gan bobl sydd ar fin colli eu swyddi. Mae'n ddealladwy.

However, if M&S is willing to consider seriously giving the Bairdwear lingerie work to another supplier which would use the same skills and factory, we will do all we can to help. Our understanding from the GMB and Bairdwear is that that is not impossible and it is likely that we can salvage quite a substantial part of the work. Marks & Spencer is more likely to keep the lingerie work, which is made in Wales, within the UK than the outerwear which is made in its factories elsewhere in the United Kingdom.

Fodd bynnag, os yw M&S yn barod i ystyried o ddifrif roi gwaith dillad isaf Bairdwear i gyflenwr arall a fyddai'n defnyddio'r un sgiliau a ffatri, fe wnawn bopeth a allwn i helpu. Yn ôl a ddeallwn gan yr Undeb a Bairdwear nid yw hynny'n amhosibl ac mae'n debygol y gallwn achub rhan eithaf sylweddol o'r gwaith. Mae Marks & Spencer yn fwy tebygol o gadw'r gwaith dillad isaf, a wneir yng Nghymru, o fewn y DU na'r dillad uchaf a wneir mewn ffatrïoedd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

3:09 p.m.

Gwenda Thomas: Thank you for making a statement on a situation which is far from amusing to my constituents who have faced or are facing redundancy. I wish you luck in your negotiations up to next April in seeking to secure a new purchaser for the business. I ask for your assurance that you will include the building in Pontardawe which is, to the

Gwenda Thomas: Diolch ichi am wneud datganiad ar sefyllfa sydd ymhell o fod yn ddifyr i'm hetholwyr i sydd un ai wedi neu yn wynebu diswyddiadau. Dymunaf bob lwc ichi yn eich trafodaethau tan fis Ebrill i geisio sicrhau prynwr newydd i'r busnes. Gofynnaf am sicrwydd gennych y byddwch yn cynnwys yr adeilad ym Mhontardawe sydd,

best of my knowledge, in the ownership of Bairdwear. The jobs in Pontardawe will have been lost in December, and looking forward to April is of no use unless that building can be used.

hyd y gwn i, yn eiddo i Bairdwear. Bydd y swyddi ym Mhontardawe yn cael eu colli fis Rhagfyr, ac nid yw edrych ymlaen tan fis Ebrill yn dda i ddim oni ellir defnyddio'r adeilad hwnnw.

Rhodri Morgan: There is no discrimination in my mind. I structured the statement so that people could see that one set of redundancies in Pontardawe and Maesteg is upon us already. We anticipate a far bigger set of redundancies in April next year unless we can avert it. There is no way of averting the redundancies in Pontardawe and Maesteg. That is why I described the efforts of the TECs, the employment service and our own officials to arrange a re-employment retraining package for all of those involved in that redundancy, which was announced in early September and which was much more sudden. It was a case of redundancies taking place rather than an announcement that the contract would not be renewed from about next April. Therefore, the situation is much worse with those redundancies taking place just before Christmas in the Llynfi and Swansea valleys.

Rhodri Morgan: Ni fwriadwn wahaniaethu o gwbl. Lluniais y datganiad fel y gallai pobl weld bod un gyfres o ddiswyddiadau ym Mhontardawe a Maesteg ar ein gwarthaf yn barod. Yr ydym yn rhagweld llawer mwy o ddiswyddiadau fis Ebrill nesaf oni allwn osgoi hynny. Nid yw'n bosibl osgoi'r diswyddiadau ym Mhontardawe a Maesteg. Dyna pam y disgrifiais ymdrechion y CHM, y gwasanaeth cyflogaeth a'n swyddogion ninnau i drefnu pecyn ailhyfforddi ac ailgyflogi ar gyfer pawb sydd yn colli ei waith yn sgîl y cyhoeddiad ddechrau Medi, a oedd yn llawer mwy sydyn. Yr oedd yn fater o ddiswyddo pobl yn hytrach na chyhoeddi na fyddai'r contract yn cael ei adnewyddu o fis Ebrill nesaf ymlaen. Felly, mae'r sefyllfa yn llawer gwaeth gyda'r diswyddiadau hynny yn digwydd cyn y Nadolig yng nghymoedd Llynfi a Thawe.

Dadl Plaid Leiafrifol (Democratiaid Rhyddfrydol)
Minority Party Debate (Liberal Democrats)

Yr Economi Gymdeithasol
The Social Economy

The Presiding Officer: The next item on the agenda is the first of two minority party debates which take place today, the first in the name of the Liberal Democrats. I have adopted a similar procedure for both debates, that is to allow one hour for each debate. That includes 10 minutes for the Assembly Secretary in each case. I will follow the practice of calling Members to favour the Members from the Party which holds the debate but perhaps not every one of them. I have selected amendment 1 standing in the name of Alun Cairns.

Y Llywydd: Yr eitem nesaf ar yr agenda yw'r gyntaf o ddwy ddadl gan blaid leiafrifol sydd i'w cynnal heddiw, y gyntaf yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yr wyf wedi mabwysiadu trefn debyg ar gyfer y ddwy ddadl, sef caniatáu awr ar gyfer y naill a'r llall. Mae hynny'n cynnwys 10 munud i Ysgrifennydd y Cynulliad bob tro. Byddaf yn dilyn yr arfer o alw Aelodau gan ffafrio Aelodau o'r Blaid sydd yn cynnal y ddadl, er nad pob un ohonynt efallai. Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

Michael German: I propose:

that this Assembly recognises the vital importance of the social economy in Wales as a means of reducing social exclusion, and resolves that the following initiatives be taken

Michael German: Cynigiaf fod

y Cynulliad hwn yn cydnabod pwysigrwydd yr economi cymdeithasol yng Nghymru fel dull o leihau dieithrwch cymdeithasol, a'i fod o'r farn y dylid defnyddio'r mentrau canlynol

to encourage its development:

that the relevant Assembly Committees institute a review of funding mechanisms for the voluntary sector in Wales with the aims of:

a. standardising the usual funding period for both direct and indirect funding at three to five years to ensure stability and facilitate long-term planning by voluntary bodies;

b. shifting the emphasis from the funding of individual projects to investment in core functions and infrastructure, as a means of promoting the independence of the sector;

c. ensuring transparency and consistency of funding procedures.

that the Economic Development Committee investigates the establishment, as part of an enterprise development bank for Wales, of a community investment unit to channel European structural funding to community enterprises.

i annog ei ddatblygiad:

bod Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad yn cychwyn ar arolwg o ddulliau ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru gyda'r nod o wneud y canlynol:

a. safoni'r cyfnod cyllido arferol i gyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfnod o dair i bum mlynedd i sicrhau sefydlogrwydd ac i hyrwyddo cynllunio tymor hir gan gyrff gwirfoddol;

b. symud y pwyslais o gyllido prosiectau unigol i fuddsoddi mewn swyddogaethau a seilwaith craidd, er mwyn hybu annibyniaeth y sector;

c. sicrhau tryloywedd a chysondeb gweithdrefnau cyllido.

bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cynnal ymchwiliad i sefydlu uned buddsoddi cymunedol, fel rhan o fanc datblygu menter i Gymru, i sianelu cyllid strwythurol Ewropeaidd i fentrau cymunedol.

The motion before us will allow the Assembly to make two important decisions today. First, we can take a first step towards providing Wales's voluntary sector with the continuity of funding it needs. Secondly, we can establish a funding source for community enterprises so that voluntary schemes and organisations can get direct access to the European structural funds. The phrases 'voluntary sector' and 'European structural funds' are not the stuff of headlines and mass popular unrest, but both are of enormous significance and importance to the future of Wales.

Bydd y cynnig ger ein bron yn caniatáu i'r Cynulliad wneud dau benderfyniad pwysig heddiw. Yn gyntaf, gallwn gymryd cam cyntaf tuag at roi i sector gwirfoddol Cymru y dilyniant cyllido sydd ei angen arno. Yn ail, gallwn sefydlu ffynhonnell gyllido i fentrau cymuned fel y gall cynlluniau a mudiadau gwirfoddol gyrchu'n uniongyrchol at gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Nid yw'r cymalau 'y sector gwirfoddol' a 'chronfeydd strwythurol Ewropeaidd' yn hawlio'r penawdau newyddion nac yn peri i drwch y boblogaeth sefyll ar ei thraed a phrotestio, ond mae i'r ddau ohonynt arwyddocâd a phwysigrwydd enfawr i ddyfodol Cymru.

The role of the voluntary sector lies at the heart of the liberal and democratic society in which I wish to live. Voluntary individual contribution is the starting point for a healthy community. It existed before capitalist society and before the growth of the state and public sectors. Voluntary effort allows diversity to flourish and encourages enterprise, innovation and co-operation. It is based on action and not bureaucracy. It is a

Mae rôl y sector gwirfoddol wrth graidd y gymdeithas ryddfrydol a democrataidd yr wyf am fyw ynddi. Cyfraniadau unigol gwirfoddol yw'r man cychwyn tuag at gymuned iach. Yr oedd hynny'n bodoli cyn dyfodiad cymdeithas gyfalafol a chyn twf y sectorau gwladol a chyhoeddus. Mae ymdrech wirfoddol yn caniatáu i amrywiaeth ffynnu ac yn annog menter, arloesi a chydweithrediad. Fe'i seilir ar weithredu ac

bastion of independence, challenging the establishment's inevitable conformity.

nid biwrocratiaeth. Mae'n un o golofnau annibyniaeth, yn herio cydymffurfiaeth anochel y sefydliad.

Therefore, given its primacy of role and origin, why has the voluntary sector become the after-thought of public life? In this age we are all champions of the private sector and, with a few exceptions to our right, we all support the public sector. However, when we consider the voluntary sector, we are left with warm words and a few scraps from the main table. In general, the voluntary sector is treated by government not so much as the third way but as the way out. It provides the way out for governments full of intentions but short of cash. It is often seen as a source of cheap labour and action. It is a way of patching up problems that government does not have the will to resolve.

Felly, o ystyried y lle amlwg sydd i'w rôl a'i darddiad, pam mai rhywbeth i'w ystyried olaf yw'r sector gwirfoddol mewn bywyd cyhoeddus? Yn yr oes hon mae pawb ohonom yn clodfori'r sector preifat a, chyda rhai eithriadau ar y dde, yr ydym oll yn cefnogi'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth ystyried y sector gwirfoddol, cawn ein gadael gyda geiriau caredig a rhyw dameidiach oddi ar y bwrdd mawr. Yn gyffredinol, caiff y sector gwirfoddol ei drin gan lywodraeth nid yn gymaint fel trydedd ffordd ond fel ffordd allan. Dyma'r ffordd allan i lywodraethau sydd yn llawn bwriadau ond yn brin o arian. Caiff ei weld yn aml fel ffynhonnell llafur a gweithredu rhad. Mae'n ffordd o orchuddio'r problemau nad oes gan lywodraeth yr ewyllys i'w datrys.

There are thousands of community schemes in Wales and they are worth more than their weight in gold. They improve local facilities and services and provide the glue that allows communities to bond and thrive. Many schemes are at the end of the line when it comes to funding. The public and private sectors take the lion's share because they drive the process forward. They do this not because they are more important than the voluntary sector but because they have the size and the resource to shout the loudest. The voluntary sector's strength is in its diversity and in its closeness to the communities it serves. This strength often works against it when it needs to lobby and to bid for work. The result is that sometimes we take the voluntary sector for granted. It does not get the attention, the respect, the funding or the rights afforded to the public and private sectors.

Mae yna filoedd o gynlluniau cymuned yng Nghymru ac maent yn werth mwy na'u pwysau mewn aur. Maent yn gwella cyfleusterau a gwasanaethau lleol ac yn darparu'r glud sydd yn galluogi cymunedau i asio a ffynnu. Mae llawer o gynlluniau ar gefn y rhes pan ddaw'n fater o gyllid. Mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn cymryd y gyfran orau gan mai nhw sydd yn gyrru'r broses yn ei blaen. Gwnânt hyn nid am eu bod yn bwysicach na'r sector gwirfoddol ond am fod ganddynt y maint a'r adnoddau i weiddi'n fwy croch. Yn ei amrywiaeth a'i agosrwydd at y cymunedau y mae yn eu gwasanaethu y mae cryfder y sector gwirfoddol. Mae'r cryfder hwn yn aml yn gweithio yn ei erbyn pan fydd angen iddo lobïo ac ymgeisio am waith. O ganlyniad, yr ydym weithiau yn cymryd y sector gwirfoddol yn ganiataol. Nid yw'n cael y sylw, y parch, y cyllid na'r hawliau a roddir i'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Voluntary organisations are strangled by lack of funding and by the funding process itself. Too often, voluntary organisations are at the end of the funding chain. Money goes from the Treasury to the Assembly, from the Assembly to councils and from councils to local groups. When every one of these links is tight there is no flexibility by the end of the chain—the loaf has been sliced leaving just a

Caiff mudiadau gwirfoddol eu mygu gan ddiffyg cyllid a chan y broses gyllido ei hun. Yn rhy aml, mae mudiadau gwirfoddol ar waelod y gadwyn gyllido. Mae arian yn mynd o'r Trysorlys i'r Cynulliad, o'r Cynulliad i'r cynghorau ac o'r cynghorau i grwpiau lleol. Pan fo pob un o'r dolenni hyn yn dynn nid oes hyblygrwydd erbyn diwedd y gadwyn—mae'r dorth wedi ei thafellu gan

few crumbs for the voluntary sector. The fragmentation of funding sources means that what is available is always under threat. Grants are given for one year. This prevents long-term planning and swallows up voluntary effort in an endless battle for next year's income.

adael dim ond ychydig friwsion i'r sector gwirfoddol. Mae darnio'r ffynonellau cyllido yn golygu bod yr hyn sydd ar gael bob amser dan fygythiad. Rhoddir grantiau am flwyddyn. Mae hyn yn rhwystro cynllunio tymor hir ac yn traflyncu ymdrechion gwirfoddol mewn brwydr ddiddiwedd am incwm y flwyddyn nesaf.

The emphasis is on projects rather than core funding. Therefore, organisations are constantly dependent on others who set their direction and give them their orders. The Assembly has the opportunity to end this frustrating mess. We can lay down procedures that allow continuity of funding, long-term planning, sector independence, transparency and consistency. We must all do this. The work of every Assembly Committee touches on the work of the voluntary sector. Every area of government life depends on voluntary effort and contribution.

Mae'r pwyslais ar brosiectau yn hytrach na chyllid craidd. Felly, mae mudiadau yn dibynnu'n barhaus ar eraill sydd yn pennu eu cyfeiriad ac yn rhoi gorchmynion iddynt. Mae cyfle gan y Cynulliad i roi terfyn ar y llanast hwn. Gallwn sefydlu trefniadau a fydd yn caniatáu parhad o ran cyllido, cynllunio tymor hir, annibyniaeth, tryloywedd a chysondeb i'r sector. Rhaid i bawb ohonom wneud hyn. Mae gwaith pob un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn cyffwrdd â gwaith y sector gwirfoddol. Mae pob maes o fywyd llywodraeth yn dibynnu ar ymdrechion a chyfraniadau gwirfoddol.

One important and practical way to raise the status and the value of the voluntary sector is in this motion before us. Our proposal for a unit of the proposed new enterprise development bank, to channel venture capital in particular into community enterprises, would help raise the voluntary sector's status, provide a direct funding source and encourage a larger share of money to go directly to community and voluntary enterprises where it would be spent effectively. The unit would be used to channel the European structural funding—in particular the new money due under the Objective 1 scheme—into community enterprises.

Mae un ffordd bwysig ac ymarferol o godi statws a gwerth y sector gwirfoddol yn y cynnig hwn o'n blaenau. Byddai ein cynnig ni o blaid uned o'r banc datblygu menter newydd arfaethedig i sianelu cyfalaf mentro yn benodol tuag at fentrau cymunedol yn help i godi statws y sector gwirfoddol, gan gynnig ffynhonnell gyllido fwy uniongyrchol ac annog cyfran fwy o arian i fynd yn uniongyrchol i fentrau cymunedol a gwirfoddol lle câi ei wario'n effeithiol. Câi'r uned ei defnyddio i sianelu cyllid strwythurol Ewropeaidd—yn enwedig yr arian newydd sydd i ddod dan y cynllun Amcan 1—i mewn i fentrau cymunedol.

Community enterprises benefit those who participate in them, those who receive services from them and the community in general. These benefits take the form of providing training and educational opportunities and local employment especially for those who might otherwise find it difficult to find work. They improve community morale, build self-confidence and encourage local control of businesses and services. They help to improve the local environment and generate income. They draw on unused local resources. An example of this is channelling untapped human resources

Mae mentrau cymunedol o fudd i'r rheini sydd yn cymryd rhan ynddynt, y rheini sydd yn derbyn gwasanaethau ganddynt a'r gymuned yn gyffredinol. Daw'r buddion hyn ar ffurf darparu hyfforddiant a chyfleoedd addysgol a chyflogaeth leol yn enwedig i'r rheini a'i câi yn anodd fel arall efallai i gael gwaith. Maent yn gwella ysbryd y gymuned, yn hybu hunan hyder ac yn annog rheolaeth leol dros fusnesau a gwasanaethau. Maent yn help i wella'r amgylchedd lleol a chreu incwm. Manteisiant ar adnoddau lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio. Enghraifft o hyn yw sianelu adnoddau dynol segur ac

and recycling and reusing materials such as furniture. The enterprises provide low cost products and services for local people, some of which may not otherwise be provided because they are not considered viable or because service providers do not want to operate in a particular area.

ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau fel dodrefn. Mae'r mentrau'n darparu cynnyrch a gwasanaethau cost isel i bobl leol, rhai ohonynt yn rhai na chaent eu darparu fel arall am na thybir y byddent yn talu'r ffordd neu am nad yw darparwyr gwasanaethau am weithredu mewn ardal arbennig.

There are many examples of places where these enterprises work well. One example of this is the Valleys Furniture Recycling in Rhondda Cynon Taff. This furniture recycling plant was launched in 1995 in Ferndale. Between 1995 and 1998 it collected 23,491 items of furniture and restored 21,535 items. Those items were delivered free to people who needed them in the Rhondda Cynon Taff area. The furniture is provided in return for a small donation from the people on low income. Recycled office furniture is provided to other community groups, and via an information technology graduate placement from the University of Glamorgan, a database has been set up to help manage and monitor the service. Training is provided in carpentry and upholstery, which provides skills for volunteers and New Deal job seekers. The company is used by the probation service for community service placements. No other statutory or voluntary body in the area is able to offer this breadth of service. This service takes people off the ladder of unemployment and inactivity on to the ladder of employment and wealth creation.

Mae yna lawer o enghreifftiau o leoedd lle mae'r mentrau hyn yn gweithio'n dda. Un enghraifft o hyn yw Ailgylchu Dodrefn y Cymoedd yn Rhondda Cynon Taf. Lansiwyd y gwaith ailgylchu dodrefn hwn ym 1995 yng Nglyn Rhedynnog. Rhwng 1995 a 1998 casglodd 23,491 eitem o ddodrefn ac adnewyddwyd 21,535 eitem. Cafodd yr eitemau hynny eu danfon yn rhad ac am ddim i bobl oedd â'u hangen yn ardal Rhondda Cynon Taf. Cynigir y dodrefn yn gyfnewid am gyfraniad bach oddi wrth y bobl ar incwm isel. Darperir dodrefn swyddfa wedi ei ailgylchu i grwpiau cymuned eraill, a thrwy leoliad i fyfyriwr technoleg gwybodaeth wedi graddio o Brifysgol Morgannwg, sefydlwyd cronfa ddata i helpu i reoli a monitro'r gwasanaeth. Rhoddir hyfforddiant mewn gwaith coed a chlustogwaith, sydd yn rhoi sgiliau i wirfoddolwyr a rhai ar y Fargen Newydd sydd yn chwilio am waith. Defnyddir y cwmni gan y gwasanaeth prawf ar gyfer lleoliadau gwasanaeth cymunedol. Nid oes unrhyw gorff statudol na gwirfoddol arall yn yr ardal a all gynnig gwasanaeth mor eang â hyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn tynnu pobl oddi ar ysgol diweithdra a segurdod a'u rhoi ar ysgol cyflogaeth a chreu cyfoeth.

3:19 p.m.

I hope that we will gain Assembly support for our proposals. It is unfortunate however that we have a Tory amendment that refers to the 'limitations' of community enterprise. Those views are misplaced. There is no doubt that if we can reduce the inactivity levels in Wales to the UK average as a whole, we will have reduced the gap between our gross domestic product per capita and that of the rest of the UK by one third.

Gobeithiaf y cawn gefnogaeth y Cynulliad i'n cynigion. Mae'n anffodus fodd bynnag fod gennym welliant Torïaidd sydd yn cyfeirio at 'gyfyngiadau' menter gymunedol. Mae'r farn honno yn gyfeiliornus. Os gallwn ni ostwng y lefelau segurdod yng Nghymru i'r cyfartaledd drwy'r DU gyfan, nid oes amheuaeth y byddwn wedi lleihau'r bwlch rhwng ein cynnyrch mewnwladol crynswth y pen a chynnyrch y pen gweddill y DU o un rhan o dair.

Community enterprises show an entrepreneurial spirit which is vital to Wales's future. Entrepreneurship does not have to be confined to the world of

Mae mentrau cymunedol yn dangos ysbryd mentro sydd yn hanfodol bwysig i ddyfodol Cymru. Nid yw'n rhaid cyfyngu entrepreneuriaeth i fyd busnes masnachol.

commercial business. There is a need for enterprising and risk-taking attitudes and behaviour in all spheres of activity. Community and voluntary enterprises can be commercially successful and they can adopt a business attitude. The words, 'business attitude' are used by Antur Waunfawr in Gwynedd, which employs local people with learning disabilities in a variety of enterprises from landscaping to recycling. That is the sort of enterprising behaviour which one would expect the Tories to be in favour of. In view of this—and I regard their amendment as being mean-spirited—their amendment is unhelpful. I hope that after the amendment has been defeated, the decision will be simple. We can send a message to the 1.9 million volunteers in Wales that their contribution will be properly valued. We can tell the 0.25 million voluntary organisations in Wales that their existence will no longer be maintained on a hand to mouth basis. We can champion the volunteers and community enterprises in Wales that can take advantage of European funding to provide sustainable and long-standing, long-lasting benefits to the communities of Wales.

Mae angen agweddau ac ymddygiad mentrus a pharod i gymryd risg ym mhob cylch gweithgarwch. Gall mentrau cymunedol a gwirfoddol fod yn llwyddiant masnachol a gallant fabwysiadu agwedd busnes. Defnyddir y geiriau 'agwedd busnes' gan Antur Waunfawr yng Ngwynedd, sydd yn cyflogi pobl leol ag anableddau dysgu mewn amrywiaeth o fentrau, o dirlunio i ailgylchu. Dyna un math o ymddygiad mentro y byddwn yn disgwyl i'r Torïaid fod o'i blaid. Yn wyneb hyn—ac yr wyf o'r farn bod eu gwelliant yn grintachlyd—mae eu gwelliant yn ddi-fudd. Ar ôl i'r gwelliant gael ei drechu, gobeithiaf y bydd y penderfyniad yn syml. Gallwn anfon neges i'r 1.9 miliwn o wirfoddolwyr yng Nghymru y rhoddir gwerth priodol ar eu cyfraniad. Gallwn ddweud wrth y 0.25 miliwn o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru na fydd eu bodolaeth mwyach yn cael ei gynnal ar sail o'r llaw i'r genau. Gallwn glodfori a phleidio achos y gwirfoddolwyr a'r mentrau cymunedol yng Nghymru a all fanteisio ar gyllid Ewropeaidd er mwyn rhoi i gymunedau Cymru fanteision cynaliadwy a fydd yn ennill eu plwyf ac yn parhau.

Alun Cairns: I propose the following amendment. In line 1 after the words 'in Wales' add,

but accepts its limitations

and replace the last clause with,

that the relevant Assembly Secretary introduces a value for money investigation into each publicly funded 'social economy' project.

Alun Cairns: Cynigiaf y gwelliant isod. Yn llinell 1 ar ôl y geiriau 'yng Nghymru' ychwaneger,

ond yn derbyn ei gyfyngiadau

a dileer y cymal olaf a rhoi yn ei le,

bod yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn cynnal ymchwiliad gwerth am arian o bob prosiect 'economi cymdeithasol' a ariennir yn gyhoeddus.

Today's debate demonstrates the lack of understanding of the key reason for the Assembly's existence, to redevelop our economic fortunes. I have said time and time again that the Assembly is obsessed with fringe elements and minor points and that it lacks understanding of the private sector. I am not surprised however, after my research a couple of days ago into the curricula vitae of every Assembly Member that less than 20 had active private sector business experience prior to being elected to the Assembly. Twenty out of 60. That proportion is not equalled in the Conservative Party. That was

Mae'r ddadl heddiw yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r prif reswm dros fodolaeth y Cynulliad, sef ailddatblygu ein ffawd economaidd. Yr wyf wedi dweud dro ar ôl tro bod gan y Cynulliad obsesiwn ag elfennau ymylol a mân bwyntiau ac nad oes ganddo ddealltwriaeth o'r sector preifat. Nid wyf yn synnu, fodd bynnag, ar ôl fy ymchwil ryw ddeuddydd yn ôl i *curricula vitae* pob un o'r Aelodau fod gan lai nag 20 brofiad ymarferol o waith y sector preifat cyn cael eu hethol i'r Cynulliad. Ugain allan o 60. Nid dyna'r gyfran yn y Blaid Geidwadol. Dangoswyd hynny ymhellach yr wythnos hon pan nad

further demonstrated this week when not one Labour Assembly Member bothered to attend the national CBI conference in Birmingham. If that is the commitment that the Assembly shows to business, it does not bode well for the future.

aeth yr un Aelod Llafur o'r Cynulliad i'r drafferth o fynychu cynhadledd genedlaethol Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain yn Birmingham. Os dyna faint ymrwymiad y Cynulliad i fusnes, nid yw'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Today's motion highlights this point once again. Instead of debating our support for wealth creators and how we can facilitate the private sector to deliver our goals, we are once again debating the social economy.

Mae'r cynnig heddiw yn amlygu'r pwynt hwn unwaith yn rhagor. Yn lle trafod ein cefnogaeth i'r rhai sydd yn creu cyfoeth a sut y gallwn hwyluso'r sector preifat i gyflawni ein hamcanion, yr ydym unwaith yn rhagor yn trafod yr economi cymdeithasol.

The social economy has an important role to play in facilitating people back into active economic engagement. However, over-exaggerating its contribution misses the mark, when we have a target to create 136,000 new jobs in the national economic development strategy. You are fooling yourselves. It is claimed that the social economy accounts for 15 per cent of the Welsh gross domestic product. I question the validity of that figure. Also, having such a high level of social sector jobs is not an achievement. It merely demonstrates that our private sector is too small and that our public sector is too large.

Mae gan yr economi cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae yn hwyluso'r ffordd i bobl yn ôl i weithgarwch economaidd ymarferol. Fodd bynnag, drwy orliwio ei gyfraniad rydym yn methu'r nod, pan fo gennym darged i greu 136,000 o swyddi newydd yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Yr ydych yn twyllo eich hunain. Honnir bod yr economi gymdeithasol i gyfrif am 15 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru. Yr wyf yn amau dilysrwydd y ffigwr yna. Hefyd, nid llwyddiant yw cael lefel mor uchel o swyddi yn y sector cymdeithasol. Nid yw ond yn dangos bod ein sector preifat yn rhy fach a'n sector cyhoeddus yn rhy fawr.

The motion suggests that the social economy is pivotal in facilitating and encouraging people to return to work. I would be interested to hear the Secretary for Economic Development's and the First Secretary's views on how the levels of social security benefits encourage or discourage people to return to work. The Westminster Government intends to cut the benefits of people who do not want to return to work. Is it therefore saying that the key motivating factor is achieved by cutting benefits, not by social economy mollycoddling?

Mae'r cynnig yn awgrymu bod yr economi gymdeithasol yn ganolog i'r dasg o hwyluso ac annog pobl i ddychwelyd i weithio. Diddorol i mi fyddai clywed barn yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'r Prif Ysgrifennydd ar sut y mae'r lefelau nawdd cymdeithasol yn annog pobl i ddychwelyd i weithio, neu fel arall. Mae Llywodraeth San Steffan yn bwriadu torri budd-daliadau pobl nad ydynt am ddychwelyd i weithio. A yw'n dweud felly mai torri budd-daliadau yw'r ffactor allweddol o gymhelliant, nid maldodi gan yr economi gymdeithasol?

I have previously declared an interest due to my employment with a major high street bank where, as a business development consultant, I frequently observe managers interviewing customers. That keeps my feet firmly on the ground and keeps me in close contact with people's financial circumstances. All too often I have observed benefit claimants whose situation means that it is not in their financial interest to return to work. Some people's net income on benefits

Yr wyf wedi datgan diddordeb o'r blaen oherwydd fy ngwaith gydag un o brif fanciau'r stryd fawr lle byddaf, fel ymgynghorydd datblygu busnes, yn aml yn arsylwi ar reolwyr yn cyfweld cwsmeriaid. Mae hynny'n cadw fy nhraed yn gadarn ar y ddaear ac yn fy nghadw mewn cysylltiad agos ag amgylchiadau ariannol pobl. Yn rhy aml o lawer yr wyf wedi gweld rhai sydd yn hawlio budd-daliadau lle mae eu sefyllfa yn golygu na fyddai o fudd ariannol iddynt

amount to a gross equivalent of £20,000 per annum or more. The social economy makes no contribution in encouraging these individuals to return to work. No amount of social stimulation would motivate these scroungers to return to work. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

ddychwelyd i weithio. Mae incwm net rhai pobl ar fudd-daliadau yn cyfateb i ffigur crynswth o £20,000 y flwyddyn neu fwy. Nid yw'r economi gymdeithasol yn cyfrannu o gwbl tuag at annog yr unigolion hyn i ddychwelyd i weithio. Ni waeth faint o ysgogi cymdeithasol a geir, ni fyddai'n cymell y sbwnjwrs hyn i ddychwelyd i weithio. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn.

Val Feld: I am unsure where Alun's contribution is leading and would like to ask a few questions. Alun, have you missed the UK Government's major initiative of the working families tax credit that has now been launched after having been planned for some time? It provides a bridge from benefit into work. Without sounding ageist or judgmental about the young people in our midst, the Conservative Members seem to have difficulty in remembering that they were in government for 18 years. The Conservative Party steered a benefit system that led to the creation of substantial traps for people who could not make the jump off benefits and into work. In your time as a business advisor for a high street retail bank, did many benefit claimants come to you for advice on how to find routes into work? What was your—

Val Feld: Nid wyf yn siŵr i ble y mae cyfraniad Alun yn arwain a hoffwn holi rhai cwestiynau. Alun, ydych chi wedi methu rhaglen fawr Llywodraeth y DU i roi credyd treth i deuluoedd sydd yn gweithio, rhaglen sydd wedi ei lansio bellach ar ôl cael ei chynllunio ers tro? Mae'n cynnig pont oddi ar fudd-daliadau i mewn i waith. Heb ragfarnu ar sail oed na bod yn feirniadol o'r bobl ifainc yn ein mysg, mae'r Aelodau'r Ceidwadol fel pe baent yn cael anhawster cofio iddynt lywodraethu am 18 mlynedd. Llywiodd y Blaid Geidwadol system fudd-daliadau a arweiniodd at greu maglau sylweddol i bobl na allent gymryd y naid oddi ar fudd-daliadau i waith. Yn eich cyfnod fel ymgynghorydd busnes i un o fanciau adwerthu'r stryd fawr, faint o hawlwyr budd-dâl ddaeth atoch am gyngor ar sut i ganfod llwybrau i mewn i waith? Beth oedd eich—

The Presiding Officer: Order. This is supposed to be an intervention. I might have called you, had I known that you wanted to speak.

Y Llywydd: Trefn. Yr oedd hyn i fod yn ymyrraeth. Hwyrach y byddwn wedi eich galw pe bawn yn gwybod eich bod am siarad.

Alun Cairns: Thank you for raising the issue of working families tax credit, Miss Feld. That only compounds the situation of increasing unemployment by imposing further costs and burdens on our private sector, the very organisations that can solve our economic inactivity problem.

Alun Cairns: Diolch i chi am godi mater credyd treth i deuluoedd sydd yn gweithio, Miss Feld. Nid yw hynny ond yn gwaethygu'r sefyllfa a chynyddu diweithdra ymhellach drwy roi mwy o gostau a beichiau ar ein sector preifat, yr union sefydliadau a all ddatrys ein problem segurdod economaidd.

The claimants that I mentioned are all too happy to explain within the strict confidentiality of a bank interview, that they do the odd job on the side. All too frequently, there are too many—

Mae'r hawlwyr budd-daliadau y soniais i atynt yn ddigon parod i egluro, yng nghyfrinachedd llwyr cyfweliad banc, eu bod yn gwneud ambell i jobyn ar y slei. Yn rhy aml o lawer, mae gormod o—

Jenny Randerson: Point of order. Do we have any duty to be vaguely relevant to the

Jenny Randerson: Pwynt o drefn. Oes rhyw ddyletswydd arnom i gadw rywsut at y pwnc

topic? We have a precious hour in which to discuss important issues and Alun Cairns's comments form the most right-wing, ill-informed diatribe I have ever heard. They should at least be relevant to the topic.

dan sylw? Mae gennym gwta awr i drafod materion pwysig ac nid yw sylwadau Alun Cairns ond yn ymosodiad di-sail, adain-dde, gyda'r gwaethaf imi ei glywed erioed. Dylai ei sylwadau o leiaf fod yn berthnasol i'r pwnc.

3:29 p.m.

The Presiding Officer: Standing Orders seek to ensure that Members' speeches are relevant. It is not for me to decide what is right-wing or not. However, this is a minority party debate. There are Conservative minority party debates on occasion and I hope that we will share the time fairly in these debates. I would be grateful if you would conclude, Alun.

Y Llywydd: Mae'r Rheolau Sefydlog yn ceisio sicrhau bod areithiau'r Aelodau'n berthnasol. Nid mater i mi yw penderfynu a ydynt yn adain-dde ai peidio. Fodd bynnag, dadl plaid leiafrifol yw hon. Mae dadleuon plaid leiafrifol Ceidwadol o bryd i'w gilydd a gobeithiaf y byddwn yn rhannu'r amser yn deg yn y dadleuon hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn dirwyn i ben, Alun.

Alun Cairns: I will move on to the key elements. First, I recognise the role of the social economy but let us not over estimate its contribution to economic regeneration. Secondly, a more effective motivating factor to achieve our goal of decreasing economic inactivity rates is welfare benefit reform rather than increased funding for more social projects.

Alun Cairns: Symudaf ymlaen at yr elfennau allweddol. Yn gyntaf, cydnabyddaf rôl yr economi cymdeithasol ond gadewch inni beidio â gorbrisio ei gyfraniad i adfywio economaidd. Yn ail, mae diwygio'r budd-daliadau lles yn ffactor ysgogi mwy effeithiol er mwyn cyflawni ein nod o ostwng y cyfraddau segurdod economaidd na rhoi cyllid ychwanegol tuag at fwy o brosiectau cymdeithasol.

The validity, effectiveness and productivity of many of these social projects are often criticised. It is, therefore, in the interests of all stakeholders, the users and providers of the service and taxpayers who fund the project, that a value for money audit is held into its effectiveness. If a scheme has the objective of retraining an unemployed individual, I want to know how successful it is in achieving this, what the cost is per participant, how many start and how many complete the programme and how many end up in active employment thus achieving the ultimate goal of reducing the welfare burden on the taxpayer?

Caiff dilysrwydd, effeithiolrwydd a chynhyrchiant llawer o'r prosiectau cymdeithasol hyn eu beirniadu'n aml. Y mae, felly, er budd yr holl fuddianwyr, y rhai sydd yn defnyddio ac yn darparu'r gwasanaeth a'r trethdalwyr sydd yn cyllido'r prosiect, fod archwiliad gwerth am arian yn cael ei gynnal i'w effeithiolrwydd. Os mai ailhyfforddi unigolyn di-waith yw amcan cynllun, yr wyf am wybod pa mor llwyddiannus ydyw o ran cyflawni hyn, faint yw'r gost fesul unigolyn, faint sydd yn dechrau a faint sydd yn cwblhau'r rhaglen a faint sydd yn cael cyflogaeth go-iawn yn ei sgîl gan gyflawni, drwy hynny, y nod eithaf o leihau'r baich lles ar y trethdalwr?

The First Secretary: I cannot resist the temptation to say that that was a word from the fringe. You should listen to people in business more often, Alun. I spent time as a member of the Industry and Parliament Trust with one of the investment banks in the City of London. The Centris Report was published during that time and it stimulated media

Y Prif Ysgrifennydd: Ni fedraf ymwrthod rhag dweud mai gair o'r ymylon yn wir oedd hynny. Dylech wrando ar bobl mewn busnes yn amlach, Alun. Treuliais amser fel aelod o Ymddiriedolaeth Diwydiant a'r Senedd gydag un o'r banciau buddsoddi yn Ninas Llundain. Cyhoeddwyd Adroddiad Centris yn ystod y cyfnod hwnnw gan ysgogi diddordeb

interest in the voluntary sector. Each of the bankers with whom I spent time during that day were somehow involved in the voluntary sector, either with a mental health trust, a local community group or a scout group. You should understand the importance of the voluntary sector and extent to which it permeates every aspect of our lives and communities. We do not need to spend time in Birmingham to be in touch with business in Wales. Our dialogue is with Business Wales, the CBI in Wales, the Federation of Small Businesses in Wales, the Institute of Directors in Wales, Swansea Business Club, Chamber Wales and with the kind of people who I spent time with this morning, who are at the second tier of organisations in Wales and who are looking to instil confidence and ambition in our services, industries and companies. Much dialogue is taking place with these people and they are enthusiastic about working with us.

y cyfryngau yn y sector gwirfoddol. Yr oedd pob un o'r bancwyr y treuliais i amser gyda hwy yn ystod y diwrnod hwnnw yn ymwneud rywsut â'r sector gwirfoddol, un ai gydag ymddiriedolaeth iechyd meddwl, grŵp cymuned lleol neu grŵp sgowtiaid. Dylech ddeall pwysigrwydd y sector gwirfoddol ac i ba raddau y mae'n treiddio i bob agwedd o'n bywydau a'n cymuned. Nid oes angen inni dreulio amser yn Birmingham i fod mewn cysylltiad â busnes yng Nghymru. Mae ein deialog ni gyda Busnes Cymru, Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain yng Nghymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru, Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghymru, Clwb Busnes Abertawe, Siambr Cymru a chyda'r math o bobl y treuliais i amser gyda hwy fore heddiw, o'r ail haen o sefydliadau yng Nghymru sydd yn ceisio ennyn hyder ac uchelgais yn ein gwasanaethau, ein diwydiannau a'n cwmnïau. Cynhelir llawer o drafodaethau gyda'r bobl hyn ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â gweithio gyda ni.

There are three golden threads of partnership set in place and endorsed by the Assembly, with business, local government and the voluntary sector. We must not downplay the contribution of any one of those three because they are all important. I welcome this motion. In many ways it endorses and underscores the motion that the Assembly passed in endorsing the compact between Government and the voluntary sector. That was one of the first issues I dealt with when I became Secretary of State for Wales last November and something that the Assembly has since adopted, along with the development of the partnership council with the voluntary sector.

Mae tri llinyn euraid o bartneriaeth wedi eu sefydlu a'u cefnogi gan y Cynulliad, gyda busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Rhaid inni beidio â bychanu cyfraniad unrhyw un o'r tri yma oherwydd mae pob un yn bwysig. Croesawaf y cynnig hwn. Mewn llawer ffordd mae'n cadarnhau ac yn tanlinellu'r cynnig a dderbyniwyd gan y Cynulliad wrth iddo gymeradwyo'r compact rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol. Dyna un o'r materion cyntaf imi ymdrin ag ef wrth ddod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru fis Tachwedd diwethaf a rhywbeth y mae'r Cynulliad wedi ei fabwysiadu ers hynny, ynghyd â datblygu'r cyngor partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol.

I agree with Mike that, historically, there has been a tendency to treat the voluntary sector as an afterthought. That will not happen in the Assembly. We have ensured that the voluntary sector is one of our three crucial partners. Since May 1997, there has been radical change. However, that will take a long time to come to full fruition. The motion recognises the importance of the social economy in Wales and that it helps to reduce social exclusion. That does not merely happen because a service is provided, an activity takes place or because people are

Cytunaf gyda Mike y bu tuedd, yn hanesyddol, i drin y sector gwirfoddol fel rhywbeth i'w ystyried olaf. Ni fydd hynny'n digwydd yn y Cynulliad. Yr ydym wedi sicrhau bod y sector gwirfoddol yn un o'n tri phartner hollbwysig. Ers Mai 1997, bu newid radical. Fodd bynnag, bydd hynny'n cymryd amser maith i ddod i'w lawn ffrwyth. Mae'r cynnig yn cydnabod pwysigrwydd yr economi gymdeithasol yng Nghymru a'i fod yn help i leihau dieithrwch cymdeithasol. Nid yw hynny'n digwydd am fod gwasanaeth wedi ei ddarparu, fod gweithgaredd yn

employed by a voluntary organisation, but because people are enabled to help the wider community.

digwydd neu fod pobl yn cael eu cyflogi gan fudiad gwirfoddol, ond am fod pobl yn cael eu galluogi i helpu'r gymuned ehangach.

During my time in youth and community work, I have seen people contribute initially by making a cup of coffee or helping in a low-key way. They then realise that they have a contribution to make. They gather self-confidence and make a significant contribution, even offer leadership in the community. In many cases, they go on to gain employment and become qualified in a way that would have been beyond their wildest dreams had it not been for the opportunities provided by the voluntary sector. More importantly, encouraging people to volunteer to be active citizens is central to the creation of a decent society. As I have said on many occasions, volunteering, working with others for the public benefit, is the essential act of citizenship. You do not become a citizen through holding a passport or any of the other duties and signs of citizenship. You become a citizen by participating with others to create a better community.

Yn ystod fy nghyfnod mewn gwaith ieuenctid a chymuned, yr wyf wedi gweld pobl yn cyfrannu i ddechrau drwy wneud cwpanaid o goffi neu'n helpu mewn ffordd dawel iawn. Yna sylweddolant fod ganddynt gyfraniad i'w wneud. Maent yn magu hunan hyder ac yn cyfrannu'n sylweddol, gan hyd yn oed gynnig arweiniad yn y gymuned. Mewn llawer o achosion, ânt yn eu blaenau i gael gwaith ac ennill cymwysterau mewn ffordd a fyddai tu hwnt i'w dychymyg pe na bai am y cyfleoedd a gynigir gan y sector gwirfoddol. Yn fwy pwysig, mae annog pobl i wirfoddoli i fod yn ddinasyddion gweithgar yn ganolog i'r gwaith o greu cymdeithas wâr. Fel y dywedais ar lawer achlysur, mae gwirfoddoli, gweithio gydag eraill er budd cyhoeddus, yn weithred hanfodol mewn dinasyddiaeth. Nid ydych yn dod yn ddinesydd drwy ddal pasport nac unrhyw un arall o ddyletswyddau ac arwyddion dinasyddiaeth. Yr ydych yn ddinesydd drwy gymryd rhan gyda phobl eraill i greu gwell cymuned.

Therefore I welcome, generally, the motion before us, which recognises that partnership is genuinely cross-cutting and that all Assembly Committees must be involved in different ways. I take a lead and I work with Jane Hutt on this within the Cabinet to promote the participation of the voluntary sector right across the Assembly's work. It is essential that every Assembly Committee recognises the relevance of the voluntary sector to its activities.

Yr wyf, felly, yn gyffredinol yn croesawu'r cynnig ger ein bron, sydd yn cydnabod bod partneriaeth yn wirioneddol drawsbynciol a bod yn rhaid i holl bwyllgorau'r Cynulliad fod yn rhan o'r broses mewn ffyrdd gwahanol. Yr wyf yn arwain ac yn gweithio gyda Jane Hutt ar hyn o fewn y Cabinet i hyrwyddo cyfranogiad y sector gwirfoddol ar draws gwaith y Cynulliad. Mae'n hanfodol bod pob Pwyllgor o'r Cynulliad yn cydnabod perthnasedd y sector gwirfoddol i'w weithgareddau.

I agree with Mike German that the amendment is not helpful. You can discuss the limitations of the voluntary sector, the public sector or business. None of us are without limits. To suggest that the relevant Assembly Secretary introduces a value for money investigation into each publicly-funded social economy project—what does that mean? Will the consultants to banks carry this out? Should there be a declaration of interest by Alun Cairns in this massive bureaucracy that will be set up to look into every aspect of value? The work voluntary organisations carry out, by and large, should

Cytunaf â Mike German nad yw'r gwelliant yn fuddiol. Gallwch drafod cyfyngiadau'r sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus neu fusnes. Mae i bawb ohonom ein cyfyngiadau. I awgrymu y dylai Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad gynnal ymchwiliad gwerth am arian i bob prosiect economi cymdeithasol a ariennir yn gyhoeddus—beth yw ystyr hynny? Ai ymgynghorwyr y banciau fydd yn gwneud y gwaith? A ddylai Alun Cairns fod yn datgan diddordeb yn y fiwrocratiaeth enfawr hon a gâi ei sefydlu i ymchwilio i bob agwedd o werth? Dylai'r gwaith a wneir gan fudiadau gwirfoddol gael ei archwilio, ar y

be subject to scrutiny. The value for money requirements apply to them, as they do to business or local government organisations that receive Assembly money. In general, voluntary organisations do more with less resources and do that imaginatively. Alun, I am sorry but we do not need another massive bureaucracy in addition to our existing processes to ensure that there is proper scrutiny of how public money is used.

cyfan. Mae'r gofynion gwerth am arian yn berthnasol iddynt hwy, fel y maent i gyrff busnes a llywodraeth leol sydd yn derbyn arian gan y Cynulliad. Yn gyffredinol, mae mudiadau gwirfoddol yn gwneud mwy gyda llai o adnoddau ac yn gwneud hynny gyda dychymyg. Alun, mae'n ddrwg gennyf ond nid oes angen biwrocratiaeth enfawr arall arnom ar ben y prosesau sydd gennym yn barod i sicrhau bod y ffordd y defnyddir arian cyhoeddus yn cael ei archwilio'n briodol.

Much of the motion describes work already in hand. Endorsing it again does no harm. I am sure that Mike German will accept that it is important for us not just to pass resolutions but to work in a spirit of partnership and within the framework of agreement already reached with the voluntary sector for reviewing funding. On 14 October, the shadow voluntary sector Partnership Council discussed funding and agreed to set up a joint working group to look at strategic funding issues. The terms of reference for that group will be decided between the two sides. We need to do this together rather than see it as an Assembly role only. I am sure, Mike, that you would accept that interpretation of the spirit of the motion as being the right way forward. I agree that committees need to be involved in that review process. The compact, along with the manual of guidance on voluntary sector grants—copies of which are available in the Library—pushes us forward. The manual's aim is:

Mae llawer o'r cynnig yn disgrifio gwaith sydd eisoes ar waith. Nid oes unrhyw ddrwg mewn cadarnhau hynny unwaith eto. Yr wyf yn sicr y bydd Mike German yn derbyn ei bod yn bwysig nad derbyn penderfyniadau yn unig a wnawn ond gweithio mewn ysbryd o bartneriaeth ac o fewn y fframwaith cytuno a luniwyd eisoes gyda'r sector gwirfoddol ar gyfer adolygu'r drefn gyllido. Ar 14 Hydref, trafodwyd cyllido gan Gyngor Partneriaeth cysgodol y sector gwirfoddol a chytunwyd i sefydlu cyd weithgor i edrych ar faterion cyllido strategol. Cytunir ar gylch gwaith y grŵp hwnnw rhwng y ddwy ochr. Mae angen inni wneud hyn gyda'n gilydd yn hytrach na'i ystyried fel rôl y Cynulliad yn unig. Yr wyf yn siŵr, Mike, y byddech yn derbyn y dehongliad yna o ysbryd y cynnig fel y ffordd iawn ymlaen. Cytunaf fod angen i'r pwyllgorau fod yn rhan o'r broses adolygu. Mae'r compact, ynghyd â'r llawlyfr arweiniad ar grantiau'r sector gwirfoddol—y mae copïau ohono ar gael yn y Llyfrgell—yn ein gwthio ymlaen. Nod y llawlyfr yw:

'to serve as a model of good practice, establishing sustainability, consistency and transparency in funding practices for both internal funders and for those who distribute public funds on the Government's behalf.'

'gwasanaethu fel model ymarfer da, gan sefydlu cynaliadwyedd, cysondeb a thryloywder mewn arferion cyllido i gyllidwyr mewnol a'r rheini sydd yn dosbarthu cyllid cyhoeddus ar ran y Llywodraeth.'

That contains a commitment to move towards three year funding, recognising the need for voluntary bodies to be able to plan ahead. Going beyond three years to five years carries us beyond the period that even this Government, which for the first time is bringing forward three-year funding, could envisage. It is even beyond the period for which the Assembly's own budget is set. An assumption of continuity is needed, subject to the value for money and efficiency criteria,

Mae hynny'n cynnwys ymrwymiad i symud tuag at gyllido dros dair blynedd, gan gydnabod yr angen i gyrff gwirfoddol allu cynllunio ymlaen. Mae mynd tu hwnt i dair blynedd i bum mlynedd yn mynd â ni tu hwnt i'r cyfnod y gallai hyd yn oed y Llywodraeth hon, sydd am y tro cyntaf yn cyflwyno cyllido tair-blynedd, ei ragweld. Mae hyd yn oed yn mynd tu hwnt i'r cyfnod y pennir cyllideb y Cynulliad ei hun ar ei gyfer. Mae angen tybiaeth o barhad, yn amodol ar y

just as we make an assumption that our own functions in education and health will continue beyond the specific funding period for which we have a horizon. I agree with the thrust of the motion that money provided through other bodies—local authorities and Assembly sponsored public bodies—is as important as the funding provided directly.

meini prawf gwerth am arian ac effeithlonrwydd, yn yr un modd ag y tybiwn y bydd ein swyddogaethau ninnau mewn addysg ac iechyd yn parhau tu hwnt i'r cyfnod cyllido penodol sydd o fewn ein gorwelion. Cytunaf â byrdwn y cynnig bod arian a ddarperir drwy gyrff eraill—awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad—yr un mor bwysig â chyllid a ddarperir yn uniongyrchol.

3:39 p.m.

One positive development is that, having written earlier this year to NHS trusts and health authorities asking them to seek compact with their related voluntary sector, we are now seeing the first of those compacts. That is a demonstration of the process starting to work and I welcome it because many voluntary organisations are concerned with health and care. Their participation in a relationship rather than just being supplicants for money is an extremely positive development.

Un datblygiad positif yw ein bod bellach, ar ôl ysgrifennu'n gynharach eleni at ymddiriedolaethau'r NHS a'r awdurdodau iechyd yn gofyn iddynt geisio compact gyda'u sector gwirfoddol perthnasol—yn gweld y cyntaf o'r compactau hynny. Mae hynny'n dangos bod y broses yn dechrau gweithio ac fe'i croesawaf gan fod llawer o fudiadau gwirfoddol yn ymwneud ag iechyd a gofal. Mae'r ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn perthynas yn hytrach na dim ond erfyn am arian yn ddatblygiad cadarnhaol iawn.

One of the voluntary sector's greatest strengths and one which underpins its independence is its ability to draw funding from a variety of sources. We moved away from core-funding some years ago when there was a feeling that too much money went into organisation and bureaucracy. Perhaps the pendulum has swung too far towards project funding. What is needed is what I describe as strategic funding. This is a concept that I started to develop on a UK scale when I was at the Home Office. This means that the funding is given for specific purposes so that the benefit and the public purpose are known and agreed upon. There is a recognition that in funding projects you must make a contribution to core funding, without which there will not be an organisation to undertake the project. There is something to tease out here. I hope that Mike accepts that thinking through the issue of funding in the Assembly and with the voluntary sector is the way to get it right. It is not a question of choosing between core funding or project funding but rather of getting a balanced approach to how we provide funding which does not make the sector overly dependent on public funding. We want a strong independent voluntary

Un o gryfderau pennaf y sector gwirfoddol ac un sydd yn cynnal ei annibyniaeth yw ei allu i ddenu cyllid o amrywiaeth o ffynonellau. Symudwyd oddi wrth gyllid craidd rai blynyddoedd yn ôl pan deimlwyd bod gormod o arian yn mynd i mewn i drefniadaeth a biwrocratiaeth. Efallai fod y pendil wedi symud yn rhy bell tuag at ariannu prosiectau. Yr hyn sydd ei angen yw yr hyn a ddisgrifiaf fi fel ariannu strategol. Mae hwn yn gysyniad y dechreuais ei ddatblygu ar raddfa'r DU pan oeddwn yn y Swyddfa Gartref. Mae'n golygu bod cyllid yn cael ei roi at ddibenion penodol fel bod y budd a'r diben cyhoeddus yn hysbys ac y cytunir arnynt. Cydnabyddir bod yn rhaid cyfrannu tuag at arian craidd wrth ariannu prosiectau, oherwydd heb hynny ni fydd mudiad i ymgymryd â'r prosiect. Mae rhywbeth i'w ddatrys yma. Gobeithiaf fod Mike yn derbyn mai gwyntyllu holl fater ariannu yn y Cynulliad a chyda'r sector gwirfoddol yw'r ffordd i gael y peth yn iawn. Nid yw'n gwestiwn o ddewis rhwng ariannu craidd neu ariannu prosiectau ond yn hytrach o sefydlu ffordd gytbwys o ymdrin â chyllido nad yw'n gwneud y sector yn orddibynnol ar arian cyhoeddus. Yr ydym am gael sector gwirfoddol annibynnol, cryf a seilwaith

sector and volunteering infrastructure which draw from the business community and individual donations as well as finances from the public purse.

gwirfoddoli sydd yn dibynnu ar y gymuned fusnes a rhoddion unigol yn ogystal ag arian o’r pwrs cyhoeddus.

A review of key grants which support the voluntary sector infrastructure in Wales is currently underway and a report is expected before Christmas. The Assembly will be able to return to this matter and push forward the thinking and hopefully do so by agreement. I repeatedly say to outside organisations, who notice when we have disagreement in the Assembly, that the way in which we think through these issues is positive. I particularly welcome this afternoon’s debate for that reason. There are principles on which we can agree. We must debate the means and achieve long-term sustainable methods to carry out the things to which we aspire in the Labour Party. The Liberal Democrats’ motion expresses an aspiration which is not inconsistent with what we have been trying to do.

Mae adolygiad o’r grantiau allweddol sydd yn cynnal seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir adroddiad cyn y Nadolig. Bydd y Cynulliad yn gallu dod yn ôl at y mater hwn a gwthio’r syniadau yn eu blaenau gan wneud hynny, gobeithio, drwy gytundeb. Dywedaf dro ar ôl tro wrth fudiadau allanol, sydd yn sylwi pan ydym yn anghytuno yn y Cynulliad, fod y ffordd yr ydym yn gwyntyllu’r materion hyn yn un gadarnhaol. Croesawaf y ddadl brynhawn heddiw am y rheswm hwnnw’n arbennig. Mae egwyddorion y gallwn gytuno arnynt. Rhaid inni drafod y cyfrwng a sicrhau dulliau cynaliadwy tymor hir i wireddu’r pethau yr ydym yn ymgyrraedd atynt yn y Blaid Lafur. Mae cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn mynegi dyhead nad yw’n anghydnaws â’r hyn y buom ni yn ceisio ei wneud.

I move on to the idea of community investment unit idea. We certainly want to introduce the investment bank approach as part of the way we develop the infrastructure of the enterprise development bank idea. I agree that we must recognise the value and the return for investment in the social economy and the voluntary sector. We also need to use the opportunity under Objective 1 to stimulate the social economy. We should look at best practice in other Objective 1 regions and learn from what has been done elsewhere in the past. We should not be too prescriptive in telling committees how to structure their work but I support Mike’s aspiration to ask the Economic Development Committee to look at this proposal and drive it forward.

Symudaf ymlaen at y syniad o uned buddsoddi cymunedol. Yn sicr, yr ydym am gyflwyno patrwm gweithredu banc buddsoddi fel rhan o’n ffordd o ddatblygu seilwaith y banc datblygu menter. Cytunaf fod yn rhaid inni gydnabod y gwerth a’r enillion ar fuddsoddi yn yr economi cymdeithasol a’r sector gwirfoddol. Mae angen hefyd inni ddefnyddio’r cyfle dan Amcan 1 i ysgogi’r economi gymdeithasol. Dylem edrych ar yr ymarfer gorau mewn rhanbarthau Amcan 1 eraill a dysgu o’r hyn a wnaethpwyd mewn mannau eraill yn y gorffennol. Ni ddylem fod yn rhy gaeth wrth ddweud wrth bwyllgorau sut i strwythuro eu gwaith ond cefnogaf ddyhead Mike i ofyn i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd edrych ar y cynnig hwn a’i yrru yn ei flaen.

Developing credit unions, for instance, creates a driver in the local economy as well as providing an opportunity for people to come together and support each other. Those who are involved in the local management and organisation of credit unions are given the opportunity to learn skills that they would not otherwise learn. Therefore, it has a series of benefits and is an example of what could come out of this type of development. We

Mae datblygu undebau credyd, er enghraifft, yn creu gyrrwr yn yr economi lleol yn ogystal â rhoi cyfle i bobl ddod ynghyd â chefnogi ei gilydd. Rhoddir cyfle i’r rheini sydd yn ymwneud â rheolaeth a threfniadaeth leol undebau credyd i ddysgu sgiliau na fyddent yn eu dysgu fel arall. Felly, mae iddo gyfres o fuddion ac mae’n enghraifft o’r hyn a allai ddod allan o’r math hwn o ddatblygiad. Dylem groesawu datblygiad o’r fath gan y

should welcome such a development as it could make a significant contribution at the heart of things—not on the margins as Alun suggested—enabling individuals to take control of their lives, to plan and take responsibility for themselves and to be full citizens in an active community within an active Wales.

gallai wneud cyfraniad sylweddol wrth graidd pethau—nid ar yr ymylon fel yr awgrymai Alun—gan alluogi unigolion i gymryd rheolaeth o'u bywydau, i gynllunio ac ysgwyddo cyfrifoldeb amdanynt eu hunain a bod yn ddinasyddion llawn mewn cymuned fyw o fewn Cymru fyw.

Kirsty Williams: I am grateful for the opportunity we have today to highlight the work of the voluntary sector and its contribution to life in Wales. The annual income of the 25,000 voluntary organisations in Wales is about £570 million and accounts for 2.2 per cent of our gross domestic product. Their work is worth about £3.4 billion annually, the equivalent of 15 per cent of Wales's GDP. It contributes £40 of service for every pound of statutory authorities' investment. Some fringe activity, Alun Cairns.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle sydd gennym heddiw i dynnu sylw at waith y sector gwirfoddol a'i gyfraniad i fywyd yng Nghymru. Mae incwm blynyddol y 25,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru oddeutu £570 miliwn ac mae i gyfrif am 2.2 y cant o'n cynnyrch mewnwladol crynswth. Mae gwerth eu gwaith tua £3.4 biliwn y flwyddyn, sydd yn cyfateb i 15 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru. Mae'n cyfrannu £40 o wasanaeth am bob punt a fuddsoddir gan yr awdurdodau statudol. Tipyn o weithgarwch ymylol, Alun Cairns.

The voluntary sector touches the lives of everyone in Wales whether they are one of the 1.9 million volunteers or whether they themselves or their families receive some of the voluntary sector services. Many organisations are small groups making big differences to their local communities. That does not seem limited to me, Alun Cairns. Your colleague, David Melding, himself a champion of the voluntary sector was not here for your speech and maybe there was a good reason why he felt he had to withdraw from the room.

Mae'r sector gwirfoddol yn cyffwrdd bywydau pawb yng Nghymru, boed hwy'n un o'r 1.9 miliwn o wirfoddolwyr neu eu bod hwy neu eu teuluoedd yn derbyn rhai o wasanaethau'r sector gwirfoddol. Grwpiau bach sydd yn gwneud gwahaniaethau mawr i'w cymunedau lleol yw llawer o'r mudiadau. Nid yw hynny'n ymddangos yn gyfyngedig i mi, Alun Cairns. Nid oedd eich cyd-Aelod, David Melding, sydd ei hun yn pledio achos y sector gwirfoddol, yma ar gyfer eich araith ac efallai fod rheswm da pam y teimlai fod rhaid iddo adael yr ystafell.

Instead of talking about limitations, we should be talking about the exact opposite. The voluntary sector liberates those who provide the service and those who take advantage of it. It builds and maintains strong communities and plays a significant part in the national economy of Wales. The services are particularly crucial in rural areas like Brecon and Radnorshire. Living in an isolated area makes people particularly at risk of social, economic and educational exclusion. Luckily, in Powys we have over 800 voluntary organisations manned by almost 98,000 volunteers. Their efforts ensure equality of opportunity for the communities of Powys in social and health care, sports, the arts, community facilities

Yn lle siarad am gyfyngiadau, dylem fod yn siarad am y gwrthwyneb yn llwyr. Mae'r sector gwirfoddol yn rhoi rhyddid i'r rheini sydd yn darparu'r gwasanaeth a'r rhai sydd yn manteisio arno. Mae'n creu a chynnal cymunedau cryf ac yn chwarae rhan o bwys yn economi gymdeithasol Cymru. Mae'r gwasanaethau yn neilltuol o bwysig mewn ardaloedd gwledig fel Brycheiniog a Maesyfed. Mae byw mewn ardal ddiarffordd yn golygu mwy o risg i bobl gael eu cau allan yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn addysgol. Yn ffodus, mae gennym dros 800 o fudiadau gwirfoddol ym Mhowys gyda bron i 98,000 o wirfoddolwyr yn gweithio ynddynt. Mae eu hymdrechion yn sicrhau cydraddoldeb cyfle i gymunedau Powys ym

and transport. It still does not sound limited to me, Alun Cairns.

maes gofal cymdeithasol ac iechyd, chwaraeon, y celfyddydau, cyfleusterau cymuned a chludiant. Nid yw eto yn swnio'n gyfyngedig i mi, Alun Cairns.

What is limiting is the current funding approach to the voluntary sector. The short-term aspect makes planning difficult and restricts progress. Also, given the fact that 90 per cent of the voluntary organisations of Wales are small and have few, if any, staff, the constant funding applications and searches for money takes up a disproportionate amount of their time. They would rather invest that time in doing the job their organisation was created for in the first place.

Yr hyn sydd yn cyfyngu yw'r agwedd at gyllido ar gyfer y sector gwirfoddol ar hyn o bryd. Mae'r ymrwymiad tymor byr yn gwneud cynllunio'n anodd ac yn cyfyngu ar gynnydd. Hefyd, o gofio bod 90 y cant o fudiadau gwirfoddol Cymru yn fach ac mai ychydig o staff sydd ganddynt, os oes staff o gwbl, mae'r ceisiadau parhaus am gyllid a'r chwilio am arian yn cymryd llawer mwy o'u hamser nag a ddylai. Byddai'n well ganddynt fuddsoddi'r amser hwn yn gwneud y gwaith y crewyd eu mudiadau ar ei gyfer yn y lle cyntaf.

I will give you a flavour of some of the work in my constituency of Brecon and Radnorshire. The east Radnorshire day centre in Presteigne provides community care over a 30 mile radius. There is no alternative. Without the day centre services, many of the clients would not be able to stay in their homes. In fact, they would not even be able to stay in their communities because the residential care facility for east Radnorshire is full and there is a long waiting list. The day centre provides vital support in enabling people to continue to live in their own home in their own community. The centre provides them with a meal, a bath, opportunity for a shampoo and set, a manicure and pedicure, companionship and activities. When I arrived there on Monday afternoon they were in the middle of a cut-throat Trivial Pursuit competition. The centre provides all this for £4 a day including transport to and from the centre, which if you live half way up the Tene valley is a long way. The price of £4 a day is a stark contrast to the £25 a day it costs to run the local authority centre in Llandrindod Wells. They could do so much more. The manager of that centre is brimming over with good ideas that she has discussed with the service users and would like to put in place.

Rhoddaf flas ichi o beth o'r gwaith yn fy etholaeth i ym Mrycheiniog a Maesyfed. Mae canolfan ddydd dwyrain Maesyfed yn Llanandras yn darparu gofal yn y gymuned o fewn cwmpas 30 milltir. Nid oes dewis arall. Heb wasanaethau'r ganolfan ddydd, ni fyddai llawer o'r cleientiaid yn gallu aros yn eu cartrefi. Yn wir, ni fyddent ychwaith yn gallu aros yn eu cymunedau oherwydd mae'r ddarpariaeth gofal preswyl i ddwyrain Maesyfed yn llawn ac mae rhestr aros hir. Mae'r ganolfan ddydd yn cynnig cefnogaeth holl bwysig gan alluogi pobl i fyw yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain. Mae'r ganolfan yn rhoi pryd o fwyd iddynt, bath, cyfle i gael golchi a thrin eu gwallt, trin eu dwylo a'u traed, cwmnïaeth a gweithgareddau. Pan gyrhaeddais i yno brynhawn Llun yr oeddynt yng nghanol cystadleuaeth Trivial Pursuit chwyrn. Mae'r ganolfan yn cynnig hyn oll am £4 y dydd sydd yn cynnwys cludiant i'r ganolfan ac yn ôl adref, sydd gryn bellter os ydych yn byw hanner ffordd i fyny dyffryn Tene. Mae'r gost o £4 y dydd mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r £25 y dydd y mae'n ei gostio i gynnal canolfan yr awdurdod lleol yn Llandrindod. Gallent wneud cymaint mwy. Mae rheolwr y ganolfan hon yn llawn syniadau da y mae wedi eu trafod gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac yr hoffai eu rhoi ar waith.

3:49 p.m.

However, they are uncertain of the future

Fodd bynnag, maent yn ansicr ynglŷn â'r

funding of the project. That means that they do not even know if they will be providing the current level of service, let alone be able to expand and improve the services and tackle their waiting list which at present stands at 14 people unable to access the service.

ariannu ar gyfer y prosiect i'r dyfodol. Mae hynny'n golygu nad ydynt yn gwybod hyd yn oed a fyddant yn darparu'r lefel bresennol o wasanaeth, heb sôn am allu ehangu a gwella'r gwasanaethau a mynd i'r afael â'r rhestr aros sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 14 o bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar y gwasanaeth.

Builth Wells Community Support, on the other hand, provides a community car scheme which is necessary in an area like Builth Wells, where the chances of catching a bus are limited. The community car scheme provides transport not only in the local area but also to vital hospital appointments in Cardiff, Hereford and Shrewsbury. In February this year, that service was stopped due to a crisis in funding and at least one patient had to postpone an appointment at a Cardiff hospital because we could not find alternative transport. Alun Michael talked about involving trusts and health authorities in the provision of alternative and additional sources of funding. In this case, it was the local general practitioner surgery that stepped in to help the group out of their predicament, and the scheme is now back in place.

Mae Cefnogaeth Gymuned Llanfair ym Muallt, ar y llaw arall, yn cynnig cynllun ceir cymunedol sydd ei angen mewn ardal fel Llanfair ym Muallt, lle nad oes llawer o gyfle i ddal bws. Mae cynllun y ceir cymunedol yn cynnig cludiant nid yn unig yn yr ardal leol ond hefyd i apwyntiadau ysbyty yng Nghaerdydd, Henffordd ac Amwythig. Ym mis Chwefror eleni, cafodd y gwasanaeth ei atal oherwydd argyfwng ariannu a bu'n rhaid i o leiaf un claf ohirio apwyntiad mewn ysbyty yng Nghaerdydd gan na allai ganfod cludiant arall. Soniodd Alun Michael am gynnwys ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yn y gwaith o ddarparu ffynonellau ariannu amgen ac ychwanegol. Yn yr achos hwn, meddygfa'r meddyg teulu lleol ddaeth i'r adwy i helpu'r grŵp i oresgyn eu trafferthion, ac mae'r cynllun yn ôl ar ei draed erbyn hyn.

Apart from community cars, Builth Wells Community Support supplies a library delivery service, a prescription pick-up and delivery service and a befriending and sitting scheme. In the latter scheme people living on their own can look forward to a weekly visit from a volunteer. Those caring for a relative or loved one can look forward to welcome respite care on a weekly basis, even if it is only for an hour to get the food provisions for the week.

Ar wahân i'r ceir cymunedol, mae Cefnogaeth Gymuned Llanfair ym Muallt yn cynnig gwasanaeth danfon llyfrau llyfrgell, gwasanaeth casglu a danfon presgripsiwn a chynllun gwneud ffrindiau a gwarchod. Yn y cynllun olaf hwn gall pobl sydd yn byw ar eu pen eu hunain edrych ymlaen at ymweliad wythnosol gan wirfoddolwr. Gall y rheini sydd yn gofalu am berthynas neu rywun annwyl iddynt edrych ymlaen at ofal seibiant wythnosol, rhywbeth a groesewir yn fawr hyd yn oed os nad yw ond am awr i allu mynd i siopa am fwyd am yr wythnos.

I have a message from Cathy Ysart, manager of Builth Wells Community Enterprise. It is not a message from a Liberal Democrat, but from somebody involved in the voluntary sector who is trying to get things done.

Mae gennyf neges oddi wrth Cathy Ysart, rheolwraig Menter Gymuned Llanfair ym Muallt. Nid neges oddi wrth Ddemocrat Rhyddfrydol mohoni, ond wrth rywun sydd yn rhan o'r sector gwirfoddol ac sydd yn ceisio sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud.

'If we are given the funding then we will do the work. Volunteers are keen to help but we are put off and restricted by bureaucracy and lack of long-term funding.'

'Os rhoddir y cyllid inni yna fe wnawn ni'r gwaith. Mae gwirfoddolwyr yn awyddus i helpu ond mae'r fiwrocratiaeth a'r diffyg cyllid tymor hir yn eu digalonni ac yn cyfyngu arnynt.'

I hope our message to Cathy is that we will support this motion and look forward to better long-term funding for the voluntary sector.

Gobeithiaf mai ein neges ni i Cathy yw y byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn edrych ymlaen at well ariannu tymor hir i'r sector gwirfoddol.

Pauline Jarman: Plaid Cymru—The Party of Wales will support the motion but not amendment 1, having heard Alun Cairns.

Pauline Jarman: Bydd Plaid Cymru—The Party of Wales yn cefnogi'r cynnig ond nid gwelliant 1, ar ôl clywed Alun Cairns.

The voluntary sector is increasingly recognised as an important player in Wales. It has the potential to play a key role in promoting social inclusion as a service provider. It could also provide jobs and transferable skills in disadvantaged areas as an economic player. Third sector investment in disadvantaged communities directly boosts the immediate local economy and helps to generate and circulate wealth. The sector's resources often underpin services and activities that reach excluded people more easily than public and private sector services. The voluntary sector can enable important development of skills that are transferable to the business sector. It has a unique position of being flexible and able to address the diverse economic, social and cultural needs of the communities. It can involve people that the public and private sectors often do not involve effectively, enabling it to provide flexible and responsive services that meet needs.

Mae'r sector gwirfoddol yn cael ei gydnabod fwyfwy fel chwaraewr pwysig yng Nghymru. Mae ganddo'r potensial i chwarae rôl allweddol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol fel darparwr gwasanaethau. Gallai hefyd ddarparu swyddi a sgiliau trosglwyddadwy mewn ardaloedd difreintiedig fel chwaraewr economaidd. Mae buddsoddi trydydd sector mewn cymunedau dan anfantais yn rhoi hwb uniongyrchol i'r economi lleol ac mae'n help i greu a dosbarthu cyfoeth. Yn aml, adnoddau'r sector hwn yw sylfaen gwasanaethau a gweithgareddau sydd yn cyrraedd pobl sydd wedi eu cau allan yn haws na gwasanaethau'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Gall y sector gwirfoddol alluogi'r gwaith pwysig o ddatblygu sgiliau sydd yn trosglwyddo i'r sector busnes. Mae mewn safle unigryw gan ei fod yn hyblyg ac yn gallu rhoi sylw i anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol amrywiol y cymunedau. Gall gynnwys pobl nad yw'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn aml yn eu cynnwys yn effeithiol, gan ei alluogi i gynnig gwasanaethau hyblyg a pharod i ymateb sydd yn diwallu anghenion.

It is important not to see the voluntary sector as something on its own but as an integral part of our communities. Voluntary sector work has strength and potential because it often encourages community participation which is crucial to developing sound policies. Where there is community participation and engagement, the likelihood of sustainable development is increased, especially in areas of social exclusion. The voluntary sector is growing. It has increased responsibilities and therefore must be properly and appropriately funded.

Mae'n bwysig peidio ag ystyried y sector gwirfoddol yn rhywbeth ar ei ben ei hun ond fel rhan annatod o'n cymunedau. Mae i waith y sector gwirfoddol nerth a photensial gan ei fod yn aml yn annog cyfranogi cymunedol sydd yn hollbwysig er mwyn datblygu polisïau da. Lle ceir cyfranogi ac ymwneud cymunedol, mae datblygu cynaliadwy yn dod yn fwy tebygol, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir dieithrio cymdeithasol. Mae'r sector gwirfoddol ar gynnydd. Mae ganddo fwy o gyfrifoldebau ac felly rhaid ei gyllido'n dda ac yn briodol.

The Assembly recognises the role that the voluntary sector can play in communities through programmes such as Sure Start, and

Mae'r Cynulliad yn cydnabod y rôl y gall y sector gwirfoddol ei chwarae mewn cymunedau drwy raglenni fel Cychwyn

through the compact that has been developed with the voluntary sector. European funding programmes recognise the importance of the third sector as a priority. As a party we are disappointed that the voluntary sector has not been treated more comprehensively in the Objective 1 draft application. Nonetheless, there is an opportunity to strengthen the capacity and impact of the third sector in Wales through partnership between the Assembly and the voluntary sector. Their potential to improve standards of service and so on, to communities in Wales should not be underestimated. If the sector is to prove effective, it must have significant, reliable funding. Public sector investment in the voluntary sector contributes significant additional resources that directly affect communities.

Cadarn, a thrwy'r compact a ddatblygwyd gyda'r sector gwirfoddol. Mae rhaglenni cyllido Ewropeaidd yn cydnabod pwysigrwydd y trydydd sector fel blaenoriaeth. Fel plaid yr ydym yn siomedig nad yw'r sector gwirfoddol wedi cael triniaeth fwy cynhwysfawr yng nghais drafft Amcan 1. Serch hynny, mae cyfle i gryfhau maint ac effaith y trydydd sector yng Nghymru drwy bartneriaeth rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol. Ni ddylid bychanu ei botensial i wella safonau gwasanaeth ac ati, i gymunedau yng Nghymru. Os yw'r sector i fod yn effeithiol, rhaid iddo gael cyllid sylweddol a dibynadwy. Mae buddsoddiad sector cyhoeddus yn y sector gwirfoddol yn cyfrannu adnoddau ychwanegol sylweddol sydd yn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau.

At a recent ad hoc meeting between the Assembly and representatives of the voluntary sector, the Finance Secretary said:

Mewn cyfarfod *ad hoc* diweddar rhwng y Cynulliad a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cyllid:

'The Assembly must be able to demonstrate that it is living up to its values and guiding principles, including a commitment to operate in a participative way, and to seek agreement wherever possible on policy direction and priorities.'

'Rhaid i'r Cynulliad allu dangos ei fod yn gwireddu ei werthoedd a'r egwyddorion sydd yn ei arwain, gan gynnwys addewid i weithredu mewn modd cyfranogol, a cheisio cytundeb pa le bynnag y mae hynny'n bosibl o ran cyfeiriad a blaenoriaethau polisi.'

She also stated that the Assembly's strategic plan process will seek views on the Assembly's proposed values and priorities, and the extent to which these require adjustment in the inherited spending plans, given that there is perceived mismatch in some areas between our values and priorities and our inherited spending plans. I would submit that, despite the consultation process, that was an obvious and predictable statement, because these were pre-Assembly Tory spending plans. After hearing Alun Cairns today, I believe that we all yearn for the day when that will be changed. We in Plaid Cymru—The Party of Wales advocate an increase in funding as well as supporting the need for a changed structure. The facts from the Wales Council for Voluntary Action indicate that only 0.53 per cent of total Welsh Office expenditure is dedicated to the voluntary sector. We in Plaid Cymru would advocate an increase by some £10 million.

Dywedodd hefyd y bydd proses cynllun strategol y Cynulliad yn ceisio barn pobl am werthoedd a blaenoriaethau arfaethedig y Cynulliad ac i ba raddau y bydd angen addasu'r rhain yn y cynlluniau gwariant a etifeddwyd, o gofio'r teimlad bod anghysondeb mewn rhai meysydd rhwng ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau a'r cynlluniau gwariant a etifeddwyd gennym. Byddwn yn awgrymu, er gwaethaf y broses ymgynghori, fod y datganiad hwnnw yn un amlwg ac yn un y gellid bod wedi ei ragweld, oherwydd cynlluniau gwariant y Toriaid cyn oes y Cynulliad oedd y rhain. Ar ôl clywed Alun Cairns heddiw, credaf fod pawb ohonom yn dyheu am y diwrnod pan gaiff hynny ei newid. Mae Plaid Cymru—The Party of Wales o blaid cynyddu'r cyllid yn ogystal â chefnogi'r angen am newid y strwythur. Dengys y ffeithiau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mai dim ond 0.53 y cant o holl wariant y Swyddfa Gymreig sydd wedi

The figure would then only be less than 1 per cent.

ei neilltuo i'r sector gwirfoddol. Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru o blaid cynnydd o ryw £10 miliwn. Ni fyddai'r ffigwr wedyn ond llai nag 1 y cant.

Standardising the usual funding period, for both direct and indirect funding, of three to five years will ensure stability and will facilitate long term planning by voluntary bodies. It will enable longer term planning and the development of longer term strategies. I believe that most speakers, but one, accept that as a fact. This is crucial for them to fulfil their work. It is important that the ambitious work that they are engaged in should continue. We should acknowledge the needs of those people who are more disadvantaged than most of us: those without a home, those who have been the victim of domestic abuse, those who have disabilities, those children who live in areas of deprivation.

Bydd safoni'r cyfnod cyllido arferol, ar gyfer cyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol, o dair i bum mlynedd yn sicrhau sefydlogrwydd a bydd yn hwyluso cynllunio tymor hir gan gyrff gwirfoddol. Bydd hyn yn golygu y gellir cynllunio dros dymor hwy a datblygu strategaethau tymor hwy. Credaf fod y rhan fwyaf o'r siaradwyr, ar wahân i un, yn derbyn hynny fel ffaith. Mae'n hollbwysig er mwyn iddynt gyflawni eu gwaith. Mae'n bwysig bod y gwaith uchelgeisiol y maent yn ymgymryd ag ef yn parhau. Dylem gydnabod anghenion y bobl hynny sydd â mwy o anfantais na'r rhan fwyaf ohonom: y rheini heb gartref, y rhai sydd wedi dioddef trais yn y cartref, y rhai ag anableddau, y plant hynny sydd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.

On amendment 1, there is a manual of guidance on making grants to the voluntary sector, which I understand the Assembly will continue to maintain, which provides for the clarity, transparency, objectivity, and responsibilities of those receiving funding. I reiterate that transparency is an essential ingredient of modern government, as is accountability. I am confident that the present mechanisms would ensure that the robust monitoring, auditing and evaluation of this funding were provided for. I see no merit, therefore, in supporting amendment 1. The voluntary sector already provides value for money but it needs more of it.

Ar welliant 1, mae yna lawlyfr arweiniad ar roi grantiau i'r sector gwirfoddol, y deallaf y bydd y Cynulliad yn dal i'w ddilyn, sydd yn darparu ar gyfer eglurder, tryloywder, gwrthrychedd a chyfrifoldebau y rheini sydd yn derbyn cyllid. Hoffwn ailadrodd bod tryloywder yn elfen anhepgor mewn llywodraeth fodern, ynghyd ag atebolrwydd. Yr wyf yn hyderus y byddai'r mecanweithiau presennol yn sicrhau y darperir trefniadau monitro, archwilio ac arfarnu llym ar gyfer y cyllid hwn. Ni welaf unrhyw les, felly, mewn cefnogi gwelliant 1. Mae'r sector gwirfoddol eisoes yn rhoi gwerth am arian, ond mae angen mwy ohono arno.

3:59 p.m.

Jenny Randerson: The voluntary sector fills a niche that the public sector cannot fill and the private sector would not want to fill. It is the famous third way. It is not, however, a cheap substitute for something better. We need to recognise that. It provides superb value for money because it relies so much on volunteers who give up their time freely but do a job that has economic worth. It is different from the public and private sectors and we must recognise that. If you ask volunteers to give their time and effort, you need to assure them that what they do is worthwhile and that it will have a lasting

Jenny Randerson: Mae'r sector gwirfoddol yn llenwi bwlch na all y sector cyhoeddus ei lenwi ac na fyddai'r sector preifat am ei lenwi. Dyma'r drydedd ffordd y bu cymaint o sôn amdani. Fodd bynnag, nid dewis amgen rhad yn lle rhywbeth gwell mohoni. Rhaid inni gydnabod hynny. Mae'n rhoi gwerth rhagorol am arian gan ei bod yn dibynnu cymaint ar wirfoddolwyr sydd yn rhoi yn hael o'u hamser ond sydd yn gwneud gwaith ag iddo werth economaidd. Mae'n wahanol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat a rhaid inni gydnabod hynny. Os gofynnwch i wirfoddolwyr roi eu hamser a'u hymdrech,

effect. To achieve that we must change the way in which the voluntary sector is funded to give more continuity and certainty and also to give more notice when funding is being wound down. Due to the way money is handed out, there is an impression that the voluntary sector gets the money leftover and the projects that other sectors will not touch.

mae angen ichi eu sicrhau bod yr hyn a wnânt yn werth chweil ac y caiff effaith hirbarhaol. Er mwyn cyflawni hynny rhaid inni newid y ffordd o gyllido'r sector gwirfoddol i roi mwy o barhad a sicrwydd a hefyd i roi mwy o rybudd cyn dirwyn cyllid i ben. Oherwydd y ffordd o rannu arian, rhoddir argraff bod y sector gwirfoddol yn cael yr arian sydd dros ben a'r prosiectau na wnaiff sectorau eraill eu cyffwrdd.

The Assembly has already made it easier for the voluntary sector to make its views known. The sector is unanimous in its view that the funding mechanism needs reform. Voluntary sector employees and volunteers spend far too much time assembling information for new bids. The funding round comes round too often. It is inefficient for these organisations to be perpetually chasing money. A three to five year cycle would be much more effective than a one to two year cycle. It would be much better to have funding withdrawn as an exception than to enforce re-bidding as a rule. Funding is often given for the wrong things. In my constituency there is an after school club called Funworks at Stacey Road Primary School in Adamsdown. Adamsdown is one of the few wards in Cardiff to get Objective 2 funding. The school received money to set up the club but after a year or so they were left high and dry with no further funding. It is now attempting to fundraise continually in an area where fundraising is difficult and where parents cannot afford to pay the full cost of childcare. Funworks provides vital childcare up until 6 p.m. in the evenings, Alun Cairns, so that parents can go out to work.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi ei gwneud yn haws i'r sector gwirfoddol gyfleu ei farn. Mae'r sector yn unfryd yn ei farn bod angen diwygio'r mecanwaith cyllido. Mae gweithwyr a gwirfoddolwyr y sector gwirfoddol yn treulio llawer gormod o amser yn casglu gwybodaeth ar gyfer ceisiadau newydd. Mae'r cylch cyllido yn dod heibio'n rhy aml. Mae'n aneffeithiol i'r mudiadau hyn orfod bod ar drywydd arian yn barhaus. Byddai cylch tair i bum mlynedd yn llawer mwy effeithiol na chylch blwyddyn i ddwy flynedd. Byddai'n llawer gwell tynnu cyllid yn ôl fel eithriad na bod pawb yn gorfod ailymgeisio fel mater o drefn. Rhoddir cyllid yn aml i'r pethau anghywir. Yn fy etholaeth i mae yna glwb ar ôl yr ysgol o'r enw Funworks yn Ysgol Gynradd Heol Stacey yn Adamsdown. Adamsdown yw un o'r wardiau prin yng Nghaerdydd i gael cyllid Amcan 2. Derbyniodd yr ysgol arian i sefydlu'r clwb ond ar ôl tua blwyddyn fe'u gadawyd ar y clwt heb gyllid pellach. Ar hyn o bryd mae'n ceisio codi arian yn barhaus mewn ardal lle mae'n anodd codi arian a lle na all rhieni fforddio talu cost lawn gofal plant. Mae Funworks yn darparu gofal plant hollbwysig tan 6 p.m. fin nos, Alun Cairns, er mwyn i rieni allu mynd allan i weithio.

Much of voluntary sector funding comes via local government. Its record varies dramatically. Councils in Wales have supported the voluntary sector to a varying degree. The lowest value provision was £4.63 per head a year. The highest value was £31.87 per head a year. These were the last figures available. When local government was reorganised, the amount of money that they gave to voluntary organisations stayed almost exactly the same at £17.5 million, but they spread around more organisations. There are now 3,000 organisations receiving local authority funds but they receive less than 1

Daw llawer o gyllid y sector gwirfoddol o lywodraeth leol. Mae ei record yn amrywio'n ddramatig. Mae cynghorau Cymru wedi cefnogi'r sector gwirfoddol i raddau amrywiol. Y ddarpariaeth isaf ei gwerth oedd £4.63 y pen y flwyddyn. Y gwerth uchaf oedd £31.87 y pen y flwyddyn. Dyma'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael. Pan ad-drefnwyd llywodraeth leol, safodd y swm a roddwyd i fudiadau gwirfoddol ar yr un ffigur yn union bron, sef £17.5 miliwn, ond bod yr arian wedi ei rannu rhwng mwy o gyrff. Erbyn hyn, mae dros 3,000 o fudiadau yn cael cyllid gan yr awdurdodau lleol ond

per cent of local authority money. We believe that a protocol is needed for local authorities to follow so that there is continuity of funding. Under the previous Government, there was a tendency to treat voluntary organisations like commercial companies. The result is project-based funding. I am pleased that Alun Michael referred to project-based funding and I was also pleased to hear his view on strategic funding. We are talking about more emphasis on core funding. To reach the end of a project and wind it down, thus losing and disbanding expertise, is wrong. I had a message via e-mail today from a voluntary organisation, SNAP, the Special Needs Advisory Project. It is an excellent and highly regarded organisation operating throughout Wales. Its main problem is that it wastes precious time, energy and resources because it must negotiate with 22 different local education authorities, 22 different social services departments, and five health authorities for its funding. It is funded by 36 different statutory authorities and must negotiate 36 times over.

maent yn derbyn llai nag 1 y cant o arian yr awdurdodau lleol. Credwn fod angen protocol i'w ddilyn gan awdurdodau lleol fel y ceir parhad yn y cyllido. Dan y Llywodraeth flaenorol, yr oedd tuedd i drin mudiadau gwirfoddol fel cwmnïau masnachol. Y canlyniad yw cyllido ar sail prosiectau. Yr wyf yn falch i Alun Michael gyfeirio at gyllido ar sail prosiectau ac yr oeddwn yn falch hefyd clywed ei farn am gyllido strategol. Yr ydym yn sôn am fwy o bwyslais ar gyllido craidd. Mae cyrraedd diwedd prosiect a'i ddirwyn i ben, gan golli a chwalu arbenigedd, yn beth drwg. Cefais neges e-bost heddiw gan gorff gwirfoddol, SNAP, y Prosiect Ymgynghorol ar Anghenion Arbennig. Mae'n gorff rhagorol ac uchel ei barch sydd yn gweithredu ledled Cymru. Ei brif broblem yw ei fod yn gwastraffu amser, egni ac adnoddau gwerthfawr am fod yn rhaid iddo drafod gyda 22 o awdurdodau addysg lleol gwahanol, 22 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol gwahanol, a phum awdurdod iechyd am ei gyllid. Fe'i cyllidir gan 36 awdurdod statudol gwahanol a rhaid iddo drafod 36 o weithiau.

This morning in the Pre-16 Education Committee, we discussed early years education and the vital partnership, which the Welsh Local Government Association welcomed, between local education authorities and the private and voluntary sectors, both of whom are involved in pre-school education. They talked about the need for certainty on long-term funding. In order to fulfil the statutory requirements you must have decent buildings and decent equipment. You cannot expect a play group provider to provide capital investment unless they have certainty of funding. Volunteers feature widely in the provision of pre school education.

Fore heddiw yn y Pwyllgor Addysg Cyn-16, trafodasom addysg y blynyddoedd cynnar a'r bartneriaeth holl bwysig, a groesawyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rhwng awdurdodau addysg lleol a'r sectorau preifat a gwirfoddol, sydd ill dau â rhan mewn addysg cyn oed ysgol. Siaradasant am yr angen am sicrwydd cyllido tymor hir. Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol mae'n rhaid ichi gael adeiladau digonol a chyfarpar digonol. Ni allwch ddisgwyl i ddarparwr grŵp chwarae fuddsoddi cyfalaf onid oes ganddynt sicrwydd cyllido. Mae gwirfoddolwyr yn nodwedd amlwg yn y ddarpariaeth addysg cyn oed ysgol.

My final example is the Citizens Advice Bureau in Cardiff, which has had a third of its funding cut in the last three years. The bureau is the local branch of a large-scale nationwide organisation yet every year haggling, negotiating and lobbying of councillors is required in order to ensure funding. The Citizens Advice Bureau is a superb example of the combination of voluntary effort and expertise. It provides an invaluable service, not just in Cardiff but throughout Wales and

Fy enghraifft olaf yw'r Ganolfan Gynghori yng Nghaerdydd, sydd wedi colli traean ei chyllid dros y tair blynedd ddiwethaf. Cangen leol o sefydliad cenedlaethol yw'r ganolfan ond, bob blwyddyn, mae'n rhaid bargeinio, trafod a lobïo cynghorwyr er mwyn sicrhau cyllid. Mae'r Ganolfan Gynghori yn enghraifft wych o'r cyfuniad o ymdrech wirfoddol ac arbenigedd. Mae'n darparu gwasanaeth amhrisiadwy, nid yn unig yng Nghaerdydd ond ledled Cymru a'r DU. Os

the UK. If such an organisation finds funding difficult then what about small, new, locally-based organisations?

yw cyllido yn fater anodd i gorff o'r fath yna beth am fudiadau bach, newydd, lleol eu natur?

Alun Cairns needs a lesson, not in the plush offices of the local bank, but in the real life of the community centres, the play groups, the day care centres for the elderly and the furniture recycling depots. Our motion will allow the Assembly to make a real difference by giving voluntary organisations the dignity of a decent funding regime. The sector wants an additional £10 million from us but if we were to give organisations that money they would spend it wisely and we would get far more than £10 million's worth from them.

Mae angen gwers ar Alun Cairns, nid yn swyddfeydd bras y banc lleol, ond ym mywyd go-iawn y canolfannau cymuned, y grwpiau chwarae, y canolfannau gofal dydd i'r henoed a'r canolfannau ailgylchu dodrefn. Bydd ein cynnig ni yn caniatáu i'r Cynulliad wneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy roi i fudiadau gwirfoddol yr urddas o fod â threfn gyllido deg. Mae'r sector am gael £10 miliwn ychwanegol gennym ond pe baem yn rhoi'r arian i'r mudiadau byddent yn ei wario'n ddoeth a byddem yn cael gwerth llawer mwy na £10 miliwn oddi wrthynt.

Carwyn Jones: This is a wide debate. I would like to concentrate on credit unions. Credit unions were mentioned earlier. We must realise the importance of such institutions in areas that are financial deserts. Banks have pulled out of some our older industrial communities. Only a few weeks ago Barclays Bank announced that it was to close its branch in Kenfig Hill, in my constituency. That is another nail in the coffin of the commercial life of that area.

Carwyn Jones: Mae hon yn ddadl eang. Hoffwn ganolbwyntio ar undebau credyd. Soniwyd am undebau credyd yn gynharach. Rhaid inni sylweddoli pwysigrwydd sefydliadau o'r fath mewn ardaloedd sydd yn anialdiroedd ariannol. Mae'r banciau wedi tynnu allan o rai o'n cymunedau diwydiannol hŷn. Ddim ond ychydig wythnosau'n ôl cyhoeddodd Banc Barclays ei fod am gau ei gangen ym Mynydd Cynffig, yn fy etholaeth i. Mae hynny'n hoelen arall yn arch bywyd masnachol yr ardal honno.

In other countries, credit unions have been successful. In Ireland, large and successful credit unions have taken the place of banks in areas where they have pulled out. Credit unions have financial importance in areas that would otherwise have no financial services and also in areas where without them the lone sharks would continue to prey on the most desperate in our society. An attack on the social economy, of which credit unions form a part, not only demeans those who give of their free time to ensure that people have services in those areas but denigrates the communities that they represent.

Mewn gwledydd eraill, mae undebau credyd wedi llwyddo. Yn Iwerddon, mae undebau credyd mawr a llwyddiannus wedi disodli'r banciau yn yr ardaloedd y bu iddynt dynnu allan ohonynt. Mae undebau credyd yn bwysig yn ariannol mewn ardaloedd a fyddai fel arall heb unrhyw wasanaethau ariannol a hefyd mewn ardaloedd lle, fel arall, y byddai'r siarcod benthyg yn dal i boenydio'r bobl fwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas. Mae ymosod ar yr economi cymdeithasol, y mae undebau credyd yn rhan ohono, nid yn unig yn bychanu'r rheini sydd yn rhoi o'u hamser rhydd i sicrhau bod yna wasanaethau i bobl yn yr ardaloedd hynny, mae hefyd yn bychanu'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

Mick Bates: It is a pleasure to stand here as someone who has worked with voluntary sectors and also makes his living from the private sector. This debate provides a voice for thousands of people who labour and long for leadership.

Mick Bates: Mae'n bleser cael sefyll yma fel rhywun sydd wedi gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol a hefyd wedi ennill bywoliaeth o'r sector preifat. Mae'r ddadl hon yn cynnig llais i'r miloedd o bobl sydd yn llafurio ac yn dyheu am arweiniad.

Karen Sinclair: Do you mean that you made your living from the private sector before the Assembly elections?

Karen Sinclair: Ydych chi'n dweud eich bod yn ennill eich bywoliaeth o'r sector preifat cyn etholiadau'r Cynulliad?

4:09 p.m.

Mick Bates: Yes. Thank you, Karen. Prior to the elections, I was a member of the private sector and breakfasted recently with the Confederation of British Industry. We have heard examples from this sector about their work and value to the economy. You must remember that 80 per cent of Welsh adults take part in what you termed a fringe activity. Let us be realistic. We are talking about a tremendous number of people who depend on what the Assembly has to offer. The examples that we have heard today exemplify what we are about: empowerment and active citizenship.

Mick Bates: Ydw. Diolch, Karen. Cyn yr etholiadau, yr oeddwn yn aelod o'r sector preifat a chefais frecwast yn ddiweddar gyda Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain. Yr ydym wedi clywed enghreifftiau o'r sector hwn am eu gwaith a'u gwerth yn yr economi. Rhaid ichi gofio bod 80 y cant o oedolion Cymru yn cymryd rhan yn yr hyn a alwoch chi yn weithgaredd ymylol. Gadewch inni fod yn realistig. Yr ydym yn siarad am nifer enfawr o bobl sydd yn dibynnu ar yr hyn sydd gan y Cynulliad i'w gynnig. Mae'r enghreifftiau a glywsom heddiw yn dangos beth yw ein hanfod: grymuso a dinasyddiaeth fyw.

Above all, in our motion we refer to all Committees. We are also talking about the voluntary partnership body. When we say that we wish to take these views through all Committees, we mean all. Therefore, the process is truly inclusive. Providing continuity is a major factor. I opened by saying that this is a great pleasure because, for years, I have laboured in many voluntary organisations who must stumble annually for funds. I was pleased to hear the First Secretary's kind words today. He readily supports the motion and I am pleased about that because there are so many people out there who must scramble annually and want to see continuity to funding. During the election campaign, there was a real buzz of excitement among voluntary organisations when I said that I hoped to be elected and, one day, stand to help propose a motion that will provide continuity of funding to voluntary bodies. Today, I am privileged to propose this motion.

Uwchlaw popeth, yn ein cynnig cyfeiriwn at bob Pwyllgor. Yr ydym hefyd yn sôn am y corff partneriaeth gwirfoddol. Pan ddywedwn ein bod am fynd â'r safbwyntiau hyn drwy bob Pwyllgor, yr ydym yn golygu pob un. Felly, mae'r broses yn wirioneddol gynhwysol. Mae rhoi parhad yn ffactor o bwys. Dechreuais drwy ddweud bod hyn yn bleser mawr oherwydd, am flynyddoedd, yr wyf wedi llafurio mewn llawer mudiad gwirfoddol sydd yn gorfod stryffaglu'n flynyddol am gyllid. Yr oeddwn yn falch o glywed geiriau caredig y Prif Ysgrifennydd heddiw. Mae'n barod iawn i gefnogi'r cynnig ac yr wyf yn falch o hynny am fod cynifer o bobl allan yn y maes sydd yn gorfod stryffaglu'n flynyddol ac sydd am weld parhad yn yr ariannu. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, yr oedd gwir ymdeimlad o gyffro ymysg y mudiadau gwirfoddol pan ddywedwn fy mod yn gobeithio cael fy ethol ac, un diwrnod, sefyll i helpu i gyflwyno cynnig a fydd yn rhoi parhad o ran ariannu i gyrff gwirfoddol. Mae'n fraint i mi, heddiw, gael cynnig y cynnig hwn.

Further to the need to sustain this funding, we must ensure consistency. As Jenny mentioned, we need a protocol of funding, and her suggestion of three years is fine. However, I would like to see the consultation process presenting the Committees'

O ran yr angen i gynnal yr ariannu, rhaid inni sicrhau cysondeb. Fel y soniodd Jenny, mae angen protocol ariannu arnom, ac mae ei hawgrym hi o dair blynedd yn gwbl dderbyniol. Fodd bynnag, hoffwn i weld y broses ymgynghori yn rhoi dyheadau'r

aspirations. After all, we need a balance in society—that great partnership between business, local government and the voluntary sector. I urge you to support this motion. It will bring consistency and continuity of funding. It will liberate the voluntary sector from that annual scramble for funds to do its good work.

Pwyllgorau gerbron. Wedi'r cwbl, mae angen cydbwysedd arnom mewn cymdeithas—y bartneriaeth fawr honno rhwng busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Anogaf chi i gefnogi'r cynnig hwn. Daw â chysondeb a pharhad o ran ariannu. Bydd yn rhyddhau'r sector gwirfoddol o'r crafangu blynyddol am gyllid i wneud ei waith da.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn awr ar welliant 1.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 1.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.

A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.

A vote was held by show of hands.
Motion adopted.

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru)
Minority Party Debate (Plaid Cymru)

Y Gwasanaeth Iechyd
The Health Service

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 standing in the name of Andrew Davies and amendments 2 and 3 standing in the name of David Melding.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis gwelliant 1 yn enw Andrew Davies a gwelliannau 2 a 3 yn enw David Melding.

David Lloyd: Cynigiaf fod

David Lloyd: I propose that

y Cynulliad hwn wedi ymrwymo i NHS yng Nghymru sydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gymuned. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cynulliad yn galw am:

1. Ehangu a chryfhau'r rhwydwaith Cymru gyfan o ysbytai cymunedol;

2. I wariant ar iechyd yng Nghymru barchu egwyddorion mynediad a gwasanaeth, a'r gwahanol anghenion yng Nghymru.

Yn ogystal, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod nad yw cau ysbytai, a oedd yn bolisi dros y ddau ddegawd diwethaf, a chanoli gwasanaethau'r NHS fwyfwy, sydd yn bolisi gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problem yr NHS yng Nghymru.

this Assembly is committed to an NHS in Wales with its focus firmly in the community. Furthermore this Assembly calls for:

1. Expansion and strengthening of the all Wales network of community hospitals;

2. Health spending in Wales to have proper regard to the principles of access and service, and the differing needs of Wales

Moreover, this Assembly recognises that hospital closures which was a policy pursued over the last two decades, and increasing centralisation of NHS services, a policy pursued by the current Government, are not a solution to the problems of the NHS in Wales.

Yr wyf yn ymhyfrydu yn y cyfle sydd

I delight in this opportunity to discuss the

gennym i drafod y gwasanaeth iechyd gwladol; pwnc nad ydym wedi trafod digon arno yn fy marn i. Mae'n rhaid imi ddatgan diddordeb fel meddyg teulu. Hefyd, cyn yr etholiad, fel pob meddyg teulu hunangyflogedig arall, yr oeddwn yn ŵr busnes, os daw hynny i mewn i ystadegau Alun Cairns.

national health service; a subject we have not discussed enough in my opinion. I must declare an interest as a general practitioner. Also, prior to the election, like every other self-employed GP, I was a businessman, if that comes into Alun Cairns's statistics.

Pwrpas y ddadl hon yw cyfrannu i'r strategaeth gorfforaethol ar ddyfodol y gwasanaeth iechyd. Buom yn trafod hyn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar. Llunnir y strategaeth trwy dderbyn cyfraniadau gan nifer o bobl a mudiadau, a bydd yn llywio dyfodol y gwasanaeth iechyd am y 25 mlynedd nesaf.

The purpose of this debate is to contribute to the corporate strategy on the future of the health service. We discussed this in the Health and Social Services Committee recently. The strategy will be formed by receiving contributions from a number of people and organisations, and it will steer the future of the health service for the next 25 years.

Fel plaid, defnyddiwn y ddadl hon fel ein cyfraniad ni i'r drafodaeth honno, ein gweledigaeth ynglŷn â'r ffordd ymlaen i'r gwasanaeth iechyd dros y chwarter canrif nesaf, oherwydd bydd y trafodaethau hyn yn dod i ben yr haf nesaf, yn ôl y strategaeth gorfforaethol ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

As a party, we use this debate as our input into that discussion. This is our vision of the way forward for the health service over the next quarter of a century, as these discussions will end next summer, according to the corporate strategy on the health service.

Ein pwyslais fel plaid, yn ôl dymuniad ein pobl, yw cael gwasanaeth iechyd yn gadarn yn y gymuned. Yr ydym yn pryderu ynghylch faint o arian sydd yn cael ei wario ar iechyd, ac am nifer y gwelyau. Galwn am sicrwydd na chollwn ragor o welyau o gofio bod nifer yr henoed yn mynd i gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n debyg, felly, y bydd angen mwy o welyau, nid llai.

Our emphasis as a party, according to the wishes of our people, is to have a health service firmly set within the community. We are concerned about how much money is spent on health and about bed numbers. We call for an assurance that we will not lose any more beds bearing in mind that the number of elderly people will increase in future years. It is likely, therefore, that we will need more beds, not fewer.

The NHS employs 65,000 people in Wales, which makes it one of Wales's largest employers, if not the largest. To get away from the idea that the NHS is some sort of sponge that soaks up money, some sort of charitable institution that comes along and cures people on a nice basis, we need to realise that it is a major employer. As a GP I still respond to my patients' views, although I do so now on a weekly basis rather than a daily one. They still feel passionately and strongly about their NHS and about having a direct input into this Assembly and seeing their views having a direct influence on the way forward. My patients in Swansea want to see a properly based NHS with its focus in the community. After all, 90 per cent of

Mae'r NHS yn cyflogi rhyw 65,000 o bobl yng Nghymru, felly mae'n un o gyflogwyr mwyaf Cymru, os nad y mwyaf. Er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth y syniad bod yr NHS yn rhyw fath o sbwng sydd yn sugno arian i mewn, ac yn rhyw fath o sefydliad elusennol sydd yn dod i'r fei ac yn iacháu pobl ar sail dymunol, rhaid inni sylweddoli ei fod yn gyflogwr pwysig. Fel meddyg teulu yr wyf yn dal i ymateb i sylwadau fy nghleifion, er mai yn wythnosol y gwnaf hynny bellach yn hytrach nag yn ddyddiol. Maent hwy'n dal i deimlo'n angerddol a chryf am eu gwasanaeth iechyd gwladol ac am gael mewnbwn uniongyrchol i'r Cynulliad hwn a gweld bod eu sylwadau'n cael dylanwad uniongyrchol ar y ffordd ymlaen. Mae ar fy

patient contacts are now in the community, and therefore primary-care led in a real sense.

nghleifion yn Abertawe eisiau gweld NHS gyda sylfaen iawn a chyda'i ffocws yn y gymuned. Wedi'r cyfan, yn y gymuned y gwneir 90 y cant o gysylltu â chleifion erbyn hyn, ac felly gofal sylfaenol sydd wrth wraidd y cysylltu hwn mewn ystyr go-iawn.

The existing NHS at a UK level is based on a network of district general hospitals, which is fine for most of the UK. In Wales, however, we have an incomplete network. For example, Powys does not have a single district general hospital. As a party we feel that our visionary national health service for the next 25 years should have its basis in the community. We already have a network of community hospitals and we need to fight to retain and expand their role. Having the mindset that your national health service should be based on a network of community hospitals allows you to develop them. They are sidelined at present into Cinderella-like roles in certain circumstances.

Mae'r NHS presennol ar lefel y DU yn seiliedig ar rwydwaith o ysbytai cyffredinol rhanbarthol, sydd yn iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r DU. Yng Nghymru, fodd bynnag, rhwydwaith anghyflawn sydd gennym. Er enghraifft, nid oes gan Bowys un ysbyty cyffredinol rhanbarthol. Fel plaid teimlwn y dylai'n gwasanaeth iechyd gwladol gweledigaethol am y 25 mlynedd nesaf fod â'i sail yn y gymuned. Y mae gennym eisoes rwydwaith o ysbytai cymuned ac mae angen inni frwydro i gadw ac ehangu eu rôl. Os penderfynwch y dylai'ch gwasanaeth iechyd gwladol fod yn seiliedig ar rwydwaith o ysbytai cymunedol mae hynny'n caniatáu ichi eu datblygu. Ar hyn o bryd maent wedi'u gwthio o'r neilltu i rôl debyg i Sinderela mewn rhai amgylchiadau.

Our community hospitals should be elevated to centre stage, with an expanded role. This should be coupled with tele-medicine, bearing in mind that Wales is one of the forerunners in fibre-optics. We can develop this in a way that does not lose any required specialisation—certain people have unusual things wrong with them—by linking the community focus with specialist centres far away, using tele-medicine. We believe as a party in using the network of existing hospitals and basing the NHS on the existing community focus.

Dylid dyrchafu'n hysbytai cymuned i ganol y llwyfan, gyda rôl ehangach. Dylid cyplu hyn â thelefeddygaeth, o gofio fod Cymru ar flaen y gad ym maes opteg ffibrau. Gallwn ddatblygu hyn mewn ffordd sydd ddim yn colli unrhyw arbenigedd angenrheidiol—bydd clefydau anarferol ar rai pobl—drwy gysylltu'r ffocws cymunedol â chanolfannau arbenigol ymhell i ffwrdd, gan ddefnyddio telefeddygaeth. Credwn fel plaid mewn defnyddio'r rhwydwaith o ysbytai presennol a seilio'r NHS ar y ffocws cymunedol sydd yn bodoli.

Faint o arian yr ydym yn ei wario ar iechyd? Fel plaid yr ydym bob amser yn meddwl yn rhyngwladol. Mae Prydain Fawr yn gwario 6.9 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth ar iechyd o gymharu â 9.7 y cant yn Ffrainc, 10.5 y cant yn yr Almaen a thua 14 y cant yn yr Unol Daleithiau. O ran cymariaethau rhyngwladol, mae Prydain yn gwario llawer llai ar iechyd na gwledydd gorllewinol cyfatebol. Byddech yn tybio mai'r rheswm fod ein gwariant yn llai yw ein bod yn iach iawn fel gwlad. Fodd bynnag, mae ein hystadegau iechyd ymysg y gwaethaf yn Ewrop.

How much money do we spend on health? As a party we always think internationally. Great Britain spends 6.9 per cent of its gross domestic product on health compared with 9.7 per cent in France, 10.5 per cent in Germany and about 14 per cent in the United States. As regards international comparisons, Britain spends much less on health than other comparable western countries. You would think that the reason why our expenditure is lower is that we are very healthy as a country. However, our health statistics are among the worst in Europe.

4:19 p.m.

Fel gweithwyr yn y gwasaneth iechyd yr ydym yn bryderus am y sefyllfa hon. Dengys yr argyfyngau gwelyau nad ydym yn gwario digon ar iechyd. Pan fyddaf eisiau darganfod gwely mewn ysbyty i glaf sydd yn wirioneddol sâl bydd trafodaeth hir ynglyn â lleoliad y gwely. Yn bur aml, bydd y gwely sydd ar gael ymhell i ffwrdd o Abertawe. Mae’r ddarpariaeth welyau yn annigonol.

As workers in the health service we are concerned about this situation. The beds crises show that we do not spend enough on health. When I want to find a hospital bed for a genuinely ill patient there is a long discussion about the location of the bed. Quite often, the available bed will be far away from Swansesa. The provision of beds is insufficient.

Y diffyg gwariant ar iechyd sydd yn peri bod gennym restrau aros. Nid oes gennym ddigon o lawfeddygon nac amser i gyflawni llawdriniaethau. Mae nifer o’n harbenigwyr yn treulio eu hamser yn y sector preifat. Oherwydd y diffyg adnoddau hyn y mae gennym restrau aros. Mae cwynion parhaus am brinder adnoddau, nyrsys, meddygon, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Mae’r prinder hwn yn deillio o’n gwariant annigonol ar iechyd.

It is the lack of expenditure on health that causes us to have waiting lists. We do not have enough surgeons or time to perform surgery. Many of our specialists spend their time in the private sector. It is because of this lack of resources that we have waiting lists. There are constant complaints about the lack of resources, nurses, doctors, physiotherapists and occupational therapists. This shortage arises from our insufficient expenditure on health.

Guidelines are now issued on the treatment of various illnesses. If we followed previous Welsh Office guidelines and were obsessive about treating high cholesterol, as we should be as doctors, we would bankrupt the health budget simply by using cholesterol-lowering drugs. Doctors cannot afford to follow current guidelines and treat everybody, therefore we have to target those most at risk. There is simply not enough money invested in health.

Cyhoeddir canllawiau bellach ar sut i drin amryfal glefydau. Pe baem yn dilyn canllawiau blaenorol y Swyddfa Gymreig ac yn gwneud obsesiwn ynghylch trin colestrol uchel, fel y dylem ni feddygon, byddem yn dihysbyddu’r gyllideb iechyd dim ond drwy ddefnyddio cyffuriau gostwng colestrol. Ni all meddygon fforddio dilyn canllawiau’r dydd a thrin pawb, felly mae’n rhaid inni dargedu’r rhai sydd yn y perygl mwyaf. Yn syml, nid oes digon o arian yn cael ei fuddsoddi mewn iechyd.

The same is true about high blood pressure. There are now guidelines on the desired exact treatment levels of blood pressure. If we strictly followed the guidelines with everyone, we could not afford to treat anyone who has any other condition. Therefore, we must target the groups most at risk and not isolated cases of high blood pressure.

Mae’r un peth yn wir am bwysedd gwaed uchel. Ceir canllawiau bellach ynghylch yr union lefelau triniaeth sydd yn ddymunol ar gyfer pwysedd gwaed. Pe baem yn dilyn y canllawiau gyda phawb, ni allem fforddio trin neb sydd ag unrhyw gyflwr arall. Felly, mae’n rhaid inni dargedu’r grwpiau sydd yn y perygl mwyaf ac nid achosion unigol o bwysedd gwaed uchel.

Whenever I say that we should increase health expenditure, people tell me that it is a bottomless pit. My response is that it is a measurable pit of unmet need that is forcing doctors to rationalise and prioritise key groups that are at risk. If we dared to follow the guidelines we would not have any money left to do anything else. Do not tell me that

Pryd bynnag y dywedaf y dylem gynyddu gwariant ar iechyd, dywedir wrthyf mai pwll diwaelod ydyw. Fy ymateb i yw mai pwll mesuradwy o angen heb ei ddiwallu ydyw, sydd yn gorfodi meddygon i resymoli a blaenoriaethu grwpiau allweddol sydd mewn perygl. Pe baem yn meiddio dilyn y canllawiau, ni fyddai gennym unrhyw arian

this is a bottomless pit. As there is insufficient expenditure on health, doctors cannot spend on what we need to spend.

ar ôl i wneud dim arall. Peidiwch â dweud wrthyf fi mai pwll diwaelod yw hwn. Am fod gwariant annigonol ar iechyd, nid yw meddygon yn gallu gwario'r hyn y mae angen inni ei wario.

Health statistics in Wales are even worse than in England. We have 18 per cent more heart disease and 10 per cent more cancers. Cancer treatment results in the UK are lower than European standards as our expenditure on the treatment is less. We spend more money on laxatives than on chemotherapy in the UK.

Mae ystadegau iechyd yng Nghymru yn waeth hyd yn oed nag yn Lloegr. Mae gennym 18 y cant yn fwy o glefyd y galon a 10 y cant yn fwy o ganser. Mae canlyniadau triniaeth canser yn y DU yn is na safonau Ewropeaidd am fod ein gwariant ar y driniaeth yn llai. Gwariwn fwy o arian ar garthyddion nag ar gemotherapi yn y DU.

Health expenditure is not a bottomless pit. It is a pit of measurable need that we choose to ignore. Within the present budget constraints—

Nid pwll diwaelod yw gwariant ar iechyd. Pwll o angen mesuradwy ydyw yr ydym ni'n dewis ei anwybyddu. O fewn y cyfyngiadau cyllidebol presennol—

Cynog Dafis: A yw Dai Lloyd yn ymwybodol o sefyllfa'r uned arennau yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd? Mae perygl y gellid cau'r uned honno o ganlyniad i arolwg gan y Llywodraeth ar ddyfodol yr uned trawsblannu arennau. Mae lleihad yn nifer y lleoedd o fewn yr uned honno ar hyn o bryd. Byddai colli uned fel hon yn annerbyniol. A yw Dai Lloyd yn credu bod dyletswydd ar y Cynulliad i ddiogelu dyfodol yr uned? Onid yw'r hyn sydd yn digwydd i'r uned yn enghraifft o'r diffyg adnoddau sydd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd?

Cynog Dafis: Is Dai Lloyd aware of the situation of the renal unit at the University Hospital in Cardiff? There is a danger that that unit could be closed as a result of a Government review on the future of the kidney transplant unit. There is presently a reduction in the capacity of that unit. Losing such a unit would be unacceptable. Does Dai Lloyd believe that the Assembly has a duty to safeguard the future of the unit? Is what is happening to the unit not an example of the lack of resources in the health service in Wales at the moment?

David Lloyd: Cytunaf fod argyfwng mewn adrannau megis yr uned arennau ac uned llawfeddygaeth y galon. Mae prinder llawfeddygon. Hefyd, mae llawfeddygon yn gadael oherwydd diffyg adnoddau crai yn eu hunedau a'r ffaith fod eu hunedau o dan fygythiad ariannol. Rhaid inni edrych ar agweddau clinigol yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr ydym yn treulio cryn dipyn o amser yno yn trafod nifer o ddogfennau o bwys ond nid ydym yn treulio hanner digon o amser yn delio â materion clinigol fel hyn sydd yn bryder i bobl ym mhob man—yng Ngheredigion ac yn Abertawe hefyd.

David Lloyd: I agree that there is a crisis in departments such as the renal unit and the heart surgery unit. There is a shortage of surgeons. Surgeons also leave because of a lack of raw resources in their units and the fact that their units are under financial threat. We must look at clinical aspects in the Health and Social Services Committee. We spend quite a bit of time there discussing a number of important documents but we do not spend nearly enough time dealing with clinical issues such as these, which people everywhere are anxious about—in Ceredigion and in Swansea also.

Yn ogystal â newid ein cyllideb, byddem ni fel plaid hefyd yn gwario'r gyllideb bresennol yn wahanol.

In addition to changing our budget, we as a party would also spend the current budget differently.

There is an overemphasis on administration at present, with three tiers of administrations between health authority trusts and local health groups. We would wish to streamline that and free up moneys for direct patient care. In particular, we do not spend enough on or give enough attention to health promotion. For example, we must be extremely severe on smoking. Allowing advertising for an extra year will not do. Examples of what the health service can give in terms of general health promotion are free dental checks, and, more importantly, free eye tests. Giving free eye tests only to 40 year olds who have a family history of glaucoma is not enough because irreversible glaucomatous damage can happen before the age of 40. After the age of 40 you only detect the irreversible changes. In addition, eye tests detect other diseases like high blood pressure and diabetes. It is a general health promotion venture in which we need to invest in order to improve people's long-term health.

Mae gorbwyslais ar weinyddu ar hyn o bryd, gyda thair haen o weinyddwyr rhwng ymddiriedolaethau awdurdod iechyd a grwpiau iechyd lleol. Hoffem symleiddio hynny a rhyddhau arian i ofal uniongyrchol i gleifion. Yn enwedig, ni wariwn ddigon ar hybu iechyd na rhoi digon o sylw iddo. Er enghraifft, rhaid inni fod yn llym iawn ar ysmygu. Nid yw'n gwneud y tro caniatáu hysbysebu am flwyddyn arall. Enghreifftiau o'r hyn y gall y gwasanaeth iechyd ei roi yn nhermau hybu iechyd yn gyffredinol yw profion deintyddol di-dâl ac, yn bwysicach, brofion llygaid di-dâl. Nid yw'n ddigon rhoi profion llygaid di-dâl ddim ond i bobl 40 oed sydd â hanes o glawcoma yn y teulu, oherwydd gall niwed glawcomataidd di-droi'n-ôl ddigwydd cyn 40 mlwydd oed. Ar ôl 40 oed, dim ond canfod y newidiadau di-droi'n-ôl a wneir. Yn ogystal, bydd profion llygaid yn canfod clefydau eraill fel pwysedd gwaed uchel a chlefyd siwgr. Mae'n fenter hybu iechyd cyffredinol lle mae angen inni fuddsoddi er mwyn gwella iechyd pobl yn y tymor hir.

My next point relates to hospital beds. There were 25,000 beds in Wales in the 1970s and there are 15,000 now. There has been a decline in the last two decades. There appears to be more beds pro rata in Wales than in England and people have come to the simplistic conclusion that we have too many beds in Wales and should get rid of the excess. They ignore other international comparisons. Our friends in Scotland and Northern Ireland have more hospital beds than we have. In Wales, we treat more cases per thousand head of population than in England.

Gwelyau ysbytai yw fy mhwynt nesaf. Yr oedd 25,000 o welyau yng Nghymru yn y 1970au ac mae 15,000 yn awr. Bu dirywiad yn yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'n ymddangos fod mwy o welyau *pro rata* yng Nghymru nag yn Lloegr ac mae pobl wedi dod i'r casgliad simplistig fod gennym ormod o welyau yng Nghymru ac y dylem gael gwared â'r gormodedd. Anwybyddant y cymariaethau rhyngwladol eraill. Mae gan ein cyfeillion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon fwy o welyau ysbytai nag sydd gennym ni. Yng Nghymru, triniwn fwy o achosion am bob mil o'r boblogaeth nag a wneir yn Lloegr.

Jenny Randerson: I was going to add earlier in relation to Cynog's point that the reason cited by the specialist in renal treatment for leaving Wales was the reduction in the number of beds from 18 to 12 in the treatment unit. That is a sign of poor facilities.

Jenny Randerson: Yr oeddwn yn mynd i ychwanegu yn gynharach yng nghyswllt pwynt Cynog mai'r rheswm y rhoddodd yr arbenigwr mewn triniaeth yr arennau dros adael Cymru oedd y lleihad yn y nifer o welyau o 18 i 12 yn yr uned driniaeth. Arwydd o gyfleusterau gwael yw hynny.

David Lloyd: That helps the general thrust of my argument. I was aware of the fact that there is a general pressure on resources. You need to take a long-term view of the fact that bed numbers are going down as the number

David Lloyd: Mae hynny'n helpu pwyslais cyffredinol fy nadl. Yr oeddwn yn ymwybodol o'r ffaith fod pwysau cyffredinol ar adnoddau. Mae angen ichi gymryd golwg tymor hir ar y ffaith fod niferoedd gwelyau

of elderly people rises. One in four people over the age of 84 are likely to suffer from Alzheimer's disease and will therefore need a lot of care. We are talking about community influence, and my involvement with the Alzheimer's Disease Society is about ensuring proper care in the community. We are talking about a proper primary-care led NHS and most care should happen in people's own district. People feel happier with the sameness of it all. We are talking about beds for respite care in local community hospitals. That is why we need to keep them, not lose them nor feel that they are under threat. We need to develop and enhance the provision in our community hospitals, not just concentrate on beds.

yn gostwng wrth i nifer y bobl oedrannus godi. Mae un person mewn pedwar dros 84 oed yn debygol o ddioddef clefyd Alzheimer ac o fod angen llawer o ofal felly. Yr ydym yn sôn am ddylanwad cymunedol, a sicrhau gofal iawn yn y gymuned yw byrdwn fy ymwneud i â Chymdeithas Clefyd Alzheimer. Yr ydym yn sôn am NHS yn cael ei arwain yn bennaf gan ofal sylfaenol priodol, a dylai'r rhan fwyaf o ofal ddigwydd yn ardal leol pobl. Bydd pobl yn teimlo'n hapusach mewn lleoliad cyfarwydd. Yr ydym yn sôn am welyau ar gyfer gofal seibiant mewn ysbytai cymunedol lleol. Dyna pam y mae angen inni eu cadw, nid eu colli na theimlo eu bod dan fygythiad. Mae angen inni ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn ein hysbytai cymunedol, nid canolbwyntio ar welyau yn unig.

4:29 p.m.

The idea of rehabilitation needs to be considered so that we can move away from convalescence alone. We need an active and positive outlook on elderly people. It should not be a matter of telling the elderly people to sit in a circle for the rest of their lives, but actively managing them. Proper exercise programmes can restrict the number of falls that the elderly are likely to suffer. We need to change our way of thinking and find imaginative ways of using the available beds. I will not discuss all the determinants of poor health today but poor housing is one reason why we need to keep our beds. Poor housing means more ill-health and less provision for hospital at home schemes. These schemes depend on a reasonable standard of housing so that people can be treated at home with the help of extra facilities from hospitals and community care services. Poor housing deprives us of that possibility and means that such care has to be carried out in hospital surroundings.

Mae angen ystyried y syniad o adfer er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth wellhad yn unig. Mae angen edrych ar bobl oedrannus mewn ffordd weithredol a chadarnhaol. Ni ddylai fod yn fater o ddweud wrth yr hen bobl am eistedd mewn cylch am weddill eu bywydau, ond eu rheoli'n weithredol. Gall rhaglenni ymarfer corff priodol leihau'r nifer o gwympiadau y mae'r henoed yn debygol o'u dioddef. Mae angen inni newid ein ffordd o feddwl a chanfod ffyrdd dychmygus o ddefnyddio'r gwelyau sydd ar gael. Ni wnaf drafod yr holl ffactorau sydd yn achosi iechyd gwael heddiw, ond mae tai gwael yn un rheswm pam y mae angen inni gadw'n gwelyau. Mae tai gwael yn golygu mwy o iechyd gwael a llai o ddarpariaeth ar gyfer cynlluniau ysbyty yn y cartref. Mae'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar safon resymol o dai fel y gall pobl gael eu trin gartref gyda chymorth cyfleusterau ychwanegol o ysbytai a gwasanaethau gofal cymunedol. Mae tai gwael yn dwyn y posibilrwydd hwnnw oddi wrthym ac yn golygu fod yn rhaid darparu gofal o'r fath mewn ysbytai.

We need to start, or hopefully continue, a debate about a community focus to our national health service rather than a tendency to centralise. We have huge centres of excellence with all the latest technology but they are far away in distant cities. The August 1999 edition of the *NHS Corporate*

Mae angen inni gychwyn neu, gobeithio, barhau â dadl ynghylch ffocws cymunedol i'n gwasanaeth iechyd gwladol yn hytrach na thuedd i ganoli. Mae gennym ganolfannau ardderchowgrwydd anferth gyda'r dechnoleg ddiweddaraf i gyd, ond maent ymhell i ffwrdd mewn dinasoedd pell. Dyma a

Strategy News stated that,

ddywedodd rhifyn Awst 1999 o'r *NHS Corporate Strategy News*,

'There is a growing concern that the current model of hospital provision in Wales is unsustainable'.

Who wrote that, and on what evidence is the statement based? I hope that I have countered part of that view by saying that we have a greater level of need. We have more beds and spend more on health in Wales because we have more illness. We should not be embarrassed to admit that we spend more on health in Wales than is spent in England because we need to do so. Our higher rates of heart disease and cancer forces us to do that. The current level of bed provision is not unsustainable. However, other things on which we spend our money are unsustainable, such as private finance initiative. However, others can doubtless make that argument.

Pwy ysgrifennodd hynny, ac ar ba dystiolaeth y mae'r datganiad wedi'i seilio? Gobeithio fy mod i wedi gwrth-ddweud rhan o'r farn honno drwy ddweud fod gennym lefel uwch o angen. Mae gennym fwy o welyau ac yr ydym yn gwario mwy ar iechyd yng Nghymru oherwydd fod gennym fwy o salwch. Ni ddylem deimlo embaras wrth gyfaddef ein bod yn gwario mwy ar iechyd yng Nghymru nag a wneir yn Lloegr oherwydd bod angen inni wneud hynny. Mae ein cyfraddau uwch o glefyd y galon a chanser yn ein gorfodi i wneud hynny. Nid yw'r lefel gyfredol o ddarpariaeth gwelyau yn anghynaliadwy. Fodd bynnag, y mae pethau eraill y gwariwn ein harian arnynt yn anghynaliadwy, fel mentrau cyllid preifat. Fodd bynnag, mae'n siŵr y gall eraill ddadlau hynny.

This debate is also about securing a distinctive health service agenda for Wales rather than a London agenda that we rubber-stamp in our Health and Social Services Committee. That was seen with the Food Standards Agency, the National Institute for Clinical Excellence and the Commission for Health Improvement. It was deemed that the scientific knowledge in Wales was not vast enough and that we would have to have regulatory authorities for England and Wales. There is no basis for that opinion. However, it was announced last week that England would have a cancer tsar. What about Wales? Hearing about nurse consultants and a new dentistry system in England leads us to rush similar announcements in Wales. The Assembly has responsibility for the NHS in Wales, therefore will we plough our own furrow? We have different needs and worse health statistics. People in Wales expect us to make a difference because they voted for a different way forward and a different solution. They did not vote for a rubber-stamping of London principles.

Dadl yw hon hefyd ynghylch sicrhau agenda neilltuol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn hytrach nag agenda o Lundain a gaiff stamp rwber yn ein Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwelwyd hynny gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Comisiwn Gwella Iechyd. Barnwyd nad oedd y wybodaeth wyddonol yng Nghymru'n ddigon eang ac y byddai'n rhaid inni gael awdurdodau rheoleiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr. Nid oes sail i'r farn honno. Fodd bynnag, cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf y byddai Lloegr yn cael tsar canser. Beth am Gymru? Mae clywed am ymgynghorwyr nyrsys a system ddeintyddol newydd yn Lloegr yn ein harwain i ruthro cyhoeddiadau tebyg yng Nghymru. Y Cynulliad sydd yn gyfrifol am yr NHS yng Nghymru, felly a wnawn ni dorri'n cwys ein hunain? Mae gennym anghenion gwahanol ac ystadegau iechyd gwaeth. Mae pobl Cymru yn disgwyl inni wneud gwahaniaeth oherwydd gwnaethant bleidleisio dros ffordd wahanol ymlaen ac ateb gwahanol. Nid pleidleisio dros roi stamp rwber ar egwyddorion Llundain a wnaethant.

We are interested in maintaining a

Mae gennym ddiddordeb mewn cynnal

community focus because that is where 90 per cent of patient contact occurs. Why move people away from their communities on the basis of dogma?

ffocws cymunedol gan mai dyna lle y mae 90 y cant o'n cyswllt â chleifion yn digwydd. Pam y dylid symud pobl o'u cymunedau ar sail dogma?

Pam y dylid symud pobl o'u cynefin? Rhaid inni ddatblygu agenda sydd yn gyfangwbl Gymreig. Dyna a ddisgwylir gan bobl Cymru ac y gelwir amdano gan ein hystadegau iechyd. Nid yw parhau i dderbyn syniadau Llundain yn ddigon da. O wneud hynny ar hyd y blynyddoedd gwelsom yr ystadegau iechyd gwaethaf fel gwlad fach yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Canlyniad ein lleoliad ar yr ymylon yw'r ystadegau hynny. Mae'n bryd inni gymryd yr awenau, dewis ffordd ymlaen, dewis agenda Gymreig a dewis trin ein pobl yn eu cymuned.

Why move people away from their usual environment? We must develop a completely Welsh agenda. That is what the people of Wales expect and what is demanded by our health statistics. Continuing to accept ideas from London is not good enough. In doing that over the years we have seen the worst health statistics as a small country within the United Kingdom. Those statistics are a result of our peripheral location. It is time for us to take the lead, to choose a way forward, to choose a Welsh agenda and to choose to treat our people in their community.

David Melding: I propose amendment 2. After point 2, insert:

David Melding: Cynigiaf welliant 2. Ar ôl pwynt 2, ychwaneger:

3. The Cabinet to act on the Health and Social Services Committee's advice to increase expenditure on the NHS over and above the level outlined in the Government's Expenditure Plans for 2000-01; and

3. Bod y Cabinet yn dilyn cyngor y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu gwariant ar yr NHS yn ychwanegol at y lefel a amlinellir yng Nghynlluniau Gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2000-01; a

4. Urgent action by the Cabinet to tackle the NHS financial crisis as described in the NHS stocktake report of July 1999.

4. I'r Cabinet weithredu ar fyrder i ddatrys argyfwng ariannol yr NHS fel y'i disgrifir yn adroddiad cloriannu'r NHS a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999.

I also propose amendment 3. After 'Moreover, this Assembly recognises that' delete the remainder of the motion and insert:

Yr wyf hefyd yn cynnig gwelliant 3. Ar ôl 'Yn ogystal, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod', dileer gweddill y cynnig a rhoi yn ei le:

the increasing centralisation of NHS services, a policy pursued by the current Government, is not a solution to the problems of the NHS in Wales.

nad yw'r duedd gynyddol i ganoli gwasanaethau'r NHS, sydd yn bolisi gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problemau'r NHS yng Nghymru.

There is much that we welcome in Plaid Cymru's motion. It does, however, refer to a hospital closure programme under the previous Conservative Government that we find unacceptable and inaccurate. Hence my first amendment. The second amendment, points three and four, are in addition to points one and two in the substantive motion, may find a welcome across the Assembly. I hope they will.

Mae llawer i'w groesawu yng nghynnig Plaid Cymru. Y mae, fodd bynnag, yn cyfeirio at raglen cau ysbytai dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol mewn modd sydd yn annerbyniol ac yn anghywir yn ein golwg ni. Dyna esbonio fy ngwelliant cyntaf. Mae'r ail welliant, pwyntiau tri a phedwar, yn ychwanegol at bwyntiau un a dau yn y cynnig gwreiddiol ac efallai y'i croesewir ar draws y Cynulliad. Gobeithio hynny.

The current centralisation of services is

Gwelir y duedd gyfredol i ganoli

correctly seen as a threat to the district general hospital network in Wales, and Dai has referred to this. It is a concern in communities across Wales, a concern that we share. Fears have been raised in a series of ways: in the national health service stocktake report, in the remarks of a leading Labour Party member, a former minister responsible for the health service. These do nothing to reassure people about the hospital network in Wales. Reference has also been made to the corporate strategy. All these point to the possibility of a comprehensive hospital closure programme. That would be the other half of the Government's cuts to the capital programme—not building hospitals, and possibly not keeping the current stock.

gwasanaethau fel bygythiad i'r rhwydwaith ysbytai cyffredinol rhanbarth yng Nghymru, ac mae Dai wedi cyfeirio at hyn. Mae'n bryder mewn cymunedau ledled Cymru, ac yn bryder a rannwn ni. Codwyd ofnau mewn sawl ffordd: yn adroddiad cloriannu'r gwasanaeth iechyd gwladol, yn sylwadau aelod blaenllaw o'r Blaid Lafur, cyn weinidog â chyfrifoldeb am y gwasanaeth iechyd. Ni wna'r rhain ddim i dawelu ofnau pobl am y rhwydwaith ysbytai yng Nghymru. Cyfeiriwyd hefyd at y strategaeth gorfforaethol. Mae hyn oll yn awgrymu posibilrwydd rhaglen gynhwysfawr o gau ysbytai. Dyna fyddai hanner arall toriadau'r Llywodraeth yn y rhaglen gyfalaf—peidio ag adeiladu ysbytai, ac o bosib peidio â chadw'r stoc bresennol.

The Conservative Government undertook a record hospital building programme. Between 1979 and 1997 more hospitals were built in Wales than ever before in the history of the NHS. We are very proud of that record. What happened in 1997 when the present administration came to power at Westminster and succeeded here in the Assembly in recent months in the devolved administration? They have earmarked the capital programme for the biggest cut of all, down from an average of £100 million under the Conservatives to about £8 million in two years' time. To reduce to practically nothing the amount that we spend on hospital building is an incredible turnaround.

Ymgymerodd y Llywodraeth Geidwadol â rhaglen adeiladu ysbytai nas gwelwyd erioed ei bath. Rhwng 1979 a 1997 codwyd mwy o ysbytai yng Nghymru nag erioed yn hanes yr NHS. Yr ydym yn falch iawn o'r record hwnnw. Beth ddigwyddodd yn 1997 pan ddaeth y weinyddiaeth bresennol i rym yn San Steffan a llwyddo yma wedyn yn y Cynulliad yn ddiweddar yn y weinyddiaeth ddatganoledig? Maent wedi clustnodi rhaglen gyfalaf ar gyfer y toriad mwyaf erioed, i lawr o gyfartaledd o £100 miliwn dan y Ceidwadwyr i ryw £8 miliwn ymhen dwy flynedd. Mae lleihau'r swm a wariwn ar adeiladu ysbytai i'r nesaf peth i ddim yn dro pedol anhygoel.

I asked the Library to prepare a list of the new hospitals opened under the last Conservative Government. We were in office for 18 years, so I do not expect Labour to have matched our achievements in two and a half years. However, it indicates in a very physical way the work that was achieved. There is a whole page of new hospitals opened by the last Conservative Government due to the record resources that we allocated. I requested a list of hospitals opened since 1997. I was provided with a blank sheet. Not one single scheme has been opened under the present Labour administration. That is proof positive of the state that we are in as far as the capital programme is concerned. Already key staff have read this message and are starting to leave the NHS in Wales. I am not saying that they are deserting in hordes, but a

Gofynnais i'r Llyfrgell baratoi rhestr o'r ysbytai newydd a agorwyd dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Yr oeddem mewn grym am 18 mlynedd, felly nid wyf yn disgwyl i Lafur fod wedi cyflawni camp debyg mewn dwy flynedd a hanner. Fodd bynnag, y mae'n dangos mewn modd corfforol iawn y gwaith a gyflawnwyd. Ceir tudalen gyfan o ysbytai newydd a agorwyd gan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf oherwydd yr adnoddau mwy nag erioed a ddyrannwyd gennym. Gofynnais am restr o ysbytai a agorwyd ers 1997. Cefais ddalen wag. Nid agorwyd un cynllun dan y weinyddiaeth Lafur bresennol. Dyna brawf cadarnhaol o'r cyflwr yr ydym ynddo o safbwynt y rhaglen gyfalaf. Eisoes mae staff allweddol wedi darllen y neges hon ac yn dechrau gadael yr NHS yng Nghymru. Nid

few key staff have already left. There is a warning here.

wyf yn dweud eu bod yn mynd mewn lluoedd, ond y mae ychydig o staff allweddol wedi gadael yn barod. Mae rhybudd yma.

Last month I was fortunate to travel to Glan Clwyd Hospital to see the new cancer unit that is being built. It is due to be opened in the middle of next year. It has state-of-the-art technology, having been given funds under the previous Conservative Government. I asked the director whether there had been any problems recruiting staff, because the best staff possible are needed for such an innovative project. She told me that there had been no problems and that they had been flooded with applications. This was because the service was considered to be such a good one and because the innovation that it would provide was at the cutting edge. That is what you get with modern buildings and new units. If you put the money into a capital programme, you retain staff.

Y mis diwethaf yr oeddwn yn ffodus i deithio i Ysbyty Glan Clwyd i weld yr uned ganser newydd sydd yn cael ei hadeiladu. Disgwylir ei hagor yng nghanol y flwyddyn nesaf. Mae'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf, diolch i arian a ddarparwyd gan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Gofynnais i'r cyfarwyddwr a fu unrhyw broblemau wrth recriwtio staff, oherwydd mae angen y staff gorau posibl ar gyfer prosiect mor arloesol. Dywedodd hi wrthyf na fu dim problemau ac y cawsant domen o geisiadau. Y rheswm am hyn oedd yr ystyrid fod y gwasanaeth yn un mor dda ac oherwydd y byddai'r arloesi y byddai'n ei wneud yn ei roi ar flaen y gad. Dyna beth gewch chi gydag adeiladau modern ac unedau newydd. Os rhowch yr arian i mewn i raglen gyfalaf, byddwch yn cadw staff.

4:39 p.m.

We are in danger of losing some of the best clinicians in the country, indeed, in Europe. The Government responds by saying that an extra £1 billion has been allocated to the NHS in Wales. They have been quiet on this issue recently, but in questions this afternoon, the Secretary for Health and Social Services repeated that claim. It is, therefore, appropriate to return to the issue. In the past, I have remarked that this claim demonstrated the practice of New Labour, New Maths, because it has invented something that I will call compound arithmetic. Compound arithmetic has never been used before in this country, but it is now used to inflate the figures.

Yr ydym mewn perygl o golli rhai o'r clinigwyr gorau yn y wlad, yn wir, yn Ewrop. Ymateb y Llywodraeth yw dweud y dyrannwyd £1 biliwn yn ychwanegol i'r NHS yng Nghymru. Buont yn ddistaw ar y mater hwn yn ddiweddar, ond mewn cwestiynau y prynhawn yma, ailadroddodd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr haeriad hwnnw. Mae'n briodol, felly, mynd yn ôl at y cwestiwn hwn. Yn y gorffennol, yr wyf wedi dweud fod yr haeriad hwn yn rhoi darlun inni o Lafur Newydd, Mathemateg Newydd, gan ei fod wedi dyfeisio rhywbeth y byddaf i'n ei alw'n rhifyddeg gyfansawdd. Ni ddefnyddiwyd rhifyddeg gyfansawdd erioed o'r blaen yn y wlad hon, ond fe'i defnyddir bellach i chwyddo'r ffigurau.

I am sorry that the First Secretary is not present at the moment. There is probably a good reason for his absence. It would seem a little ungallant to attempt a joke at his expense, but I will try. The alternative is to use Jane Hutt as a model and I do not want to do that. I have decided to use compound arithmetic to calculate Alun Michael's age. Many of you may take his date of birth as 1943 and assume that he is 56, but you must

Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r Prif Ysgrifennydd yn bresennol ar hyn o bryd. Mae'n debyg fod rheswm da dros ei absenoldeb. Mae'n debyg mai braidd yn anfoesgar fyddai ceisio gwneud jôc ar ei draul, ond rhoddaf gynnig arni. Y dewis arall yw defnyddio Jane Hutt fel model ac nid oes arnaf eisiau gwneud hynny. Yr wyf wedi penderfynu defnyddio rhifyddeg gyfansawdd i gyfrifo oed Alun Michael. Bydd llawer

use New Labour, New Maths. If you use compound arithmetic, his actual age is 1,596. [*Laughter.*] At the moment, all I can say is that he looks his age.

ohonoch yn cymryd ar sail ei ddyddiad geni yn 1943 ei fod yn 56, ond rhaid ichi ddefnyddio Llafur Newydd, Mathemateg Newydd. O ddefnyddio rhifyddeg gyfansawdd, 1,596 yw ei oed mewn gwirionedd. [*Chwerthin.*] Ar hyn o bryd, y cyfan y gallaf ei ddweud yw ei fod yn edrych ei oed.

The Presiding Officer: Order. Could we get on with the debate?

Y Llywydd: Trefn. A gawn ni barhau â'r ddadl?

David Melding: The Health and Social Services Committee called for an increase in funds for the NHS in Wales. That was supported by all the parties apart from Labour. It would help us to tackle the current financial crisis. I am sure that the other parties have applied the same discipline as the Conservative group. We had a discussion about where resources should be added across the budget lines and we chose health as a priority. That is absolutely appropriate. Labour's response was to abstain on this vital issue. I do not think that shows adequate leadership.

David Melding: Galwodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gynyddu cyllid yr NHS yng Nghymru. Cefnogwyd hynny gan y pleidiau i gyd ar wahân i Lafur. Byddai'n ein helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ariannol presennol. Yr wyf yn sicr fod y pleidiau eraill wedi gweithredu'r un ddisgyblaeth â'r grŵp Ceidwadol. Cawsom drafodaeth ynghylch ble y dylid ychwanegu adnoddau ar draws y llinellau cyllideb a dewisom iechyd fel blaenoriaeth. Mae hynny'n gwbl briodol. Ymateb Llafur oedd ymatal rhag pleidleisio ar y mater allweddol hwn. Nid wyf yn meddwl fod hynny'n dangos arweiniad digonol.

Unless we take action, the NHS stocktake report will be seen as an all too accurate warning to frontline staff. We should recall that according to the report, we have more frontline staff than is justified compared with England. That is a grim warning. In a written answer to me, Jane Hutt acknowledged that there could be reductions in frontline staff, namely doctors and nurses. The other warning referred to the number of acute units—that is still my favourite civil service speak. As far as I can work out, it actually means hospitals. The report earmarks the number of hospitals as something to be examined. I am not sure if it wants us to examine them and then throw our hats in the air and celebrate the number we have, or whether we are supposed to examine them and then take the action that Labour considers appropriate, namely, to close hospitals. That is obviously the grim reality underlining that piece of analysis.

Os na weithredwn, bydd adroddiad cloriannu'r NHS yn cael ei weld fel rhybudd dim ond yn rhy gywir i staff y llinell flaen. Dylem gofio bod yr adroddiad yn dweud fod gennym fwy o staff llinell flaen nag y gellir eu cyfiawnhau o gymharu â Lloegr. Dyna rybudd bygythiol. Mewn ateb ysgrifenedig i mi, cydnabu Jane Hutt y gallai fod cwtogi ar staff llinell flaen, sef meddygon a nyrsys. Cyfeiriai'r rhybudd arall at nifer yr unedau achosion llym—dyna fy hoff derm gwasanaeth sifil o hyd. Hyd y gallaf i ganfod, ysbytai y mae'n ei olygu mewn gwirionedd. Mae'r adroddiad yn nodi'r nifer o ysbytai sydd i'w harchwilio. Nid wyf yn siŵr a ydyw'n disgwyl inni eu harchwilio ac wedyn taflu'n hetiau i'r awyr a dathlu'r nifer sydd gennym, neu eu harchwilio ac wedyn gwneud yr hyn sydd yn briodol ym marn Llafur, sef cau ysbytai. Yn amlwg, dyna'r gwirionedd didostur y tu cefn i'r damcaniaethu hwn.

What about Labour's big promise on health? In the general election, you may recall that it spouted five things it would do and printed them on its membership 'credit' card. One

Beth am addewid mawr Llafur ar iechyd? Yn yr etholiad cyffredinol, efallai y cofiwch iddynt frolio pum peth y byddent yn eu gwneud, a'u hargraffu ar eu cerdyn 'credyd'

promise was to reduce waiting lists as a first step. We should always remember the qualification, 'as a first step'. It implies that after the first step, you take many more. It certainly indicates quick action as a start to tackle what Labour considers a problem. As a first step it was going to cut waiting lists by 100,000. In Wales, presumably, the proportion of that would be 5,000. What has happened? In 1997, just before the general election, the in-patient waiting list was far too high at 67,609. In September 1999, after Labour had had time to take a first step, the waiting list increased to 69,704. They have not dropped by 5,000, but increased by 2,000. That is an obvious failure.

aelodaeth. Un addewid oedd lleihau rhestrau aros fel cam cyntaf. Dylem bob amser gofio'r cymhwysiad hwnnw, 'fel cam cyntaf'. Mae'n awgrymu bod llawer o gamau eraill i'w cymryd ar ôl y cam cyntaf hwnnw. Mae'n sicr yn awgrymu gweithredu buan i ddechrau mynd i'r afael â'r hyn a wêl Llafur fel problem. Fel cam cyntaf yr oedd yn mynd i docio 100,000 oddi ar restrau aros. Yng Nghymru, gallwn dybio, 5,000 fyddai'r gyfran o hynny. Beth sydd wedi digwydd? Yn 1997, yn union cyn yr etholiad cyffredinol, yr oedd y rhestr aros i gleifion mewnol yn llawer rhy uchel, yn 67,609. Ym Medi 1999, wedi i Lafur gael amser i gymryd cam cyntaf, cynyddodd y rhestr aros i 69,704. Nid cwympo o 5,000 a wnaethant, ond codi 2,000. Methiant amlwg yw hynny.

The other waiting lists are worse. I will go through them because it is a scandal given Labour's self-proclaimed priorities. In 1997, the out-patients waiting list was 101,308. That was inherited from the Conservative Government. In September 1999, the waiting list had increased by almost 50,000 to 151,157. For out-patients waiting over six months, the figure Labour inherited was 5,956 and now stands at 28,955. That is an increase of 386 per cent. I conclude on waiting lists because that is the measure on which Labour asked to be judged. Labour has not only taken a first step on this issue, but several, all backwards.

Mae'r rhestrau aros eraill yn waeth. Af drwyddynt oherwydd mae'n sgandal o gofio blaenoriaethau honedig Llafur. Yn 1997, 101,308 oedd rhestr aros y cleifion allanol. Etifeddwyd honno oddi wrth y Llywodraeth Geidwadol. Ym Medi 1999, yr oedd y rhestr aros wedi cynyddu bron 50,000 i 151,157. I gleifion allanol yn aros mwy na chwe mis, 5,956 oedd y ffigur a etifeddodd Llafur, bellach mae'n 28,955. Mae hynny'n gynnydd o 386 y cant. Yr wyf yn cau fy nadl gyda rhestrau aros am mai dyna'r mesur y gofynnodd Llafur am gael ei barnu yn ei erbyn. Mae Llafur wedi gwneud mwy na chymryd cam cyntaf ar y mater hwn; cymerodd sawl cam, bob un ohonynt yn ôl.

Community hospitals are not second rate facilities. For those of us who depend on them totally because there is no alternative, they offer the best in clinical care. They perform surgery at an increasing rate and complexity and hold more and more out-patient clinics. Is it not common sense for the doctor to travel rather than the 10 or 15 people that he will see in the surgery? Only last week I visited the telecentre in Cardiff International Arena and discussed the possibilities of tele-medicine with clinicians. Advances in clinical procedures and such technology mean that in future more and more services will be delivered within a community setting. That is why the Liberal Democrats will support Plaid Cymru's motion. We need, in true civil service Bob Hudson speak, to be future proofing our

Nid cyfleusterau eilradd yw ysbytai cymunedol. I'r rheini ohonom sydd yn dibynnu arnynt yn llwyr, am nad oes dewis arall, maent yn cynnig y gorau mewn gofal glinigol. Cyflawnant lawdriniaeth fwyfwy aml a chymhleth a chynhaliant fwy a mwy o glinigau allgleifion. Onid synnwyr cyffredin yw i'r meddyg deithio yn hytrach na'r 10 i 15 o bobl y bydd yn eu gweld yn ei feddygfa? Dim ond yr wythnos diwethaf ymwelais â'r deleganolfan yn Arena Ryngwladol Caerdydd a thrafod posibiliadau telefeddygaeth gyda chlinigwyr. Mae datblygiadau mewn gweithdrefnau clinigol a thechnoleg o'r fath yn golygu y caiff mwy a mwy o wasanaethau yn y dyfodol eu cyflawni o fewn y gymuned. Dyna pam y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi cynnig Plaid Cymru. Mae angen inni, yng ngwir arddull y

community facilities rather than centralising services, because in 15 or 20 years we will face the prospect of reopening facilities that we may have closed in the short term.

gwasanaeth sifil a Bob Hudson, fod yn gwarantu'n cyfleusterau cymunedol ar gyfer y dyfodol yn hytrach na chanoli gwasanaethau, oherwydd ymhen 15 neu 20 mlynedd byddwn yn wynebu'r tebygolrwydd o fod yn ailagor cyfleusterau y byddwn wedi'u cau yn y tymor byr.

It makes sense, on two important fronts, to expand and protect community hospitals' services. From the patient's viewpoint, being treated in a community hospital provides a more satisfying experience of the NHS. It means shorter travelling distances and shorter treatment waiting times and a familiar environment at what is a frightening and apprehensive time for many. It also means patients can receive visits from friends and relatives at lunch times and during the evenings. Given the shortage of resources we are all aware of, it also makes economic sense. Figures show that 10 per cent of patients currently admitted to an acute hospital could be cared for in a community hospital. It costs much less to provide a bed and care in a community hospital than it does in a more acute unit. Community hospital care could facilitate early discharges from acute hospitals, saving money and freeing up those precious beds to treat more serious cases, which, with the best will in the world and an eye on clinical governance, cannot be treated in a community setting. It can also provide planned respite and rehabilitation care, avoiding crisis admissions and extra pressure on acute hospitals.

Mae'n gwneud synnwyr, o ddau safbwynt pwysig, ehangu a gwarchod gwasanaethau ysbytai cymunedol. O safbwynt y claf, mae cael triniaeth mewn ysbyty cymunedol yn rhoi profiad mwy boddhaol o'r NHS. Mae'n golygu pellterau teithio llai, a llai o amser aros am driniaeth ac amgylchedd cyfarwydd ar adeg sydd yn gallu peri braw a phryder i lawer. Mae hefyd yn golygu y gall cleifion gael ymweliadau gan ffrindiau a pherthnasau yn ystod amser cinio a chyda'r nos. O gofio'r prinder adnoddau sydd yn hysbys inni i gyd, mae'n gwneud synnwyr yn economaidd hefyd. Mae ffigurau'n dangos y gellid gofalu mewn ysbyty cymunedol am 10 y cant o'r cleifion a dderbynnir ar hyn o bryd i ysbyty achosion llym. Mae'n costio llawer llai i ddarparu gwely a gofal mewn ysbyty cymunedol nag mewn uned achosion llym. Gallai gofal ysbyty cymunedol hwyluso rhyddhau pobl yn gynnar o ysbytai llym, gan arbed arian a rhyddhau'r gwelyau gwerthfawr hynny i drin achosion mwy difrifol na ellir eu trin yn y gymuned er cymaint y dymunid gwneud hynny a chyda golwg ar reolaeth glinigol. Gall hefyd ddarparu gofal seibiant ac adferol wedi'i gynllunio er mwyn osgoi cael pobl yn mynd i'r ysbyty oherwydd argyfwng gan roi pwysedd ychwanegol ar ysbytai achosion llym.

However, the advantages community hospitals offer are threatened daily. Powys Health Care NHS Trust, which only has community hospitals, has to save about £5 million according to a community hospital review this year. It will do so because Alun Michael says it must. It will do so through consultation with the community and not, thank goodness, through closure of facilities. However, every community hospital in Powys will lose beds. That is not the way forward at the end of this century.

Fodd bynnag, mae'r manteision a gynigir gan ysbytai cymunedol dan fygythiad yn ddyddiol. Mae'n rhaid i Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys, a dim ond ysbytai cymunedol ganddi, arbed rhyw £5 miliwn yn ôl adolygiad ysbytai cymunedol eleni. Bydd yn gwneud hynny am fod Alun Michael yn dweud fod rhaid iddi. Bydd yn gwneud hynny drwy ymgynghori â'r gymuned ac nid, diolch byth, drwy gau cyfleusterau. Fodd bynnag, bydd pob ysbyty cymunedol ym Mhowys yn colli gwelyau. Nid dyna'r ffordd ymlaen ar ddiwedd y ganrif hon.

4:49 p.m.

Hospitals in Ceredigion, such as Cardigan and District Memorial Hospital and Aberaeron Hospital face closure. These patients would then have to travel to Bronglais hospital and incur the expense of care in an acute setting, which was mentioned earlier. It does not make sense for the patient and it does not make economic sense to close our community hospitals and to centralise services in big meccas and monsters to modern technology.

Mae ysbytai yng Ngheredigion, megis Ysbyty Coffa Aberteifi a'r Cylch ac Ysbyty Aberaeron yn wynebu cael eu cau. Byddai'r cleifion hyn wedyn yn gorfod teithio i ysbyty Bronglais a chael gofal mwy costus mewn lleoliad achosion llym, fel a grybwyllwyd yn gynharach. Nid yw'n gwneud synnwyr i'r claf ac nid yw'n gwneud synnwyr economaidd i gau'n hysbytai cymunedol a chanoli gwasanaethau mewn addoldai ac anghenfilod mawr i dechnoleg fodern.

An NHS base in the community is about more than just community hospitals. It is about providing support and resources to all aspects of the primary health care team, including well-trained GPs, community nurses and other professions allied to medicine. Having community hospitals as a base means those services can work together in a planned way preventing people from falling through the net and avoiding the need to dispatch them to distant places. It also provides for a much closer working between the NHS and social services, which we have discussed at length in the Health and Social Services Committee.

Mae canolfan NHS yn y gymuned yn ymwneud â llawer mwy nag ysbytai cymunedol yn unig. Mae a wnelo hynny â darparu cefnogaeth ac adnoddau i holl agweddau'r tîm gofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys cymunedol a phroffesiynau meddygol eraill wedi'u hyfforddi'n dda. Mae cael ysbytai cymunedol fel sylfaen yn golygu y gall y gwasanaethau hynny gydweithio mewn ffordd gynlluniedig i atal pobl rhag syrthio drwy'r rhwyd ac osgoi'r angen i'w hanfon i leoedd pell. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cydweithio llawer agosach rhwng yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol, a drafodwyd gennym yn faith yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

On Andrew Davies's amendment 1, I am still convinced that this administration's policy is to put services together in large centralised units. There is no evidence to the contrary. Jon Owen Jones's statements are clear, and we just heard about the kidney transplant treatments in Cardiff hospitals. Jane's response to a letter on that subject referred to the Royal College of Surgeons' desire to have only three units in the whole of the UK. Her response did not question the validity of that statement. The Liberal Democrats are not prepared to let the Labour administration off the hook by supporting its amendment.

Ynglŷn â gwelliant 1 Andrew Davies, yr wyf yn dal wedi fy argyhoeddi mai polisi'r weinyddiaeth hon yw canoli gwasanaethau gyda'i gilydd mewn unedau mawr. Nid oes dim tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Mae datganiadau Jon Owen Jones yn glir, ac yr ydym newydd glywed am y triniaethau trawsblannu arennau yn ysbytai Caerdydd. Yn ateb Jane i lythyr ar y pwnc hwnnw, cyfeiriwyd at awydd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon i gael dim ond tair uned yn y DU gyfan. Ni wnaeth ei hymateb hi gwestiynu dilysrwydd y gosodiad hwnnw. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn barod i achub croen y weinyddiaeth Lafur drwy gefnogi ei gwelliant.

We will support David Melding's amendment on drawing attention to the financial crisis highlighted by the NHS stocktake. However, we are not prepared to allow you and your Conservative Government off the hook either. You may not have savaged the NHS estate in Wales, but I point out that the number of beds per

Fe wnawn gefnogi gwelliant David Melding sydd yn tynnu sylw at yr argyfwng ariannol a danlinellwyd yn adroddiad cloriannu'r NHS. Fodd bynnag, nid ydym yn barod i achub eich croen chi a'ch Llywodraeth Geidwadol chwaith. Efallai na wnaethoch ysbeilio stad yr NHS yng Nghymru, ond hoffwn nodi i nifer y gwelyau am bob mil o'r boblogaeth yng

thousand population in Wales was cut by almost 50 per cent during the Conservative years. You may not have closed facilities in great numbers but you devastated the number of beds available to the people of Wales. Finally, I thank Dai and Plaid Cymru for the opportunity to debate this issue.

Nghymru gael ei dorri bron 50 y cant yn ystod blynyddoedd y Ceidwadwyr. Efallai na wnaethoch gau niferoedd mawr o gyfleusterau ond cawsoch effaith andwyol ar nifer y gwelyau a oedd ar gael i bobl Cymru. Yn olaf, hoffwn ddiolch i Dai a Phlaid Cymru am y cyfle i drafod y mater hwn.

Geraint Davies: I am grateful for the opportunity to speak on this important issue. The way we deal with the health service and address the health divide is an important measure of how this Assembly will be judged.

Geraint Davies: Diolch am y cyfle i siarad ar y mater pwysig hwn. Mae'r modd y deliwn â'r gwasanaeth iechyd a mynd i'r afael â'r rhaniad iechyd yn fesur pwysig o'r modd y bernir y Cynulliad hwn.

Coming from the Rhondda, I live in and represent an area on the wrong side of the health divide. It is disappointing that there are no plans to establish health action zones in Wales. Health action zones have been paraded again and again by the Labour Party as its triumph in England, yet there are none in Wales. The issue was raised with the Secretary for Health and Social Services who stated that it was because the whole of Wales was a health action zone. The Party of Wales will not deny that Wales's health needs are greater than those of England. Dai Lloyd has already mentioned that people in Wales are sicker and in greater need than those in England.

A minnau o'r Rhondda, yr wyf yn cynrychioli ac yn byw mewn ardal sydd ar yr ochr anghywir i'r rhaniad iechyd. Mae'n siomedig nad oes unrhyw gynlluniau i sefydlu parthau gweithredu iechyd yng Nghymru. Cafodd parthau gweithredu iechyd eu brolio dro ar ôl tro gan y Blaid Lafur fel eu camp fawr yn Lloegr, ond eto nid oes dim yng Nghymru. Codwyd y mater gyda'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a ddywedodd fod hyn oherwydd fod Cymru gyfan yn barth gweithredu iechyd. Ni wnaiff Plaid Cymru wadu fod anghenion iechyd Cymru'n fwy na rhai Lloegr. Mae Dai Lloyd eisoes wedi sôn fod pobl yng Nghymru yn salach ac mewn mwy o angen na phobl yn Lloegr.

There is a striking disparity in health in Wales. Consider almost any health statistic that compares deprived areas with more affluent ones, for example, compare the Rhondda with the Vale of Glamorgan. Compare the statistic on limiting long-term illness ratios. It shows the Rhondda at a figure of 175, while most of the Vale is below the mean for that of England and Wales, that is below 100. That is a 75 per cent difference. Given that statistic, it is not surprising that people in more deprived areas die at a younger age and in some wards in the Rhondda, they die six years earlier than in similar wards in the Vale.

Mae anghyfartaledd trawiadol mewn iechyd yng Nghymru. Ystyriwch bron unrhyw ystadegyn iechyd sydd yn cymharu ardaloedd difreintiedig â rhai mwy cefnog, er enghraifft, cymharwch y Rhondda â Bro Morgannwg. Cymharwch yr ystadegyn ar gymarebau salwch tymor hir cyfyngol. Mae'n dangos ffigur o 175 i'r Rhondda, tra bod y rhan fwyaf o'r Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, hynny yw yn is na 100. Dyna wahaniaeth o 75 y cant. Yn wyneb yr ystadegyn hwnnw, nid oes rhyfedd fod pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn marw'n iau a'u bod, mewn rhai wardiau yn y Rhondda, yn marw chwe blynedd yn iau nag mewn wardiau tebyg yn y Fro.

With evidence like this, there is an unanswerable case that the money and health schemes currently available need to be focused and targeted. It is curious that the very presence of health action zones in England appear to attract extra cash. That

Gyda thystiolaeth fel hyn, mae achos anatebadwy fod angen ffocysu a thargedu'r arian a'r cynlluniau iechyd sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n rhyfedd fod presenoldeb parthau gweithredu iechyd yn Lloegr ynddo'i hun fel petai'n denu arian ychwanegol. Daw

brings me to health spending. As has been said, health spending in Wales is inadequate. What are this Government's plans to tackle it? To quote from the official 'Emerging Trends' document, and I find this very disturbing:

hynny â mi at wariant ar iechyd. Fel y dywedwyd, mae gwariant ar iechyd yng Nghymru'n annigonol. Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth hon i fynd i'r afael â hyn? A dyfynnu o'r ddogfen swyddogol 'Emerging Trends', a chaf hyn yn annymunol iawn:

'We know that private provision in Wales is roughly half the size it is in England. This may suggest significant potential for the development of the private sector in Wales as a means of expanding its capacity for elective care'.

People must have a choice and private health care should be available. However, private provision in Wales is half that of England because it is against the wishes of the people of Wales to rely on it at the expense of the NHS. Increasing private health care provision is not the answer to the NHS's problem. I would like Jane to confirm that there is no hidden agenda to promote private health care. Private health care and the private finance initiative is not the answer either. The House of Commons Health Committee, Unison and the Scottish British Medical Association have all condemned the use of PFI. The tax payer ends up paying repeatedly for the never never of the NHS, for a property that may be owned by the community after a generation, if at all.

Rhaid i bobl gael dewis a dylai gofal iechyd preifat fod ar gael. Fodd bynnag, mae darpariaeth breifat yng Nghymru yn hanner yr hyn ydyw yn Lloegr oherwydd ei fod yn erbyn dymuniadau pobl Cymru i ddibynnu ar hynny ar draul yr NHS. Nid cynyddu darpariaeth gofal iechyd preifat yw'r ateb i broblem yr NHS. Hoffwn i Jane gadarnhau nad oes agenda gudd i hyrwyddo gofal iechyd preifat. Nid gofal iechyd preifat, ac nid y menter cyllid preifat yw'r ateb ychwaith. Mae Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, Unsain a Chymdeithas Feddygol Brydeinig yr Alban i gyd wedi condemnio'r defnydd o'r menter cyllid preifat. Yn y diwedd mae'r trethdalwr yn talu eilwaith a mwy am freuddwyd yr NHS, am rywbeth a all ddod yn eiddo'r gymuned ymhen cenhedlaeth, os o gwbl.

The Rhondda has been promised a replacement hospital for Llwynypia for 20 years. We are now being offered the hospital perhaps with a PFI, on the condition it is cost neutral. That means a reduction in services because it is more expensive than the present set-up. Health spending is inextricably linked with waiting lists. This Government has recently stopped discussing its pledge to cut waiting lists and has begun instead to emphasise the need to reduce waiting times for urgent cases. That is welcome. Plaid Cymru has long maintained that waiting lists are an artificial measure of true need. However, is this a commitment or just rhetoric? Rhetoric is no good for those on waiting lists; people, for example, who are waiting over 18 months to have triple bypass surgery. We need a commitment to tackle that problem. However, waiting lists and times are not the main problem but the dreadful symptom of a far greater problem—the overall lack of resources in the health service in Wales. We need more staff, nurses and doctors and more consultants dedicated to the

Addawyd ysbyty i'r Rhondda i gymryd lle Llwynypia ers 20 mlynedd. Erbyn hyn yr ydym yn cael cynnig yr ysbyty efallai gyda menter cyllid preifat, ar yr amod ei fod yn gost-niwtral. Mae hynny'n golygu lleihad mewn gwasanaethau oherwydd mae'n ddrutach na'r sefyllfa bresennol. Mae cysylltiad annatod rhwng gwariant ar iechyd a rhestrau aros. Mae'r Llywodraeth hon yn ddiweddar wedi rhoi'r gorau i drafod ei haddewid i gwtogi rhestrau aros ac wedi dechrau pwysleisio'r angen i leihau amserau aros i achosion brys yn lle hynny. Croesewir hynny. Mae Plaid Cymru wedi taeru ers talwm fod rhestrau aros yn fesur ffug o wir angen. Fodd bynnag, ai ymrwymiad yw hyn ynteu ddim ond rhethreg? Nid yw rhethreg yn dda i ddim i rai sydd ar restrau aros; pobl, er enghraifft, sydd yn aros ers dros 18 mis am lawdriniaeth ddargyfeiriol driphlyg. Mae angen ymrwymiad i fynd i'r afael â'r broblem honno. Fodd bynnag, nid rhestrau ac amserau aros yw'r brif broblem; symptom ofnadwy ydynt o broblem lawer mwy—y diffyg adnoddau cyffredinol yn y gwasanaeth iechyd

NHS. That is why Plaid Cymru has called for a second medical school in Wales geared to the needs of Wales. Resources are a wider problem. Extra money for cancer treatment is worthwhile. Unless some of it is directed into broader areas such as pathology, cancer will not be detected and treated as swiftly as the Government would like.

yng Nghymru. Mae arnom angen mwy o staff, nyrsys a meddygon a mwy o ymgynghorwyr ymroddedig i'r NHS. Dyna pam y mae Plaid Cymru wedi galw am ail ysgol feddygol yng Nghymru i ymateb i anghenion Cymru. Mae adnoddau'n broblem ehangach. Mae arian ychwanegol ar gyfer trin canser yn werth chweil. Os na chaiff rhywfaint ohono ei gyfeirio i feysydd lletach fel patholeg, ni chaiff canser ei ddarganfod a'i drin mor gyflym ag yr hoffai'r Llywodraeth.

4:59 p.m.

Waiting lists and waiting times are the symptoms of a failure of resources. This is especially shown by the apalling shortage of beds in hospitals. Dai Lloyd referred to the difficulty of getting people into hospitals. The corporate strategy and other analyses of the Welsh health service have already hinted that they see a surplus of beds in Wales. This is ludicrous. They are not looking at the different needs of Wales but have one agenda, which is to centralise. We need more beds in Wales. In my constituency, we are about to lose 33 valuable beds in the next couple of months, which could be used to unblock the bed blocking occurring in the general hospital.

Symptom o fethiant adnoddau yw rhestrau aros ac amserau aros. Dangosir hyn yn arbennig gan y prinder affwysol o welyau mewn ysbytai. Soniodd Dai Lloyd mor anodd ydyw cael pobl i mewn i ysbytai. Mae'r strategaeth gorfforaethol a dadansoddiadau eraill o wasanaeth iechyd Cymru eisoes wedi awgrymu eu bod yn gweld gormodedd o welyau yng Nghymru. Mae hyn yn hurt. Nid ydynt yn edrych ar anghenion gwahanol Cymru, ond mae ganddynt un agenda, sef canoli. Mae arnom angen mwy o welyau yng Nghymru. Yn fy etholaeth i, yr ydym ar fin colli 33 o welyau gwerthfawr yn yr ychydig fisoedd nesaf, y gellid eu defnyddio i leihau'r pwysau sydd yn blocio gwelyau yn yr ysbyty cyffredinol.

I would like to stress the great shortage of acute psychiatric beds in Wales. Doctors have told me how difficult it is to admit people to these wards. There are stories of people travelling up and down the M4 looking for a hospital bed. I have heard of a case where the only bed available for a patient from south Wales was in Bodmin, Cornwall. There is a crying need for an alternative vision of the health service in Wales for the next 25 years. Anyone concerned about this situation should support the Plaid Cymru motion today. We will also support amendment 2 and reject amendments 1 and 3.

Hoffwn danlinellu'r prinder mawr o welyau seiciatryddol aciwt yng Nghymru. Mae meddygon wedi dweud wrthyf mor anodd ydyw cael pobl i mewn i'r wardiau hyn. Mae hanesion am bobl yn teithio i fyny ac i lawr yr M4 yn chwilio am wely ysbyty. Clywais am achos lle mai'r unig wely oedd ar gael i glaf o dde Cymru oedd yn Bodmin, Cernyw. Mae angen dybryd am weledigaeth amgen o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru am y 25 mlynedd nesaf. Dylai unrhyw un sydd yn pryderu am y sefyllfa hon gefnogi cynnig Plaid Cymru heddiw. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2 ac yn gwrthod gwelliannau 1 a 3.

Brian Gibbons: It never fails to amaze me that the Welsh nationalist party can come before this Chamber and ask for a duplication of an organisation such as the National Institute for Clincial Excellence, which is effective and appropriate for the health service in England and Wales. Plaid Cymru

Brian Gibbons: Mae bob amser yn rhyfeddod imi y ffordd y gall plaid cenedlaetholwyr Cymru ddod ger bron y Siambr hon a gofyn am ddyblygu sefydliad fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, sydd yn effeithiol ac yn briodol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a

continually beat the drum for health action zones when we have an imaginative and innovative health service response in Wales, which brings health and local government together to work in a new way as exemplified in the Health Act 1999.

Lloegr. Mae Plaid Cymru o hyd yn taro'r drwm dros barthau gweithredu iechyd pan fo gennym ymateb gwasanaeth iechyd dychmygus ac arloesol yng Nghymru, sydd yn dod ynghyd â iechyd a llywodraeth leol i weithio mewn ffordd newydd fel a ddisgrifir yn y Ddeddf Iechyd 1999.

Also, when we have the results of the latest round of health allocation resources and local government allocation of resources, we can target the resources in the areas of greatest need through an integrated health and social care package. We are inventing a Welsh solution to a Welsh problem. Why the Welsh nationalist party cannot support this—

Hefyd, pan gawn ni ganlyniadau'r rownd diweddaraf o ddyrannu adnoddau iechyd a dyrannu adnoddau llywodraeth leol, gallwn dargedu'r adnoddau yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf drwy becyn iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Yr ydym yn dyfeisio ateb Cymreig i broblem Gymreig. Pam na all plaid y cenedlaetholwyr Cymreig gefnogi hyn—

Rhodri Glyn Thomas: I wish Brian would use the correct party name. It is either Plaid Cymru or the Party of Wales. He of the former socialist party should get the name right.

Rhodri Glyn Thomas: Byddai'n dda gennyf pe bai Brian yn defnyddio enw cywir y blaid. Naill ai Plaid Cymru neu 'the Party of Wales' ydyw. Dylai ef o'r hen blaid sosialaidd gael yr enw'n iawn.

Brian Gibbons: The party I referred to cannot accept a solution devised in Wales. The record of this administration on supporting community development stands up to scrutiny. I will not outline the full details because I am sure Jane Hutt will deal with that in her response. However, in the Health and Social Services Committee we have recognised the growing importance of the intermediate tier of health care delivery. Much of the health care provided in this intermediate tier is provided in community hospitals. We support the continuation of this but we should not allow ourselves to be blinkered into a bricks and mortar solution in delivering intermediate health care solutions. We need to be more imaginative and innovative in the way that we deliver many of the new services that we are committed to in the NHS in Wales and which we have underpinned by our commitment to the primary care strategy. We have asked various members of primary health care organisations to make submissions to the Assembly so that we can encourage primary care and community-based intermediate care initiatives.

Brian Gibbons: Ni all y blaid y cyfeiriais ati dderbyn ateb a ddyfeisiwyd yng Nghymru. Mae record y weinyddiaeth hon ar gefnogi datblygu cymunedol yn un a saif o'i archwilio. Ni wnaf amlinellu'r manylion llawn oherwydd yr wyf yn siŵr y gwnaiff Jane Hutt ddelio â hynny yn ei hymateb. Fodd bynnag, yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr ydym wedi cydnabod pwysigrwydd cynyddol yr haen ganolraddol o gyflwyno gofal iechyd. Darperir llawer o'r gofal iechyd a ddarperir yn yr haen ganolraddol hon mewn ysbytai cymunedol. Yr ydym yn cefnogi parhad hyn ond ni ddylem ganiatáu inni'n hunain gael ein cyfyngu i ateb brics a morter i roi atebion gofal iechyd canolraddol. Mae angen inni fod yn fwy dychmygus ac arloesol yn y ffordd y gweithredwn lawer o'r gwasanaethau newydd yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn yr NHS yng Nghymru ac yr ydym wedi'u cryfhau drwy ein hymrwymiad i'r strategaeth ofal sylfaenol. Yr ydym wedi gofyn i amryfal aelodau o sefydliadau gofal iechyd sylfaenol gyflwyno sylwadau i'r Cynulliad er mwyn inni allu annog mentrau gofal sylfaenol a gofal canolraddol cymunedol.

I find the second part of the motion even more baffling. I was amused by David Melding's compound arithmetic. I tried to

Mae ail ran y cynnig yn peri mwy o ddryswch byth imi. Roedd rhifyddeg gyfansawdd David Melding yn ddoniol iawn. Ceisiais weithio

apply compound arithmetic to the number of Conservative MPs from Wales who are in the House of Commons. No matter how long I continued it still came to zero. I am sure that one of the reasons for this is the Conservative Government's appalling record on the national health service in Wales. We value the national health service. While David spoke about the number of hospitals that were opened, it is a fact that since 1992 the number of acute hospital beds in Wales has decreased by 10 per cent. No amount of rhetoric or displaying pieces of paper is going to avoid that reality. Those of us who have been involved in delivering clinical services to patients know this.

rhifyddeg gyfansawdd ar y nifer o AS Ceidwadol o Gymru sydd yn Nhŷ'r Cyffredin. Pa mor hir bynnag y byddwn wrthi, dim oedd yr ateb o hyd. Yr wyf yn sicr mai un o'r rhesymau am hyn yw record warthus y Llywodraeth Geidwadol ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Yr ydym yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth iechyd gwladol. Tra siaradodd David am y nifer o ysbytai a agorwyd, mae'n ffaith fod y nifer o welyau ysbyty aciwt yng Nghymru wedi gostwng 10 y cant ers 1992. Ni wnaiff unrhyw faint o rethreg na dangos darnau o bapur osgoi'r gwirionedd hwnnw. Mae'r rheini ohonom a fu'n ymwneud â rhoi gwasanaethau clinigol i gleifion yn gwybod hyn.

David Melding: It is always marvellous to hear Brian, and he is gracious in giving way. The reduction in the number of hospital beds was a response to the average stay in those beds. That has been falling and it is simply a consequence of modern medicine. You ought to refer to that as well.

David Melding: Mae bob amser yn hyfryd clywed Brian, ac mae'n raslon yn ildio. Yr oedd y lleihad yn y nifer o welyau ysbyty yn ymateb i'r arhosiad cyfartalog yn y gwelyau hynny. Bu hwnnw ar i lawr ac mae'n ganlyniad syml i feddygaeth fodern. Dylech gyfeirio at hynny yn ogystal.

Brian Gibbons: It is true that over this period the number of patients treated increased by 25 per cent. However, it is interesting that this figure increased by 5 per cent last year under the Labour administration. Applying that to the Conservative years, the increase should have been 35 per cent. The Labour administration is achieving a more efficient use of health service resources.

Brian Gibbons: Y mae'n wir y bu cynnydd o 25 y cant dros y cyfnod hwn yn y nifer o gleifion a driniwyd. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol fod y ffigur hwn wedi codi 5 y cant y llynedd dan y weinyddiaeth Lafur. O gymhwyso hynny i flynyddoedd y Ceidwadwyr, dylai'r cynnydd fod yn 35 y cant. Mae'r weinyddiaeth Lafur yn sicrhau defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r gwasanaeth iechyd.

I want to make my final point in the week in which the Bro Morgannwg NHS Trust and Iechyd Morgannwg Health submit their plans for a new hospital at Baglan. This hospital is supported by the local community, as an example of improving access for people to our health service. It will be an example of the Assembly's commitment to improving access if it gives approval to this project.

Hoffwn wneud fy mhwynt terfynol yn yr wythnos pryd y mae Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg a Iechyd Morgannwg Health yn cyflwyno'u cynlluniau ar gyfer ysbyty newydd ym Maglan. Cefnogir yr ysbyty hwn gan y gymuned leol, fel enghraifft o wella mynediad i'n gwasanaethau iechyd i bobl. Bydd yn enghraifft o ymrwymiad y Cynulliad i wella mynediad os rhydd sêl bendith i'r prosiect hwn.

I would be grateful if Plaid Cymru would endorse this project, particularly as one of their senior councillors on Neath Port Talbot County Borough Council has been obstructive and unhelpful in the local community's initiatives to deliver this hospital.

Byddwn yn ddiolchgar petai Plaid Cymru'n cefnogi'r prosiect hwn, yn enwedig gan fod un o'u cynghorwyr uchaf ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dangos diffyg cydweithrediad a chymorth i ymdrechion y gymuned leol i sicrhau'r ysbyty hwn.

David Lloyd: We are totally committed to Baglan hospital. Our argument concerns private finance initiative, which is a totally separate issue. We want Baglan hospital. We need the beds. I assure you of that.

David Lloyd: Yr ydym yn gwbl ymroddedig i ysbyty Baglan. Dadl ynghylch y menter cyllid preifat sydd gennym ni, sydd yn fater cwbl ar wahân. Mae arnom eisiau ysbyty Baglan. Mae arnom angen y gwelyau. Gallaf eich sicrhau o hynny.

Brian Gibbons: I hope that all Plaid Cymru Members support that. Thank you.

Brian Gibbons: Gobeithio fod holl aelodau Plaid Cymru yn cefnogi hynny. Diolch.

Gareth Jones: Fel cenedlaetholwr ac aelod o Blaid Cymru—The Party of Wales, yr wyf yn falch o gael y cyfle i gyflwyno un neu ddau o syniadau ar bynciau ymarferol. Fel y dywedodd Kirsty Williams yn gynharach, nid wyf am drafod unrhyw beth sydd yn ymwneud ag arbenigedd yn y maes hwn. Nid wyf yn honni bod yr arbenigedd gennyf. Fodd bynnag, hoffwn gyfeirio at un neu ddau o bethau sydd yn fy mhoeni. Mae'n annerbyniol, er enghraifft, ein bod yn amddifadu ysbytai o adnoddau ac arian. Yr ydym yn gadael i'r adeiladau ddirywio ac yn caniatáu i swyddog holl bwysig ddweud,

'Ni thâl hi ddim. Edrychwch ar gyflwr yr ysbyty, fel y mae wedi dirywio. Edrychwch ar ei ddiffygion a'i wendidau. Nid yw hyn yn dda i ddim. Fe gaewn yr ysbyty a chanoli i fod yn gost effeithiol.'

Dyna'r dacteg. Mae wedi ei defnyddio yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Mae'n deillio o'n cyfeillion yma ar y chwith. Mae'n parhau i gael ei defnyddio heddiw ac fe'i defnyddir i'r dyfodol. Dylem fod ar ein gwyliadwriaeth.

Ceir enghraifft wych o hyn yn fy etholaeth yng Nghonwy. Mae ysbyty Conwy wedi ei amddifadu. Mae'r gwasanaethau wedi eu symud i ysbytai gerllaw, ac oherwydd hynny mae'r sefyllfa yn edrych yn ddrwg. Ar sail hynny, mae'r Awdurdod am gau'r ysbyty ac amddifadu'r gymuned o wasanaeth holl bwysig ac amhrisiadwy. Mae hynny'n niweidiol o ystyried y ganran o bobl oedrannus sydd yn etholaeth Conwy. Bydd y ganran honno yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyna enghraifft ymarferol o'r hyn sydd yn digwydd ac mae'n rhaid i ni atal hynny. Fel y cyfeiriodd Dai Lloyd, rhaid inni edrych ar yr hyn sydd gennym, gwarchod y buddiannau a'r gwasanaethau hynny, adeiladu arnynt a'u

Gareth Jones: As a nationalist and a member of Plaid Cymru—The Party of Wales, I am pleased to have an opportunity to introduce a couple of ideas on practical issues. As Kirsty Williams said earlier, I will not discuss anything that involves expertise in this field. I do not claim to have any expertise. However, I will refer to a couple of things that concern me. It is unacceptable, for example, that we deprive hospitals of resources and funding. We allow buildings to deteriorate and permit an all-important official to say,

'It will not pay. Look at the state of this hospital and how it has deteriorated. Look at its faults and weaknesses. This is no good. We will close the hospital and centralise to be cost effective.'

That is the tactic. It has been used in Wales for many years. It originates from our friends here on the left. It is still being used today and it will be used in the future. We must be on our guard.

There is an excellent example of this in my constituency in Conwy. Conwy hospital has been deprived. The services have been moved to adjacent hospitals, and because of that the situation does not look good. On that basis, the Authority wants to close the hospital and deprive the community of a crucial and priceless service. That is detrimental considering the percentage of elderly people in the constituency of Conwy. That percentage will increase during the next few years. That is a practical example of what is happening and we must prevent it. As Dai Lloyd said, we must look at what we have, safeguard those interests and services, build on them and improve them.

gwella.

5:09 p.m.

Mae'r ail nodyn ymarferol yn ymdrin â gofal ataliol. Clywn lawer o sôn am ofal ataliol; hynny yw, darganfod afiechyd yn ddigon buan i'w drin ac, wrth wneud hynny, arbed cost i'r gwasanaeth iechyd. Yr wyf am gyfeirio at enghraifft ynfyd sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd yr wythnos hon yn Llandudno. Yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno, mae sganiwr esgyrn. Mae'n uned symudol sydd wedi bod yno ers dros flwyddyn, ond bydd yn cau ddiwedd y mis hwn. Mae wedi sganio oddeutu mil o bobl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi arbed miloedd o bunnau i'r gwasanaeth iechyd gan ei fod yn darganfod yr afiechyd osteoporosis, afiechyd yr esgyrn, yn ddigon cynnar. Nid oes arian ar gyfer y sganiwr ac mae'n ddiffyg ar ein rhan ni ac Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru nad yw'r arian yno i'w fuddsoddi. Ni fyddai sefydlu uned barhaol yn Llandudno ond yn costio oddeutu £90,000, ynghyd â £90,000 o refeniw i'w chynnal wedyn. Wrth sôn am ofal ataliol, ystyriwch y sefyllfa yn Llandudno.

The second practical note deals with preventative care. We hear a great deal about preventative care; that is, diagnosing a disease early enough to treat it and, by doing so, saving a cost for the health service. I shall refer to an absurd example which has received publicity in Llandudno this week. In Llandudno General Hospital there is a bone scanner. It is a mobile unit which has been there for over a year, but it will close at the end of this month. It has scanned about a thousand people during the past year. It has saved thousand of pounds for the health service because it discovers osteoporosis, the disease of the bones, early enough. There is no funding for the scanner and it is a deficiency on our behalf and the North Wales Health Authority that the money is not there to invest. Establishing a permanent unit at Llandudno would only cost about £90,000 and another £90,000 in revenue to keep it going. When we talk about preventative care, consider the situation in Llandudno.

Gobeithiaf y byddwch yn cefnogi cynnig Plaid Cymru—The Party of Wales. Mae'n allweddol nad ydym yn tynnu sylw at yr ystadegau a'r *compound arithmetic*. Gall ystadegau fod yn ddefyddiol ond hefyd gellir dad-wneud llawer o bethau da trwy ddewis yr hyn yr ydych yn ei ddyfynnu. Mae defnyddio ystadegau heb ddweud y gwir, gan nad oes neb yn eu deall, yn un ffordd o gael y maen i'r wal. Anghofiwch ystadegau ac edrychwch mewn modd ymarferol ar yr hyn sydd yn digwydd o'ch amgylch yng Nghymru.

I hope that you will support the motion of Plaid Cymru—The Party of Wales. It is crucial that we do not draw attention to the statistics and the compound arithmetic. Statistics can be useful but you can also undo many good things by being selective in your quotations. Using statistics without telling the truth, because no one understands them, is one way of achieving this. Forget the statistics and look in a practical manner at what is happening around you in Wales.

Buzz words diwedd y mileniwm yw cost effeithiol a chanoli a dyna yw gwaddol Mrs Thatcher. Gadewch i *buzz words* y mileniwm newydd fod yn fuddsoddiad, gofal ataliol o ddifrif a gwasanaethau lleol ac effeithiol.

The buzz words at the end of the millennium are cost effective and centralisation and that is legacy of Mrs Thatcher. Let the buzz words of the new millennium be investment, real preventative care and effective and local services.

Jane Hutt: I propose amendment 1 on behalf of Andrew Davies. From point 1 delete

expansion and

and from the last paragraph delete

Jane Hutt: Cynigiaf welliant 1 ar ran Andrew Davies. O bwynt 1 dileer

'ehangu a' a newid '*chryfhau'r'* i '*gryfhau'r'*

ac o'r paragraff olaf dileer

a policy pursued by the current Government.

sydd yn bolisi gan y Llywodraeth bresennol.

Thank you David Lloyd for putting the NHS on the agenda. I support the main aspirations of your resolution and the remarks about the role of the NHS in the community. We have not discussed the health service enough in the Chamber and I appreciate this opportunity today. I have said more than once, Dai, that our agenda is Welsh and your contribution, the contributions of Plaid Cymru and all the parties of the Assembly are part of the solution. In addition, your contributions in the Health and Social Services Committee are part of the solution. Your experience and expertise as a politician and as a GP are part of the solution in the same way as the other members of that Committee.

Diolch i David Lloyd am roi'r NHS ar yr agenda. Yr wyf yn cefnogi prif ddyheadau eich cynnig a'r sylwadau am rôl yr NHS yn y gymuned. Nid ydym wedi trafod y gwasanaeth iechyd ddigon yn y Siambr ac yr wyf yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn heddiw. Dywedais fwy nag unwaith, Dai, bod ein hagenda yn un Gymreig ac mae eich cyfraniad chi, cyfraniadau Plaid Cymru a holl bleidiau'r Cynulliad yn rhan o'r ateb. Yn ogystal, mae'ch cyfraniadau yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o'r ateb. Mae'ch profiad a'ch arbenigedd chi fel gwleidydd ac fel meddyg teulu yn rhan o'r ateb yn yr un modd ag aelodau eraill y Pwyllgor hwnnw.

I want to pay tribute to the 65,000 people who work in the health service in Wales. Through these debates we must ensure that we do not undermine their efforts to deliver first class health and social care in our communities. Throughout Wales there are excellent examples of local communities working with the NHS, local government and the voluntary sector to find ways of providing integrated health and social care.

Hoffwn dalu teyrnged i'r 65,000 o bobl sydd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Drwy'r dadleuon hyn rhaid inni sicrhau na fyddwn yn tanseilio'u hymdrechion hwy i roi gofal iechyd a chymdeithasol o'r radd flaenaf yn ein cymunedau. Ledled Cymru ceir enghreifftiau gwych o gymunedau lleol yn cydweithio gyda'r NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i ganfod ffyrdd o ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig.

On community hospitals, Kirsty knows that I spoke at the Community Hospitals Association conference in Llandrindod Wells. One of the first hospitals that I visited was a community one in Knighton. Community hospitals are not being sidelined at all by this Government; they are at the forefront of our work. It is important that we acknowledge their role and I am sure that you have all visited them in your communities. We must recognise that community hospitals are not all the same. They are local hospitals, providing different services in different areas. Some are run by GPs, some provide long-term care and others provide vital intermediate care between acute hospitals and home, which Brian Gibbons mentioned. We should not have prescriptions about the definition of a community hospital because they are based in communities with different needs. We should regard them as local hospitals in our communities, and an important part of the NHS's future. I assure

Ar ysbytai cymunedol, mae Kirsty'n gwybod imi siarad yng nghynhadledd Cymdeithas yr Ysbytai Cymunedol yn Llandrindod. Un o'r ysbytai cyntaf imi ymweld ag ef oedd un cymunedol yn Nhrefyclo. Nid yw ysbytai cymunedol yn cael eu gwthio o'r neilltu o gwbl gan y Llywodraeth hon; maent yn flaenllaw yn ein gwaith. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod eu rôl ac yr wyf yn siŵr eich bod i gyd wedi ymweld â hwy yn eich cymunedau. Rhaid inni gydnabod nad yw pob ysbyty cymunedol yr un fath. Ysbytai lleol ydynt, yn darparu gwasanaethau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Caiff rhai eu rhedeg gan feddygon teulu, mae rhai'n darparu gofal tymor hir ac eraill yn darparu gofal holl bwysig rhwng ysbytai aciwt a'r cartref, a grybwyllwyd gan Brian Gibbons. Ni ddylem gael rhagnodion ynghylch diffiniad ysbyty cymunedol gan eu bod wedi'u seilio mewn cymunedau ag anghenion gwahanol. Dylem edrych arnynt fel ysbytai lleol yn ein cymunedau, ac fel

you that local hospitals and their beds are an important part of our modern, responsive health service.

rhan bwysig o ddyfodol yr NHS. Sicrhaf chi fod ysbytai lleol a'u gwelyau'n rhan bwysig o'n gwasanaeth iechyd modern, ymatebol.

The new developments that we are discussing in the health service must not be based on assumptions about the best way forward. They must be based on the local health and social needs of our communities. That is where statistics are vital. Without them, we would not recognise the population's needs. For too long, resources have been put into the health service because of financial and management decisions. The last Government drove NHS management through the internal market and financial management decisions. They did not start with the health and social needs of our population, so we must know what those needs are. We must recognise and understand Wales's appalling health statistics. I am glad that Dai's resolution acknowledges the long-term agenda of improving the health and well-being of our people in Wales, which is vital.

Rhaid i'r datblygiadau newydd yr ydym yn eu trafod yn y gwasanaeth iechyd beidio â bod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch y ffordd orau ymlaen. Rhaid iddynt fod yn seiliedig ar anghenion iechyd a chymdeithasol lleol ein cymunedau. Dyna lle mae ystadegau'n holl bwysig. Hebddynt, ni fyddem yn gweld anghenion y boblogaeth. Ers gormod o amser, rhoddwyd adnoddau i mewn i'r gwasanaeth iechyd oherwydd penderfyniadau ariannol a rheolaethol. Gyrrodd y Llywodraeth ddiwethaf reolaeth yr NHS drwy'r farchnad fewnol a phenderfyniadau rheoli ariannol. Nid oeddent yn dechrau gydag anghenion iechyd a chymdeithasol ein poblogaeth, felly rhaid inni wybod beth yw'r anghenion hynny. Rhaid inni gydnabod a deall ystadegau iechyd gwarthus Cymru. Yr wyf yn falch fod cynnig Dai'n cydnabod yr agenda tymor hir o wella iechyd a lles ein pobl yng Nghymru, sydd yn holl bwysig.

Kirsty's comments about Powys and the community hospitals undervalue an extremely important and effective process in that area—the community hospitals review. People who work in the service, patients, local GPs and nurses came together to consider the community's needs. I met the local Powys health group recently. The trust, the health authority, the local authority and GPs want to do something different in that area. They want community hospitals to have a role in day and social care, as well as providing beds.

Mae sylwadau Kirsty am Bowys a'r ysbytai cymunedol yn dibrisio proses hynod o bwysig ac effeithiol yn yr ardal honno—sef adolygiad yr ysbytai cymunedol. Daeth pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaeth, cleifion, meddygon teulu lleol a nyrsys at ei gilydd i ystyried anghenion y gymuned. Cyfarfûm â grŵp iechyd lleol Powys yn ddiweddar. Mae'r ymddiriedolaeth, yr awdurdod iechyd, yr awdurdod lleol a meddygon teulu eisiau gwneud rhywbeth gwahanol yn yr ardal honno. Maent eisiau i ysbytai cymunedol gael rôl mewn gofal dydd a chymdeithasol, yn ogystal â darparu gwelyau.

It is important that we, as an Assembly, do not think that we know best. We must talk to the people at the sharp end who are looking for ways of being innovative. Our work must support and not undermine them. That is why we have amended Dai's resolution to delete the word 'expansion'. I agree that we must strengthen the role of community hospitals. However, we must ensure that expansion and development is appropriate to local circumstances and the health and social needs of our population. That should drive our health and social care developments. We

Mae'n bwysig i ni, fel Cynulliad, beidio â meddwl mai ni ŵyr orau. Rhaid inni siarad â phobl yn y pen blaen sydd yn edrych am ffyrdd i fod yn arloesol. Rhaid i'n gwaith ni eu cefnogi ac nid eu tanseilio. Dyna pam yr ydym wedi cynnig gwelliant i gynnig Dai i ddileu'r gair 'ehangu'. Cytunaf fod yn rhaid inni gryfhau rôl ysbytai cymunedol. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau fod ehangu a datblygiad yn briodol i amgylchiadau lleol ac anghenion iechyd a chymdeithasol ein poblogaeth. Hynny ddylai yrru ein datblygiadau iechyd a gofal cymdeithasol.

must strengthen the role of our local hospitals, but it must be in the context of the policy issues on primary care focus that we have discussed in the Health and Social Services Committee. We have had valuable debates about primary care focus, mental health services and community services that are not hospital-based. Let us not forget those services. Many are invisible because they are not in bricks and mortar; they are people out there on the ground as we mentioned yesterday in the Sure Start debate. We must also develop acute services. We must recognise that that is how we should strengthen the role of our local hospitals.

Rhaid inni gryfhau rôl ein hysbytai lleol, ond rhaid i hynny ddigwydd yng nghyd-destun y materion polisi ar ffocws gofal sylfaenol a drafodwyd gennym yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr ydym wedi cael dadleuon gwerthfawr am ffocws gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymunedol sydd heb fod yn seiliedig yn yr ysbyty. Peidiwn ag anghofio'r gwasanaethau hynny. Mae llawer yn anweledig am nad ydynt mewn brics a morter; pobl ydynt allan yn y maes fel a soniwyd gennym ddoe yn y ddadl ar Gychwyn Cadarn. Rhaid inni hefyd ddatblygu gwasanaethau aciwt. Rhaid inni gydnabod mai dyna sut y dylem gryfhau rôl ein hysbytai lleol.

5:19 p.m.

In relation to the second part of the motion, we are taking a more holistic approach to developing the health service and addressing health improvement and access as criteria for how we plan and develop our services. We are looking at how we can make a long-term difference to people's lives by tackling health inequalities. Health inequalities have been mentioned in this Chamber over the months by Huw Lewis, Christine Chapman as well as Dai, Geraint and Brian today. In order to tackle these inequalities, we must ensure that we do not just allocate resources to NHS trusts and health authorities which have spent above their needs. We must give resources to meet the health and social needs of our population. As Pauline Jarman pointed out during the voluntary sector debate, we all have pockets of inequality in our communities. We must recognise that that effects and impacts on how we allocate our resources. We must hold firm to that.

Ynglŷn ag ail ran y cynnig, yr ydym yn cymryd agwedd fwy holistig tuag at ddatblygu'r gwasanaeth iechyd ac ymdrin â gwella iechyd a mynediad fel meini prawf ar gyfer y modd y byddwn yn cynllunio ac yn datblygu'n gwasanaethau. Yr ydym yn edrych ar sut y gallwn wneud gwahaniaeth tymor hir i fywydau pobl drwy fynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd. Soniwyd am anghyfartaleddau iechyd yn y Siambr hon dros y misoedd gan Huw Lewis, Christine Chapman yn ogystal â Dai, Geraint a Brian heddiw. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghyfartaleddau hyn, rhaid inni sicrhau nad ydym yn dyrannu adnoddau i ymddiriedolaethau NHS ac awdurdodau iechyd sydd wedi gwario dros eu hanghenion yn unig. Rhaid inni roi adnoddau i gwrdd ag anghenion iechyd a chymdeithasol ein poblogaeth. Fel y nododd Pauline Jarman yn ystod y ddadl ar y sector gwirfoddol, mae gan bawb ohonom bocedi o anghyfartaledd yn ein cymunedau. Rhaid inni gydnabod fod hynny'n effeithio ac yn dylanwadu ar y modd y byddwn yn dyrannu'n hadnoddau. Rhaid inni lynu'n gadarn wrth hynny.

The long-term agenda must be better health, better wealth. It is important that we target the groups that are at risk. We can do so much on a preventative level but let us ensure that we do not slip back. Let us keep that long-term agenda for our policy in health and social services in front of us. Preventative care does not reach the

Rhaid i'r agenda dymor hir bwysleisio iechyd gwell, cyfoeth gwell. Mae'n bwysig inni dargedu'r grwpiau sydd mewn perygl. Gallwn wneud hyn a hyn ar lefel ataliol ond gadewch inni sicrhau na fyddwn yn llithro'n ôl. Gadewch inni gadw'r agenda dymor hir honno ar gyfer ein polisi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o'n blaenau. Nid

headlines in our Chamber but we must talk about it.

yw gofal ataliol yn cyrraedd y penawdau yn ein Siambr ond rhaid inni siarad amdano.

The corporate strategy for the NHS takes a long-term approach. We had a mature debate in Committee about this. We looked at bed usage and not just in relation to England, but I insisted that we looked at the Scottish and Northern Ireland figures. Of course we need beds in Wales and our circumstances must influence how we develop our corporate strategy. It is important that clinicians, GPs, nurses, pharmacists and others from the service have been invited to join our debates on health and social services.

Mae'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer yr NHS yn edrych ar bethau dros dymor hir. Cawsom ddadl aeddfed yn y Pwyllgor ynglŷn â hyn. Edrychwyd ar y defnydd o welyau, nid yn unig mewn perthynas â Lloegr, ond mynnais ein bod yn edrych ar ffigurau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth gwrs mae angen gwelyau yng Nghymru a rhaid i'n hamgylchiadau ddylanwadu ar y ffordd y datblygwn ein strategaeth gorfforaethol. Mae'n bwysig y gwahoddwyd clinigwyr, meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr ac eraill o'r gwasanaeth i ymuno â'n dadleuon ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

It is important that we recognise how the health service delivers. Let us be positive. In-patient treatment has increased dramatically. Welsh hospitals treated 13,000 more in-patients and day cases in the first three months of 1999 than during the same quarter four years ago. That is a tremendous increase in activity and efficiency in our hospitals. Efficiency of day case rates increased from 57 per cent in 1995 to 69 per cent in 1999. Let us not undervalue the work that people do in our hospitals and communities to ensure that they meet the health care needs of our communities.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod sut y mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithredu. Byddwn yn bositif. Bu cynnydd dramatig mewn triniaeth i gleifion mewnol. Rhoddodd ysbytai Cymru driniaeth i 13,000 mwy o gleifion mewnol ac achosion dydd yn nhri mis cyntaf 1999 nag yn ystod yr un chwarter bedair blynedd yn ôl. Dyna gynnydd aruthrol o ran gweithgaredd ac effeithlonrwydd yn ein hysbytai. Cynyddodd effeithlonrwydd cyfraddau achosion dydd o 57 y cant yn 1995 i 69 y cant yn 1999. Peidiwn â dibrisio'r gwaith a wneir gan bobl yn ein hysbytai a'n cymunedau i sicrhau eu bod yn ateb anghenion gofal iechyd ein cymunedau.

In response to Dai Lloyd and David Melding's portrayal of Government policies, our priority is emphatically not to close hospitals and centralise services. The First Secretary and I have made this clear in this Chamber and in Committees and to health bodies across Wales. That is why I agree with amendment 1, which suggests that these are policies pursued by the current Government, and reject amendment 3. The development of 22 local health groups and 22 local health allowances is about localising the planning and delivery of services based on health and social need. It is about localising our services alongside the delivery of our services through our community hospitals and community-based services.

Mewn ymateb i bortread Dai Lloyd a David Melding o bolisïau'r Llywodraeth, ein blaenoriaeth yn bendant yw peidio â chau ysbytai a chanoli gwasanaethau. Mae'r Prif Ysgrifennydd a mi wedi gwneud hyn yn glir yn y Siambr hon ac mewn Pwyllgorau ac i gyrff iechyd ar hyd a lled Cymru. Dyna pam yr wyf yn cytuno â gwelliant 1, sydd yn awgrymu mai polisïau yw'r rhain a ddilynir gan y Llywodraeth gyfredol, ac yn gwrthod gwelliant 3. Diben datblygu'r 22 grŵp iechyd lleol a'r 22 lwfans iechyd lleol yw datganoli'r prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau ar sail anghenion iechyd a chymdeithasol. Ei ddiben yw datagnaoli ein gwasanaethau ar y cyd â darparu ein gwasanaethau drwy ein hysbytai a'n gwasanaethau yn y gymuned.

I cannot let David Melding's Government off

Ni allaf achub croen Llywodraeth David

the hook. You cannot distance yourself from the 72 hospital closures that took place in Wales during the last Conservative Government. This is why I reject amendment 3. I commented on Nick Bourne's question about additional resources earlier today and, as he well knows, the comprehensive spending review has given us the unprecedented increase of £1 billion over the past three years.

Melding. Ni allwch ymbellhau oddi wrth y 72 o ysbytai a gaewyd yng Nghymru yn ystod y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Dyna pam y gwrthodaf welliant 3. Yr wyf wedi rhoi sylwadau ar gwestiwn Nick Bourne ynghylch adnoddau ychwanegol yn gynharach heddiw ac, fel y gŵyr ef yn iawn, mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi rhoi inni'r cynnydd digynsail o £1 biliwn dros y tair blynedd diwethaf.

I am grateful for this debate today but I urge the Assembly and all of us in it to build on our constructive approach and to support amendment 1, the Government amendment to the motion. We are strengthening our community services and our local hospitals. I urge the Assembly to build on our constructive approach by supporting the Government's amendment. It states that our aim is to strengthen our community services and local hospitals, and to localise services to meet the health and social needs of our population and to improve the long-term health and well-being of the people of Wales.

Yr wyf yn ddiolchgar am y ddadl hon heddiw ond anogaf y Cynulliad a phawb ohonom ynddo i adeiladu ar ein hagwedd adeiladol a chefnogi gwelliant 1, gwelliant y Llywodraeth i'r cynnig. Yr ydym yn cryfhau'n gwasanaethau cymunedol a'n hysbytai lleol. Anogaf y Cynulliad i adeiladu ar ein hagwedd adeiladol drwy gefnogi gwelliant y Llywodraeth. Mae'n datgan mai ein nod yw cryfhau'n gwasanaethau cymunedol a'n hysbytai lleol, a sicrhau gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion iechyd a chymdeithasol ein poblogaeth a gwella iechyd a lles tymor hir pobl Cymru.

Helen Mary Jones: I am grateful for Jane's response to our debate. The Health and Social Services Committee is often held up as a good example of the inclusive practices we are trying to develop in the Assembly. It is true, at least in terms of its debating style though not necessarily in terms of its influence on Government policy. I pay tribute to Jane as Assembly Secretary. She is hard-working, committed and nobody can doubt her good intentions.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn ddiolchgar am ymateb Jane i'n dadl. Caiff y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ddefnyddio'n aml fel enghraifft dda o'r arferion cynhwysol yr ydym yn ceisio'u datblygu yn y Cynulliad. Mae'n wir, o leiaf yn nhermau ei arddull ddadlau er nad o reidrwydd yn nhermau ei ddylanwad ar bolisi'r Llywodraeth. Talaf deyrnged i Jane fel Ysgrifennydd Cynulliad. Mae hi'n weithgar, yn ymroddgar ac ni all neb amau ei bwriadau da.

However, the road to hell is sometimes paved with good intentions. Those intentions will be worth nothing to the people of Wales if no action is taken as a result. We need to be working in the long-term, as Jane rightly said, and we must see the corporate strategy in that context. We cannot turn things around overnight. It is interesting that the time scale is 25 years, which is the exact lifetime of a private finance initiative—a series of millstones that we are at risk of putting around our children's necks.

Fodd bynnag, weithiau mae'r ffordd i uffern yn llawn bwriadau da. Ni fydd y bwriadau hynny'n werth dim i bobl Cymru os na wneir dim o ganlyniad. Mae angen inni fod yn gweithio yn y tymor hir, fel y dywedodd Jane yn gywir, a rhaid inni weld y strategaeth gorfforaethol yn y cyd-destun hwnnw. Ni allwn wyrdroi pethau dros nos. Mae'n ddiddorol mai 25 mlynedd yw'r raddfa amser, sef union hyd oes menter cyllid preifat—cyfres o feini melin yr ydym mewn perygl o'u rhoi am yddfau ein plant.

We welcome many aspects of Government policy. However, despite what Jane has said, we remain concerned that certain aspects of

Croesawn sawl agwedd ar bolisi'r Llywodraeth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Jane, yr ydym yn dal yn

policy do not allow the Government of Wales to be as free as it would like to develop a truly Welsh agenda. One example is the viability of hospitals, which has been mentioned several times this afternoon. Is the model of hospital provision unsustainable? If so, it is in terms of a shortage of beds and a lack of services. I am sick and tired of people in my constituency surgeries speaking about being passed around from pillar to post. I had examples that I wanted to share, but I will leave those on the table. If it is unsustainable in terms of a shortage of beds and a lack of services, it is due to long-term unsustainability because of a shortage of resources. I press the Government of Wales again to take seriously the views of the Health and Social Services Committee on this matter.

bryderus nad yw rhai agweddau polisi'n caniatáu i Lywodraeth Cymru fod mor rhydd ag yr hoffai i ddatblygu agenda wirioneddol Gymreig. Un enghraifft yw hyfywdra ysbytai, a grybwyllwyd sawl gwaith y prynhawn yma. A yw'r model o ddarpariaeth ysbytai yn anghynaliadwy? Os ydyw, yn nhermau prinder gwelyau a diffyg gwasanaethau y mae hynny. Yr wyf wedi hen alaru ar bobl yn fy nghymorthfeydd etholaethol yn sôn am gael eu hel o bant i bentan. Yr oedd gennyf enghreifftiau yr oeddwn am eu rhannu, ond fe'u gadawaf ar y bwrdd. Os ydyw'n anghynaliadwy yn nhermau prinder gwelyau a diffyg gwasanaethau, anghynaliadwyedd tymor hir yw'r rheswm oherwydd prinder adnoddau. Yr wyf yn pwyso ar Lywodraeth Cymru eto i gymryd sylwadau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ddifrif ar y mater hwn.

We do not need to centralise to provide the best services. Most health needs are fairly simple and are best met in the community. We urge the Government to take seriously our policy of strengthening and expanding our network of community hospitals. Specialised centres may need to address more specialist and complex needs. However, many of these needs can be met by asking the staff to move about rather than the patients, and those policies are already being developed.

Nid oes angen inni ganoli i ddarparu'r gwasanaethau gorau. Mae'r rhan fwyaf o anghenion iechyd yn weddol syml ac yn cael eu diwallu orau yn y gymuned. Anogwn y Llywodraeth i gymryd ein polisi o gryfhau ac ehangu'n rhwydwaith o ysbytai cymunedol o ddifrif. Efallai y bydd angen i ganolfannau arbennig ymdrin ag anghenion mwy arbenigol a chymhleth. Fodd bynnag, gellir ymdrin â llawer o'r anghenion hyn drwy ofyn i'r staff symud o gwmpas yn hytrach na'r cleifion, ac mae'r polisïau hynny eisoes yn cael eu datblygu.

I urge the Government again to dissociate itself once and for all from Jon Owen Jones's comments last summer, which continue to cast a shadow over all discussions about strategic planning—

Anogaf y Llywodraeth eto i ddatgysylltu ei hun unwaith ac am byth oddi wrth sylwadau Jon Owen Jones yr haf diwethaf, sydd yn parhau i fwrw cysgod dros bob trafodaeth am gynllunio strategol—

The First Secretary: How often do we have to do it?

Y Prif Ysgrifennydd: Pa mor aml sydd yn rhaid inni wneud hyn?

Helen Mary Jones: You have to do it until people in Wales believe you. The result at the moment is that they—[*Interruption.*]

Helen Mary Jones: Rhaid ichi ei wneud nes bydd pobl yng Nghymru'n eich credu chi. Y canlyniad ar hyn o bryd yw eu bod—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. We are running out of time.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r amser yn mynd yn drech na ni.

The First Secretary: I have said it in this Chamber. I cannot think of a more

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi ei ddweud yn y Siambr hon. Ni allaf feddwl am

authoritative place to do it with all the energy and strength that I can, that the agenda in Jon Owen Jones's article is not the Government's agenda. It is not that way we will take things forward. I am repeating what I have said before, therefore I do not think it would be helpful to give continued credence to something we have rejected.

le mwy awdurdodol i'w wneud gyda'r holl egni a nerth a allaf, nad agenda'r Llywodraeth yw'r agenda yn erthygl Jon Owen Jones. Nid dyna'r ffordd y byddwn yn mynd â phethau yn eu blaenau. Yr wyf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais o'r blaen, felly nid wyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol parhau i roi coel ar rywbeth yr ydym wedi'i wrthod.

Helen Mary Jones: I welcome what you have said. I do not give continued credence to it but my constituents in Llanelli do. I will remind them again of what you said today.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn croesawu'r hyn yr ydych wedi'i ddweud. Nid wyf i'n parhau i roi coel ar hyn ond y mae fy etholwyr yn Llanelli yn gwneud. Byddaf yn eu hatgoffa eto o'r hyn a ddywedasoch heddiw.

Jane mentioned the importance of statistical information. I urge her to consider carefully some of the statistical information being used at the moment to inform our decision making. I am sure she would agree that it is not always as accurate as we would wish it to be. For example, it shows that there was no cardiac surgery at all in Llanelli during the last year. That makes surgeons and nurses involved in the many operations that took place, feel invisible and unvalued. Despite some positive points, the public's perception in Wales is that the NHS is in serious trouble, if not a crisis. That is the perception despite the first rate work of the tens of thousands of people that deliver those services. The motion is drafted to give the Conservative Party and the Labour Government the opportunity to acknowledge their responsibility for this state of affairs. We are disappointed that their amendments show that they have no intention of doing so. We will, therefore, oppose amendments 1 and 3.

Soniodd Jane am bwysigrwydd gwybodaeth ystadegol. Anogaf hi i ystyried yn ofalus rannau o'r wybodaeth ystadegol sydd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel sail i'n penderfyniadau. Yr wyf yn siŵr y byddai hi'n cytuno nad ydyw bob amser mor gywir ag y dymunem. Er enghraifft, mae'n dangos na fu llawdriniaeth ar y galon o gwbl yn Llanelli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny'n gwneud i lawfeddygon a nyrsys a fu wrthi gyda'r nifer o lawdriniaethau a ddigwyddodd, deimlo'n anweledig a heb eu gwerthfawrogi. Er gwaethaf rhai pwyntiau cadarnhaol, yr argraff a gaiff y cyhoedd yng Nghymru yw fod yr NHS mewn dyfroedd dyfnion, os nad argyfwng. Dyna'r argraff er gwaethaf gwaith rhagorol degau o filoedd o bobl sydd yn cyflawni'r gwasanaethau hynny. Mae'r cynnig wedi'i ddrafftio i roi cyfle i'r Blaid Geidwadol a'r Llywodraeth Lafur gydnabod eu cyfrifoldeb am y sefyllfa hon. Yr ydym yn siomedig fod eu gwelliannau'n dangos nad oes ganddynt unrhyw fwriad i wneud hynny. Byddwn, felly, yn gwrthwynebu gwelliannau 1 a 3.

5:29 p.m.

We must be positive and move forward. We desperately need more resources as agreed by the Health and Social Services Committee. However, we can achieve positive change even within the current pattern. Our corporate plan for the NHS in Wales must meet Welsh needs in a Welsh context, providing services for people where they need them most and targeting resources where they are needed most. The plan must not centralise or cut. I

Rhaid inni fod yn gadarnhaol a symud ymlaen. Mae angen dirfawr am ragor o adnoddau fel y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno. Fodd bynnag, gallwn sicrhau newid cadarnhaol hyd yn oed o fewn y patrwm cyfredol. Rhaid i'n cynllun corfforaethol i'r NHS yng Nghymru ateb anghenion Cymru mewn cyd-destun Cymreig, gan ddarparu gwasanaethau i bobl lle mae eu hangen fwyaf

ask the Assembly to support this motion with amendment 2 in the name of David Melding, as a positive contribution to the ongoing debate.

a thargedu adnoddau i'r man lle mae'r angen mwyaf. Rhaid i'r cynllun beidio â chanoli na chwtogi. Gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn ynghyd â gwelliant 2 yn enw David Melding, fel cyfraniad cadarnhaol at y ddadl sydd yn mynd yn ei blaen.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 1.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 1.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

The Presiding Officer: I am in doubt as to the result, I will therefore call for a confirmatory vote.

Y Llywydd: Mae gennyf amheuaeth ynghylch y canlyniad, felly galwaf am bleidlais gadarnhau.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 24.
The Assembly divided: For 24, Abstain 0, Against 24.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Phil

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 1.12, I am using my casting vote against.

Y Llywydd: Dan Reol Sefydlog Rhif 1.12, yr wyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn.

Amendment rejected.

Gwrthodwyd y gwelliant.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 2.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 2.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

The Presiding Officer: I am in doubt as to the result, I will therefore call for a

Y Llywydd: Mae gennyf amheuaeth ynghylch y canlyniad, felly galwaf am

confirmatory vote.

bleidlais gadarnhau.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 24.
The Assembly divided: For 25, Abstain 0, Against 24.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 3.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 3.

A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.

The Presiding Officer: We will now vote on the amended motion that

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi'i ddiwygio fod

this Assembly is committed to an NHS in Wales with its focus firmly in the community. Furthermore this Assembly calls for:

1. Expansion and strengthening of the all Wales network of community hospitals;

2. Health spending in Wales to have proper regard to the principles of access and service, and the differing needs of Wales;

3. The Cabinet to act on the Health and Social Services Committee's advice to increase expenditure on the NHS over and

y Cynulliad hwn wedi ymrwymo i NHS yng Nghymru sydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gymuned. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cynulliad yn galw am:

1. Ehangu a chryfhau'r rhwydwaith Cymru gyfan o ysbytai cymunedol;

2. I wariant ar iechyd yng Nghymru barchu egwyddorion mynediad a gwasanaeth, a'r gwahanol anghenion yng Nghymru;

3. Bod y Cabinet yn dilyn cyngor y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu gwariant ar yr NHS yn ychwanegol

above the level outlined in the Government's Expenditure Plans for 2000-01; and

at y lefel a amlinellir yng Nghynlluniau Gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2000-01; ac

4. Urgent action by the Cabinet to tackle the NHS financial crisis as described in the NHS stocktake report of July 1999.

4. I'r Cabinet weithredu ar fyrder i ddatrys argyfwng ariannol yr NHS fel y'i disgrifir yn adroddiad cloriannu'r NHS a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999.

Moreover, this Assembly recognises that hospital closures which was a policy pursued over the last two decades, and increasing centralisation of NHS services, a policy pursued by the current Government, are not a solution to the problems of the NHS in Wales.

Yn ogystal, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod nad yw cau ysbytai, a oedd yn bolisi dros y ddau ddegawd diwethaf, a chanoli gwasanaethau'r NHS fwyfwy, sydd yn bolisi gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problem yr NHS yng Nghymru.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

The Presiding Officer: We will take a confirmatory vote.

Y Llywydd: Cymerwn bleidlais gadarnhau.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
The Assembly divided: For 19, Abstain 0, Against 30.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following members voted against:

Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Rogers, Peter
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Amended motion rejected.

Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Yn Llywydd: Dyna ddiwedd y cyfarfod

The Presiding Officer: That brings today's

heddiw.

session to an end.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.44 p.m.
The session ended at 5.44 p.m.